

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD		NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH		THE EXECUTIVE	
DYDD MAWRTH 18 CHWEFOR 2025 10.00 o'r gloch		TUESDAY 18 FEBRUARY 2025 10.00 am	
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM		COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM	
Swyddog Pwyllgor		Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/The Party of Wales

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

4 COFNODION (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2025.

5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH (Tudalennau 7 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

6 MONITRO CYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3, 2024/25 (Tudalennau 15 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 MONITRO CYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 3, 2024/25 (Tudalennau 39 - 54)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 3, 2024/25 (Tudalennau 55 - 66)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

9 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2024/25 (Tudalennau 67 - 84)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

10 FFIOEDD A THALIADAU 2025/26 (Tudalennau 85 - 128)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

- 11 **FFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL AR GYFER 2025/26**
(Tudalennau 129 - 132)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Oedolion.
- 12 **STRATEGAETH GYFALAF 2025 – 2030** (Tudalennau 133 - 170)
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.
- 13 **ADOLYGU POLISI IAITH GYMRAEG CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 171 - 200)
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.
- 14 **TERFYNU CYTUNDEB PARTNERIAETH GWE** (Tudalennau 201 - 206)
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 21 Ionawr 2025

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr (ar gyfer eitemau 1 i 7) Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Pennaeth Democratiaeth Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gweddarlledu (FT)
YMDDIHEURIADAU:	Ni dderbyniwyd yr un ymddiheuriad
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Douglas Fowlie (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Derek Owen Rheolwr Sgriwtini (AGD).

1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd yr un ymddiheuriad.

2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Roberts ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen a gadawodd y cyfarfod pan drafodwyd y mater.

3. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Nid oedd dim i'w adrodd.

4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol i'w cadarnhau –

- 26 Tachwedd 2024
- 10 Rhagfyr 2024

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel rhai cywir –

- 26 Tachwedd 2024
- 10 Rhagfyr 2024

5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd, i'w gadarnhau, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng Chwefror a Medi 2025.

Cyflwynodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar y newidiadau i'r Flaen Raglen Waith, sef bod adroddiadau monitro perfformiad a monitro ariannol chwarterol wedi'u hychwanegu fel eitemau ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2025, a bod adroddiad ar ddod â phartneriaeth ranbarthol GwE i ben wedi'i gynnwys fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror 2025.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Chwefror i Fedi 2025 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.

6. CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys y cynigion cychwynnol drafft ar gyfer Cyllideb Refeniw 2025/26 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a'i gymeradwyo er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai, a dywedodd fod y cynigion cychwynnol drafft ar gyfer y gyllideb wedi cael eu cyflwyno'n llawn i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 15 Ionawr 2025. Cafodd y cynigion eu harchwilio a'u herio'n fanwl mewn trafodaeth gynhwysfawr gan aelodau'r pwyllgor, yn ogystal ag Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a oedd wedi derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod. Cyflwynodd grynoded o'r sefyllfa gan ddweud bod y setliad drafft ar gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 10 Rhagfyr 2024 yn rhoi cynnydd o 3.6% i Ynys Môn (0.7% yn is na chyfartaledd Cymru a'r 16^{eg} cynnydd uchaf o blith y 22 awdurdod yng Nghymru). Er bod y setliad yn well na'r disgwyl, mae'n llawer is na'r hyn sydd ei angen i gwrdd â'r cynnydd mewn costau sy'n wynebu'r Cyngor ac, ar ôl darparu ar gyfer y prif newidiadau yn y gyllideb, sy'n cael eu hesbonio yn adran 4 o adroddiad y Swyddog Adran 151, mae'r Cyngor yn wynebu bwlch ariannol o £10.791m cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r Dreth Gyngor. Pe byddai'r Cyngor yn ceisio cwrdd â'r diffyg dim ond drwy gynyddu'r Dreth Gyngor, byddai angen cynnydd o 20.6% yn y Dreth Gyngor. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn derbyn nad yw hyn yn ddewis realistig ac nid yw'n gam y byddai'n dymuno ei gymryd. Cynnig y Pwyllgor Gwaith felly yw defnyddio cyfuniad o arbedion cyllidebol, defnyddio arian wrth gefn a chodi'r Dreth Gyngor er mwyn llunio cyllideb gytbwys, rhywbeth y mae'n rhaid i'r Cyngor ei wneud yn unol â'r gyfraith. Mae cyllideb refeniw ddrafft gychwynnol o £195.234m yn cael ei chynnig ac mae'n cynnwys arbedion o £699k, defnyddio £2m o arian wrth gefn a chynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor (yn cynnwys 0.65% ar gyfer Ardoll y Gwasanaeth Tân). Byddai hyn yn golygu cynnydd o £2.87 yr wythnos yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynigion cychwynnol drafft ar gyfer y gyllideb er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a'r bwriad yw cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 22 Ionawr a 7 Chwefror. Roedd y Cynghorydd Robin Williams yn annog trigolion Môn i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a lleisio eu barn er mwyn dylanwadu ar gynigion terfynol y gyllideb cyn ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth. Ychwanegodd na fyddai'r setliad terfynol yn cael ei gadarnhau tan fis Chwefror ac y byddai unrhyw newidiadau yn sgil hynny, a'r effaith ar y gyllideb arfaethedig, yn cael eu hystyried bryd hynny.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac y byddai'r pwyllgor hwnnw'n ystyried cynigion terfynol y gyllideb ac adborth y cyhoedd yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2025. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod wedyn, ar 27 Chwefror, i argymhell cyllideb derfynol ar gyfer 2025/26 i'r Cyngor Llawn ei chymeradwyo. Roedd hefyd yn annog trigolion Môn i ddarllen adroddiad y gyllideb ac edrych ar weddarllodiad o gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor o ran llunio cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, bod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 15 Ionawr 2025 ac ar ôl ystyried yr holl ddogfennau cyllideb a gyflwynwyd ac ymatebion Aelodau Portffolio a swyddogion perthnasol i'r materion a godwyd mewn perthynas â manylion ac effaith y cynigion unigol, penderfynwyd cefnogi'r cynigion cychwynnol drafft ar gyfer cyllideb 2025/26, fel y cawsant eu cyflwyno, er mwyn gosod cyllideb gytbwys a'u hargymhell i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arnynt.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Fowlie ac aelodau Sgriwtini am y drafodaeth lawn ac addysgiadol a gafwyd yn y cyfarfod ar 15 Ionawr. Cyfeiriodd at un o'r materion sylfaenol a godwyd yn y cyfarfod, sef sut oedd modd cyfiawnhau cynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor er bod y Cyngor wedi derbyn mwy o arian. Roedd y Cyngor wedi derbyn setliad gwell na'r disgwyl, ond esboniodd y Cadeirydd y byddai angen setliad o 9% gan Lywodraeth Cymru er mwyn i'r Cyngor barhau i ddarparu ei wasanaethau craidd ar y lefel bresennol, heb orfod gwneud unrhyw arbedion a chadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor cyn ised â phosib, ond cynnydd o 3.6% a dderbyniwyd yn hytrach na 9%. Oherwydd bod bwlch yn y gyllideb – y gwahaniaeth rhwng y cyllid y mae'r Cyngor wedi'i dderbyn a'r hyn y mae'n rhaid iddo wario er mwyn darparu gwasanaethau yn 2025/26, mae llunio cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26 wedi bod yn heriol. Er nad yw unrhyw aelod yn dymuno codi'r Dreth Gyngor neu dorri gwasanaethau, pwysleisiodd y Cadeirydd nad oes fawr o opsiynau ar gyfer cydbwysu'r gyllideb a bod angen i Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru roi cydnabyddiaeth ariannol briodol i'r gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol os yw'r gwasanaethau hynny am barhau i fod yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Ar gais y Pwyllgor Gwaith, a oedd yn awyddus i'r cyhoedd ddeall y math o heriau y bu'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw er mwyn cydbwysu cyllideb 2025/26, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y pwysau sy'n wynebu'r Cyngor oherwydd bod costau nwyddau a gwasanaethau'n codi, codiadau cyflog, gan gynnwys cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a newidiadau yng nghyfraniadau YG y cyflogwr, ynghyd â thwf yn y galw am wasanaethau'r Cyngor, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol plant ac oedolion a chynnydd mewn digartrefedd. Esboniodd y Swyddog Adran 151 beth oedd effaith yr holl ffactorau hyn ar osod y gyllideb a nododd nad yw'r Cyngor yn gallu rheoli nifer o'r elfennau hyn, a'r unig beth y mae'n gallu ei wneud yw ceisio eu rheoli cystal â phosib.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sut y gall y galw am ofal cymdeithasol i blant ychwanegu'n sylweddol at gostau'r Cyngor, yn enwedig mewn achosion cymhleth lle mae anghenion y plant yn golygu bod angen gofal arbenigol mewn lleoliadau costus oddi ar yr Ynys. Mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r galwadau hyn a darparu ar eu cyfer. Esboniodd bod y Cyngor yn ceisio cyfyngu ar effaith pwysau o'r fath trwy gryfhau ei ddarpariaeth ei hun, yn bennaf trwy ddatblygu Cartrefi Clyd ar yn ynys a darparu ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i blant a'u teuluoedd er mwyn atal problemau rhag datblygu'n broblemau mwy difrifol. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd fod pwysau tebyg i'w weld ym maes gofal cymdeithasol oedolion gan fod poblogaeth sy'n heneiddio sydd ag anghenion cynyddol gymhleth yn golygu bod mwy o alw am wasanaethau'r Cyngor.

Nododd y Swyddog Adran 151 nad yw'r heriau y mae'r Cyngor yn gorfod eu rheoli'n unigryw i Fôn a bod cynghorau ledled Cymru'n profi'r un pwysau ar eu cyllidebau. Mae arwyddion yn awgrymu bod y rhan fwyaf o gynghorau'n ystyried cynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2025/26 ac mae nifer yn argymhell cynnydd rhwng 8% a 9.5% neu fwy. Treth Gyngor Ynys Môn oedd yr isaf yng Ngogledd Cymru yn 2024/25 ac roedd £80 yn is na chyfartaledd Cymru. Ychwanegodd hefyd y byddai'r bil Treth Gyngor terfynol ar gyfer 2025/26 yn cynnwys praesept yr heddlu, er mwyn cwrdd â chostau'r heddlu yng Ngogledd Cymru, a phraesept y cynghorau tref a chymuned, i gwrdd â gofynion cyllidebau'r cynghorau tref a chymuned er mwyn iddynt ddarparu'r gwasanaethau sydd dan eu gofal. Esboniodd hefyd sut y gallai agweddau'n ymwneud ag economi ehangach y DU, yn ogystal â materion byd-eang, ddylanwadu ar y rhagolygon cyllid ar gyfer llywodraeth leol yn 2026/27 a thu hwnt. Mae disgwyl i adolygiad gwariant y Llywodraeth yn y gwanwyn eleni ddarparu sicrwydd ynglŷn â'r mater, a'r gobaiith hefyd yw y bydd yn cynnwys rhagolygon cyllid ar gyfer y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru, er mwyn caniatáu i gynghorau'n Nghymru gynllunio'n well ar gyfer y tymor canol, yn hytrach na chynllunio fesul blynyddyn, a dyma'n union y bu cynghorau'n pwyso amdano trwy Gymdeithas Lywodraeth Leol Cymru.

Yn y sylwadau clo, nododd aelodau'r Pwyllgor Gwaith fod datblygu'r gyllideb ar gyfer 2025/26 wedi bod yn broses hir a heriol dros fisoedd lawer. Nodwyd hefyd bod y fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu arian i gynghorau yng Nghymru yn rhoi cynghorau mwy gwledig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, tebyg i Ynys Môn, dan anfantais a'i fod wedi derbyn setliad is na'r cyfartaledd o gymharu â dyraniad cynghorau trefol yn ne Cymru yn bennaf.

Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –

- Y gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2025/26 o £195.234m.
- Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 8.85%, ynghyd â 0.65% i dalu'r Ardoll Tân yn rhoi cyfanswm o 9.50% gan fynd â thâl Band D i £1,721.70.
- Cynnig yn ffurfiol i gadw'r premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi ar 100%.
- Bod £2.000m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn mantoli cyllideb refeniw 2025/26.

7. CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL I BOBL HŶN – PENNU FFI SAFONOL 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i bennu'r ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal y Cyngor yn 2025/26.

Gadawodd y Cynghorydd Dafydd Roberts y cyfarfod gan iddo ddatgan diddordeb personol oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â'r eitem hon, ac nid oedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth na'r bleidlais.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol, a nododd fod hyn yn ofyniad blynyddol o dan Adran 22 Deddf Cymorth Gwladol 1948.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion at faterion yr oedd rhaid eu hystyried wrth gyfrifo'r ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal y Cyngor, fel y nodir yn yr adroddiad, a dywedodd fod yr argymhellion ar gyfer 2025/26 yn cynnwys cyflwyno ffi ar wahân ar gyfer gofal preswyl i henoed bregus eu meddwl (EMI).

Penderfynwyd –

- Codi cost lawn ar gyfer gwasanaeth Cartrefi Preswyl, sef £983.86 yr wythnos yn 2025/26.
- Bod cost lawn ar gyfer y gwasanaeth Cartrefi EMI yn cael ei gyflwyno dros gyfnod o 3 blynedd, gan olygu fod cost lawn y gwasanaeth yn cael ei ostwng i £1,046.41 yr wythnos yn 2025/26.

8. GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DI-BRESWYL YN Y GYMUNED – FFI OEDD A THALIADAU 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n arferol adolygu'r taliadau mewn perthynas â gwasanaethau gofal cartref bob blwyddyn, er mwyn cyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau pensiwn a budd-daliadau.

Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y cyd-destun ar gyfer pob categori o'r ffioedd a thaliadau ac esboniodd y rhesymau tu ôl i'r ffi arfaethedig ym mhob achos. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor Gwaith ynglŷn â heriau recriwtio yn y gwasanaethau gofal cartref y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod yr heriau hynny'n parhau a chyfeiriodd at y prif ffactorau, sef natur y gwaith, oriau anghymdeithasol a chyfraddau tâl anghystadleuol. Mewn ymateb i gwestiwn pellach am effaith y cap o £100 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar y swm y mae cynghorau'n cael ei godi am ofal a chymorth yn y cartref, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y cap wedi'i gyflwyno naw mlynedd yn ôl erbyn hyn a phe byddai chwyddiant wedi cael ei ychwanegu byddai'r gost dros £150 erbyn heddiw. Mae'r cap yn golygu hefyd bod bwlch rhwng costau gofal preswyl a gofal yn y gymuned ac mae cleientiaid sy'n derbyn gofal a chymorth yn y gymuned yn talu llai am y ddarpariaeth nag y byddent mewn lleoliad gofal preswyl, a gallai hynny ddylanwadu ar benderfyniadau pobl ynglŷn â'u gofal ac efallai eu bod yn aros yn y gymuned yn hirach nag y dylent. Gall y gwahaniaeth yn y costau fod yn sylweddol mewn rhai achosion, a gellid ystyried bod hynny'n annheg, yn enwedig os yw'r modd gan unigolyn i dalu.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Alun Roberts bod y mater wedi'i godi gyda Gweinidog Iechyd blaenorol Llywodraeth Cymru a chafwyd addewid y byddai'r mater yn cael ei adolygu, ond nid yw hyn wedi digwydd. Roedd trafodaeth ddiweddar rhwng Aelodau Portffolio a'r Gweinidog Iechyd newydd ym mis Rhagfyr y llynedd yn fwy cadarnhaol a'r gobaith yw y gwelir rhyw fath o weithredu mewn perthynas â'r mater hwn maes o law.

Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –

- Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.
- Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal a amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad:
 - Haen 1 – bydd pawb yn talu £78.00 y chwarter
 - Haen 2 – bydd pawb yn talu £153.40 y chwarter
- Y taliadau Teleofal Blynnyddol a amlinellir yn Atodiad B yr adroddiad:
 - Gwasanaethau a Chynnal a Chadw £142.50
 - Gwasanaethau yn unig £91.50
 - Costau gosod unwaith ac am byth £57.00

- Cyfradd o £16.80 yr awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol
- Gweithredu tâl o £19.00 yr awr ar gyfer Micro Ofalwyr
- Cadw'r taliad o £10.00 ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynau Glas a darparu bathodynau newydd fel yr amlinellir yn yr adroddiad.
- Cynnydd o 1.7% i £45.10 y dydd yn y ffi ar gyfer prynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol (wedi'i dalgrynnu i'r £0.05 agosaf)
- Cynnydd o £1.73 yr awr mewn ffioedd Gofal Cartref er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd
- Taliadau am Brydau mewn Gwasanaethau Dydd fel yr amlinellir yn Nhabl C yr adroddiad:
 - Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i Oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - £7.80
 - Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - £3.30
 - Lluniaeth arall (te/coffi/teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - £1.85

Y Cyngorydd Gary Pritchard
Cadeirydd

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	18 Chwefror 2025
Pwnc / Testun:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Deilydd(ion) Portffolio:	Y Cynghorydd Gary Pritchard
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mawrth – Hydref 2025**;

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgrwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy'.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Ddim yn berthnasol.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyddrafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9	Aelodau Lleol	Ddim yn berthnasol.

F - Atodiadau:
Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mawrth – Hydref 2025

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2025

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Tudalen 10 Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 10 Chwefror 2025

Mawrth 2025

Tudalen 11

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtni a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 25 Mawrth 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2024/25	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgriwtni Corfforaethol 11.3.25
	Cynllun Ynni Ardal Lleol	Cyng Nicola Roberts	Pwyllgor Sgriwtni Partneriaeth ac Adfywio – 12.3.25
	Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd Lleol	Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtni Corfforaethol 11.3.25
	Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2023/24	Cyng Dafydd Roberts Cyng Robin Williams	
Penderfyniad dirprwyiedig – Mawrth 2025	Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2023/24	Cyng Alun Roberts	Pwyllgor Sgriwtni Partneriaeth ac Adfywio – 12.3.25

Ebrill 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 29 Ebrill 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
Penderfyniad dirprwyiedig – Ebrill 2025	Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru	Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 10.4.25

Mai 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 22 Mai 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Tudalen 12

Mehefin 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 24 Mehefin 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2024/25	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 17.6.25
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2024/25	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid -

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2024/25	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid -
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2024/25	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid -
Penderfyniad dirprwyiedig – Mehefin 2025	Adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024/25	Cyng Dafydd Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio – 18.6.25

Gorffennaf 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 17 Gorffennaf 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Medi 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 23 Medi 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 17.9.25
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 11.9.25

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Adnoddau 11.9.25
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtini Adnoddau 11.9.25
	Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Porthaethwy	Cyng Alun Roberts Cyngl Robin Williams	

Hydref 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 21 Hydref 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i'r:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	18 CHWEFROR 2025
Pwnc:	ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3 2024/25
Deilydd(ion) Portffolio	ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A THAI
Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	BETHAN HUGHES-OWEN – RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG
Ffôn:	01248 752663
E-bost:	Bethan.Owen2@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	amherthnasol
A – Argymhelliad/ion a rheswm/rhesymau	
Argymhellion (i) Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B a C mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2024/25; (ii) Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2024/25, y manylir arnynt yn Atodiad CH; (iii) Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2024/25 yn Atodiadau D a DD; (iv) Cytuno i weithredu'r Ffioedd a Thaliadau newydd ar gyfer 2024/25, a'r ffioedd a addaswyd, fel y manylir yn Atodiad E.	
Rheswm Mae'r sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y trydydd chwarter yn dangos y bydd y sefyllfa derfynol yn arwain at danwariant ar y gyllideb refeniw o £59k (0.03%). Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 3, 31 Rhagfyr 2024. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan hefyd yn cael ei chrynhai. Gan fod yr adroddiad hwn yn crynhai'r sefyllfa hyd at ddiwedd y trydydd chwarter, mae'r rhan fwyaf o'r costau'n dod yn gostau gwirioneddol yn hytrach na'n gostau a ragwelir, ac mae mwy o sicrwydd wrth adrodd ar y sefyllfa derfynol, o'i gymharu â chwarteri blaenorol. Yn ogystal â hyn, gall cyfnod y gaeaf achosi cynnydd annisgwyl mewn costau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd gan gynyddu costau ar gyfer y gwasanaeth priffyrdd. Gan fod y rhan fwyaf o'r gaeaf wedi mynd heibio, mae'n golygu bod mwy o sicrwydd ynglŷn â'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn, fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na fydd digwyddiadau annisgwyl yn codi a all barhau i newid y sefyllfa derfynol. Derbyniwyd y dyfarniad cyflog ar gyfer staff NJC ym mis Tachwedd, gyda'r dyfarniad cyflog wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2024. Mae'r costau ychwanegol wedi'u cynnwys yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol. Gan nad oedd y dyfarniad cyflog terfynol yn wahanol i'r swm a gynigiwyd gan y cyflogwyr ym mis Mawrth 2024, mae'r cynnydd ar gyfer chwyddiant a ganiateir yng nghyllidebau Gwasanaethau ar gyfer 2024/25, y costau ychwanegol o £368k, wedi'u trosglwyddo i gyllidebau gwasanaethau o'r arian wrth gefn pwrpasol a glustnodwyd. Wrth symud i'r chwarter olaf, mae mwy o sicrwydd o ran y rhagolygon, ond gall y meysydd canlynol gael effaith sylweddol ar y rhagolygon yn ystod y chwarter olaf:- - Newid yn y ceisiadau am wasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw ac, yn bennaf, lleoli plant mewn gofal, y galw am wasanaethau oedolion, digartrefedd, cludiant ysgol ac addysg allsirol. - Cyllid grant ychwanegol, nad oedd yn a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn. - Gwariant untro nad oedd wedi cael ei ragweld. - Anawsterau recriwtio a chadw staff sy'n arwain at fwy o swyddi gweigion nag a ragwelwyd. O ganlyniad i'r sefyllfa a ragwelir a newidiadau eraill, bydd gan y Cyngor falans cyffredinol o £13.221m (7.35% o gyllideb refeniw net 2024/25) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sydd £4.234m yn uwch na'r isafswm a argymhellir i'r Cyngor.	

Oherwydd bod y rhagolwg ariannol cyffredinol yn rhagweld tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a chan fod disgwyl i lefel y balansau cyffredinol fod yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymhell, nid oes angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo unrhyw gamau unioni.		
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?		
Ddim yn Berthnasol – Adroddiad Monitro heb unrhyw opsiynau y mae angen eu hystyried.		
C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae monitro cyllideb y Cyngor yn swyddogaeth sydd wedi'i dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith..		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi.		
D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ydi, ond nodir unrhyw newid o'r gyllideb a gymeradwywyd yn yr adroddiad.		
Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os ydynt yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill i osod y strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol a'r gyllideb flynyddol. Bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Amherthnasol
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2024/25 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Amherthnasol
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae unrhyw sylwadau gan y Prif Weithredwr wedi cael eu hystyried ac addaswyd yr adroddiad drafft ble'r oedd hynny'n addas.

2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro wedi derbyn diweddariad ar y sefyllfa ariannol ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Adolygodd y Panel Sgriwtini Cyllid y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 3 yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror 2025.
8	Sgriwtini	Amherthnasol
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
• Atodiad A – Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2024/25 • Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2024/25 • Appendix C - Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir yn ôl Gwasanaeth a'r Rheswm • Appendix CH - Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau wrth Gefn ar gyfer 2024/25 • Appendix D - Gwybodaeth ynglŷn â monitro Staff Asiantaeth 2024/25 • Appendix DD - Gwybodaeth ynglŷn â monitro Ymgynghorwyr 2024/25 • Atodiad E - Ffioedd a Thaliadau - Addasiadau i Lyfryn 2024/25		
Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):		
Cyllideb Refeniw 2024/25 (fel y'i hargymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 29 Chwefror 2024 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 7 Mawrth 2024).		

MONITRO CYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3 2024/25

1. Y GYLLIDEB REFENIW A GYMERADWYWYD AR GYFER 2024/25

1.1 Cymeradwyodd y Cyngor gyllideb refeniw net ar gyfer 2024/25 fel a ganlyn:-

Tabl 1
Cyllideb a Chyllid a Gymeradwywyd ar gyfer 2024/25

	£'000	£'000
Cyfanswm Gwariant Refeniw wedi ei Gymeradwyo Diwygiadau i'r Gyllideb ers Cymeradwyaeth Defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor	184,164 (4,425)	
Cyllideb Gymeradwy gyfredol ar gyfer 2024/25 (Net o Gronfeydd wrth Gefn)		179,739
Cyllidir gan Cyllid Allanol Cyfun Debyd y Dreth Gyngor Safonol a Godwyd Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwag	127,586 48,387 3,766	
Cyfanswm Cyllid 2024/25		179,739

2. Y SEFYLLFA A RAGWELIR AR GYFER Y GYLLIDEB AR DDIWEDD CHWARTER 3 2024/25

2.1 Mae amcangyfrif o'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd chwarter 3 wedi'i gynnwys yn Nhabl 2, isod:-

Tabl 2
Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar ddiwedd Chwarter 3

	Cyllideb 2024/25	Rhagolwg Ch3 (Tan) / Gor	% Amrywiant	Rhagolwg Ch2	Symudiad
	£'000	£'000	%	(O dan) / Drosodd £'000	£'000
Cyllidebau Gwasanaeth Cyllidebau Corfforaethol Cronfeydd wrth Gefn Cyffrerdinol	166,443 17,721 (4,425)	1,161 -392 0	0.7 -2.94 0	2,369 -1,156 0	-1,208 764 0
Gwariant Refeniw Net	179,739	769	0.43	1,213	-444
Cyllid Allanol Cyfun Y Dreth Gyngor Safonol Premiwm y Dreth Gyngor Cyllid	-127,586 -48,387 -3,766 -179,739	0 -432 -396 -828	0 -0.89 -10.52 -0.46	0 -157 -552 -709	0 -275 156 -119
Rhagolwg Net (o dan) / Drosodd	0	-59	-0.03	504	-563

2.2 Mae amcangyfrif o sefyllfa Balansau Cyffredinol y Cyngor i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3
Amcangyfrif o Falansau Cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025

	Swm £'m
Balans Agoriadol	15,606
Defnyddiwyd ar gyfer Cyllideb 2024/25	(4,425)
Digwyddiad iechyd anifeiliaid	(0.100)
Churchill House, Caergybi	(0.500)
Grant tuag ar Bensiynnau Athrawon a'r Gwasanaeth Tân	1.386
Cefnogaeth Pwysau Gyflogau	1.196
Rhagolwg Tanwariant Chwarter 3	0.059
Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor	13.221

2.3 Yn ystod 2024/25, derbyniwyd cyllid ychwanegol mewn perthynas â chyfraniadau'r cyflogwr tuag at bensiynnau athrawon, yn ogystal â phwysau cyflog, yn ystod y chwarter. Roedd y symiau hyn eisoes wedi'u cynnwys yn y cyllidebau yn ystod y broses o bennu'r gyllideb, felly, fe'u hychwanegwyd at lefel y balansau cyffredinol.

2.4 Ar ddiwedd chwarter 3 2024/25, cyfanswm y cyllid sydd ar gael yw £13.162m.

3. PERFFORMIAD ARIANNOL FESUL GWASANAETH

3.1 Dengys y sefyllfa gyfun gyffredinol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor fod gorwariant o £1,161k yn cael ei ragweld ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r dadansoddiad fesul gwasanaeth wedi'i gynnwys yn Nhabl 4, isod:-

Tabl 4
Dadansoddiad o'r Sefyllfa sy'n cael ei Ragweld ar gyfer y Gyllideb, fesul Gwasanaeth

	(Tan) / Gorwariant £'000	%
Addysg Ganolog	-109	-2.02
Gwasanaethau Oedolion	-126	-0.32
Gwasanaethau Plant	2,101	14.55
Busnes y Cyngor	127	5.99
Datgblygu Economaidd	-453	-14.67
TGCh	-577	-12.26
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd		
Costau nad oes Cyllideb ar eu cyfer (Yswiriant, Costau Cyfalaf Pensiynau a Darpariaeth Dyledion Drwg)	500	
Gwasanaethau Arall (Amrywiant gwerth llai na £100k)	-302	
Cyfanswm Amrywiadau Gwasanaethau	1,161	0.7

- 3.2 Mae'r prif resymau am y gwahaniaethau'n cael eu crynhoi yn Nhabl 5 isod, ac mae dadansoddiad mwy manwl fesul Gwasanaeth ac Is-wasanaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad C:

Tabl 5
Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir yn ôl Rheswm

	Amrywiant a Ragwelir £'000
Amrywiant mewn costau o ganlyniad i newid yn y galw am wasanaethau	4,515
Amrywiant mewn costau staffio sy'n codi o swyddi gweigion, net o gostau staff dros dro ychwanegol a staff asiantaeth	(1,792)
Newidiadau mewn prisiau contractau na wnaed darpariaeth ar eu cyfer yn y gyllideb a gymeradwywyd	302
Newidiadau mewn cyllid grant sy'n cynyddu neu'n lleihau'r gofyn am gyllid o'r gyllideb graidd	(206)
Incwm o ffioedd a thaliadau sy'n (uwch) / is na'r targed incwm	-1,941
Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau	(238)
Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig â chyflogi ymgynghorwyr allanol	107
Trosglwyddo cyllid i / (o) gronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol	(228)
Camgymeriadau ym y broses gosod cyllideb y gellir eu hadnabod yn rhwydd	4
Rhesymau amrywiol	638
CYFANSWM YR AMRYWIAENT A RAGWELIR	1,161

- 3.3 Mae'r tabl uchod yn amlygu mai cynnydd yn y galw am wasanaethau sy'n parhau i greu'r prif bwysau ar gyllideb y Cyngor, ac mae'n gyfrifol am werth £4,515m o bwysau ychwanegol ar y gyllideb. Gwasanaethau Plant yw'r prif faes sy'n peri pryder, a gwelwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n gorfod cael eu lleoli gyda darparwyr allsirol tu allan i'r sir a chynnydd yng nghost y lleoliadau.
- 3.4 Mae'r sefyllfa yn y Gwasanaethau Oedolion wedi newid yn sylweddol, ac mae'r gyllideb yn ddigonol i fodloni'r galw ar hyn o bryd. Newid mewn niferoedd cleientiaid, cynnydd yn lefel y cyfraniadau gan gleientiaid, incwm a chyfraniadau ychwanegol yn dilyn asesiadau E33 sydd i gyfrif am y newid yn y rhagolwg o gymharu â'r chwarter diwethaf. Yn ogystal â hyn, derbyniodd y gwasanaeth incwm grant ychwanegol. Oherwydd natur y gwasanaeth, mae'n anodd rhagweld yn gywir gan y gall niferoedd cleientiaid newid o'r naill ddiwrnod i'r llall ac mae pecynnau gofal yn cyd-fynd ag anghenion unigolion, ac mae rhai ohonynt yn gostus.
- 3.5 Mae'r ddarpariaeth blyneddodd cynnar, o fewn cyllideb Addysg Ganolog wedi gweld newid o un cyfnod adrodd i'r nesaf. Mae niferoedd disgyblion bellach wedi'u cadarnhau, sy'n golygu bod y ffigyrau a ragwelir yn fwy cywir, ac mae'r grant (£148k) a dderbyniwyd wedi golygu bod y ddarpariaeth bellach yn rhagweld tanwariant.
- 3.6 Mae'r sefyllfa ariannol wedi gwella oherwydd swyddi gweigion, a ragwelir tanwariant o £1.792k ar gyflogau, heb gynnwys unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o gyflogi staff dros dro a staff asiantaeth. Er hynny, mae problemau recriwtio yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor ac o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol yn golygu bod costau staff asiantaeth yn uwch na'r gyllideb staffio yn y gwasanaethau hyn. Mae rhagor o wybodaeth am gostau asiantaeth wedi'i gynnwys ym mharagraff 7 ac Atodiad D. Mae problemau recriwtio yn yr adain TGCh hefyd, gan olygu bod tanwariant o £478k yn cael ei ragweld ar staffio ar ddiwedd chwarter 3.
- 3.7 Mae'r contract cyfleustodau newydd a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn ariannol yn dangos y buddion ar draws yr holl wasanaethau. Fodd bynnag, mae Gwasanaethau Hamdden yn dal i elwa o'r contract gyda thanwariant ar gostau ynni ac mae hyn, ynghyd â gwella lefelau incwm oherwydd y cynnydd yn nifer y bobl sy'n tanysgrifio i'r aelodaeth ddebyd uniongyrchol, wedi cynyddu'r tanwariant a ragwelir ar gyfer Gwasanaethau Hamdden, fel yn chwarter 3, i £400k.
- 3.8 Mae bob amser yn anodd rhagweld incwm a gynhyrchir trwy ffioedd a thaliadau, ond mae'r arwyddion yn awgrymu y bydd cyfanswm yr incwm £1.941m yn uwch na'r gyllideb, ac mae incwm yn y gwasanaethau Hamdden, Gwastraff a Phrifyrdd yn sylweddol uwch na'r targed incwm.

4. PERFFORMIAD ARIANNOL CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

4.1 Dangosir y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol yn Nhabl 6 isod:-

Tabl 6
Y Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol 2024/25

	2024/25	Ch2 Rhagolwg (Tan) / Gorwariant £'000	% Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant
Ardollau	4,931	0	0	-
Rhyddhad Trethi Dewisol	105	35	33.71	-
Cyllido Cyfalaf	5,753	(19)	-0.33	Llai o fenthycia a dychweliadau uwch ar fuddsoddiadau
Budd-daliadau a Roddwyd	7,392	(582)	-7.87	Llwyth achosion llai na'r disgwyl
Cyfraniad Gwasanaethau	(800)	0	0	-
Cefnogaeth gan CRT			0	-
Arbedion cyllideb i'w cyflawni	(547)	547		
Cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac eraill	887	(372)	-42	-
Defnydd o'r Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol	(4,425)	0	0	-
CYFANSWM	13,296	-391	12.72	

5. CASGLU'R DRETH GYNGOR

- 5.1 Mae cyllideb cronfa'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2023. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd a fu, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd y gorffennol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn pan osodir y gyllideb ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Yn hanesyddol, bydd yr incwm a ragwelir ar gyfer y Dreth Gyngor yn gostwng yn ystod y flwyddyn wrth i gamau adennill gael eu cymryd ac wrth i drethdalwyr hawlio eithriadau a disgowntiau sy'n ddyledus iddynt. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £432k yn uwch na'r gyllideb.
- 5.2 Cynlluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, felly, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Mae'r newid yn y rheolau cymhwysedd yn gysylltiedig â threthi busnes ar gyfer llety hunanarlwyo yn golygu bod nifer o eiddo wedi cael eu trosglwyddo'n ôl o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Dreth Gyngor, gan olygu fod mwy o eiddo yn gorfod talu'r premiwm ar ail gartrefi, ac mae hyn wedi gwrthbwysu'r gostyngiad yn nifer yr eiddo yn sgil codi'r premiwm o 75% i 100%.
- 5.3 Mae symud eiddo hunanarlwyo i'r dreth gyngor o ganlyniad i'r trothwy uwch i fod yn gymwys i'w cynnwys ar y gofrestr trethi busnes wedi bod yn sylweddol, gyda'r dyddiad cychwyn ar gyfer y dreth gyngor wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2023 mewn nifer fawr o achosion. Mae'n debygol y bydd apêl yn erbyn nifer fawr o'r penderfyniadau hyn, ac y bydd apeladau llwyddiannus yn arwain at drosglwyddo eiddo'n ôl i'r gofrestr trethi busnes. Yn ogystal â hyn, bydd gweithredwyr hunanarlwyo yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gyrraedd y trothwyon newydd, o ystyried y budd ariannol y mae'n ei gynnig i'w busnes. Gall hyn arwain at ailasesu eiddo a'u rhoi'n ôl ar y gofrestr trethi busnes. O ganlyniad, mae risg sylweddol y bydd yn rhaid i'r Cyngor ad-dalu symiau mawr o'r Dreth Gyngor yn 2025/26 ac, er mwyn lliniaru'r risg, mae £900k o arian dros ben wedi'i drosglwyddo i gronfa wrth gefn clustnodedig i gyllido ad-daliadau y gallai fod yn rhaid eu talu yn 2025/26.
- 5.4 Mae newid yn strwythur staffio tîm y Dreth Gyngor wedi caniatáu i fwy o adnoddau gael eu cyfeirio tuag at adnabod osgoi treth, e.e. hawlio eithriadau nad oes gan y trethdalwr hawl iddynt, peidio â hysbysu'r Cyngor am newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar lefel y Dreth Gyngor sy'n ddyledus, perchnogion ail gartrefi yn methu â hysbysu'r Cyngor nad yr eiddo yw eu prif gartref. Mae'r gwaith hwn yn cael effaith ar lefel y dreth gyngor a godir o ran y dreth gyngor safonol a'r premiwm ail gartrefi ac eiddo gwag.

6. ARBEDION CYLLIDEBOL 2024/25

6.1 Roedd y gyllideb hefyd yn cynnwys pecyn o arbedion gwerth cyfanswm o £1.165m yn y gyllideb, a oedd yn cynnwys dileu cyllidebau nad oeddent yn cael eu defnyddio, cynhyrchu incwm ychwanegol, lleihau grantiau i gyrff allanol a chwtogi rhai gwasanaethau. Nid yw'r gwaith monitro cyllideb wedi nodi unrhyw broblemau o ran sicrhau'r cynigion arbedion a wnaethpwyd.

7. COSTAU ASiantaeth AC YMGYNGHORWYR

7.1 Gwariwyd £884k ar staff Asiantaeth yn ystod y flwyddyn hyd yma. Ar y cyfan, roeddent yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staff oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £486k yn ymwneud â gweithwyr llanw ar gyfer swyddi gweigion. Mae'r Gwasanaeth Gwastraff wedi gwario £274k ar weithwyr mewn canolfannau ailgylchu. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

7.2 Gwariwyd cyfanswm o £1,059k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2024, a chyllidwyd £499k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad DD yn cynnwys crynodeb llawn o'r gwariant fesul gwasanaeth, ynghyd â manylion ychwanegol am y gwariant.

8. CASGLIADAU

8.1 Ar ddiwedd y trydydd chwarter, rhagwelir tanwariant o £59k ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025. Mae llunio rhagolwg cywir o'r sefyllfa ariannol bob amser yn anodd, ac mae'r sefyllfa'n debygol o newid wrth i wasanaethau ddelio â materion a'r galw am wasanaethau yn ystod y tri mis o'r flwyddyn sy'n weddill.

8.2 Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn creu pryder arbennig, a rhagwelir gorwariant o £2.101m yn y Gwasanaethau Plant. Mae'r rhagolwg yn seiliedig ar lefel bresennol y galw, ond mae'r galw'n **amrywio** yn ystod y flwyddyn a gall newid yn sylweddol, e.e. gall un lleoliad ar gyfer cleient dibyniaeth uchel sydd ag anghenion gofal arbenigol gostio rhwng £250k a £500k. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau'n golygu bod y sefyllfa'n gwaethgu.

8.3 Bydd y sefyllfa ariannol yn 2024/25 hefyd yn dylanwadu ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2025/26 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu cynnydd mewn costau a welir yn 2024/25 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor, gan gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i helpu i gydbwysu'r gyllideb refeniw yn 2025/26.

8.4 Er bod y sefyllfa a ragwelir ar gyfer 2024/25 yn gadarnhaol, gyda gwariant o fewn y gyllideb, mae'r sefyllfa'n cael ei gwella gan nifer o ddigwyddiadau untro fel cyllid grant ychwanegol, swyddi gwag ac incwm ychwanegol y dreth gyngor. Mae'r digwyddiadau hyn yn cuddio'r gwir sefyllfa sylfaenol bod y gyllideb o dan bwysau o hyd oherwydd cynnydd yn y galw a chostau cynyddol, ac mae hyn yn arbennig o wir ym maes gofal cymdeithasol.

ALLDRO REFENIW A RAGWELIR AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL A DDAW I BEN AR 31 MAWRTH 2025 – CHWARTER 3

[illegible]

Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function	2024/25 Cyllideb Blynnyddol Annual Budget	2024/25 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date	2024/25 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed spend	2024/25 Ch3 Amrywiad Q3 Variance	2024/25 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed Spend	Ch3 : Q3 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025	Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)	2024/25 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget	Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)
<u>Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff</u> <u>Highways, Property & Waste</u>									
Priffyrdd Highways	8,264	8,203	8,022	(181)	-2.21%	8,,206	(58)	-0.70%	(91)
Eiddo Property	2,032	1,255	1,312	57	4.52%	1,997	(35)	-1.72%	(33)
Gwastraff Waste	10,117	7,258	7,120	(138)	-1.91%	10,052	(65)	-0.64%	(80)
<u>Rheoleiddio a Datblygu Economaidd</u> <u>Regulation & Economic Development</u>									
Datblygu Economaidd Economic Development	3,088	2,481	2,284	(197)	-7.92%	2,635	(453)	-14.67%	(504)
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Planning and Public Protection	2,915	2,558	2,415	(143)	-5.57%	2,958	43	1.48%	34
<u>Trawsnewid</u> <u>Transformation</u>									
Adnoddau Dynol Human Resources	1,762	1,355	1,268	(87)	-6.44%	1,697	(65)	-3.69%	6
TGCh ICT	4,708	3,647	3,289	(358)	-9.81%	4,131	(577)	-12.26%	(457)
Trawsnewid Corfforaethol Corporate Transformation	1,143	802	771	(30)	-3.76%	1,118	(25)	-2.19%	(33)
<u>Adnoddau</u> <u>Resources</u>	3,998	3,309	3,289	(20)	-0.60%	3,990	(8)	-0.20%	(71)

Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function	2024/25 Cyllideb Blynnyddol Annual Budget	2024/25 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date	2024/25 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed spend	2024/25 Ch3 Amrywiad Q3 Variance	2024/25 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed Spend	Ch3 : Q3 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025	Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)	2024/25 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget	Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)
<u>Busnes y Cyngor</u> <u>Council Business</u>	2,120	1,53	1,850	327	21.49%	2,247	127	5.99%	109
<u>Costau Corfforaethol a</u> <u>Democrataidd</u> <u>Corporate & Democratic costs</u>	1,462	1,681	1,668	(14)	-0.81%	1,383	(79)	-5.40%	(26)
<u>Rheolaeth Corfforaethol</u> <u>Corporate Management</u>	809	609	630	21	3.41%	829	20	2.47%	19
Costau heb gyllideb, ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau <i>Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income</i>						500	500	0.00%	500
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau Total Service Budgets	166,443	122,418	122,853	435	0.36%	167,604	1,161	0.70%	2,369
Ardollau <i>Levies</i>	4,931	4,931	4,931	0	0.01%	4,931	0	0.00%	0
Rhyddhad Trethi Dewisol <i>Discretionary Rate Relief</i>	105	0	0	0	0.00%	140	35	33.71%	23
Cyllido Cyfalaf <i>Capital Financing</i>	5,753	3,112	2,141	(972)	0.00%	5,734	(19)	-0.33%	(328)

Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function	2024/25 Cyllideb Blynnyddol Annual Budget	2024/25 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date	2024/25 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed spend	2024/25 Ch3 Amrywiad Q3 Variance	2024/25 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed Spend	Ch3 : Q3 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025	Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)	2024/25 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget	Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)
Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill <i>General & Other Contingencies</i>	887	887	(252)	(1,139)	-128.43%	514	(372)	-75.84%	(729)
Arbedion Cyllideb i'w Gyflawni Budget Savings to be Achieved	(547)	0	0	0	0.00%	0	547	0.00%	422
Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor Council's General Reserves	(4,425)	0	0	0	0.00%	(4,425)	0	0.00%	0
Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol <i>Support Services contribution HRA</i>	(800)	0	0	0	0.00%	(800)	0	0.00%	0
Budd-daliadau a Roddwyd <i>Benefits Granted</i>	7,392	1,074	8,858	7,784	724.60%	6,810	(582)	-7.87%	(544)
Na ellir ei reoli <i>Uncontrollable</i>									
Cyfanswm Cyllid Corfforaethol Total Corporate Finance	13,296	10,004	15,677	5,673	56,71%	12,905	(392)	-2.94%	(1,156)
Cyfanswm 2024/25 Total 2024/25	179,739	132,422	138,530	6,108	4.61%	180,509	769	0.43%	1,214
<u>Cyllido Funding</u>									
Trethi Annomestig <i>NDR</i>	(25,341)	(17,556)	(19,493)	(1,937)	11.03%	(25,341)	0	0.00%	0
Y Dreth Gyngor <i>Council Tax</i>	(48,387)	0	0	0	0.00%	(48,820)	(432)	0.89%	(157)

Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function	2024/25 Cyllideb Blynnyddol Annual Budget	2024/25 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date	2024/25 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed spend	2024/25 Ch3 Amrywiad Q3 Variance	2024/25 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed Spend	Ch3 : Q3 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025	Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)	2024/25 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget	Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)
Premiwm y Dreth Gyngor Council Tax Premium	(3,766)	0	0	0	0.00%	(4,162)	(396)	10.52%	(552)
Grant Cynnal Refeniw Revenue Support Grant	(102,245)	(78,623)	(78,650)	(27)	0.10%	(102,245)	0	0.00%	0
Cyfanswm Cyllid 2024/25 Total Funding 2024/25	(179,739)	(96,179)	(98,143)	(1,964)	0	(180,568)	(828)	0.46%	(709)
Cyfanswm yr alldro, yn cynnwys effaith y cyllido Total outturn, including impact of funding	0	36,244	40,371	4,144	11.43%	(59)	(59)	0.03%	505

DADANSODDIAD O'R AMRYWIANT A RAGWELIR FESUL GWASANAETH A'R RHESWM

Gwasanaeth	Is wasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
		£'000	Newid yn y galw am Wasanaeth £'000	Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000	Newidiadau i Gontractau / Pris £'000	Newid i Gyllid Grant £'000	Amrywiant Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghori £'000	Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000	Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000	Amrywiol £'000
Tudalen 28	Addysg											
	Ganolog											
	Trafnidiaeth Ysgol	(238)	(187)		43							(94)
	Prydau Ysgol	78		65	13							
	Strategaeth ADY	51		42		9						
	Eithriadau i'r ysgol	(32)						(32)				
	Canolfan Iaith	84				84						
	Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar	(114)	(91)	(2)				(21)				
	Clwb Gofal Plant	60					60					
	Addysg Bellach	(1)										(1)
	Addysg Ganolog	(16)		(30)		(49)			6			57
	Lleoliadau Allsirol	(11)	(11)									
	Millbank	13					12	1				
	Arall	17										17
	CYFANSWM	(109)	(289)	75	56	44	72	(52)	6	-	-	(21)
Diwylliant	Amgueddfeydd ac Orielau	65		(45)			20	40				50
	Llyfrgelloedd	(68)		(68)		(15)	15					
	Archifau	28		19				9				
	CYFANSWM	25	-	(94)	-	(15)	35	49	-	-	-	50
Gwasanaethau Oedolion	Henoed - Preswyl	(353)	186				(539)					
	Henoed – Nyrsio	263	758				(495)					
	Henoed – Gofal Cartref	273	356			(100)	17					
	Henoed - arall		30	(30)								

Gwasanaeth	Is wasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
		£'000	Newid yn y galw am Wasanaeth £'000	Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000	Newidiadau i Gontractau / Pris £'000	Newid i Gyllid Grant £'000	Amrywiant Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghori £'000	Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000	Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000	Amrywiol £'000
Tudalen 29	Anabledd Corfforol - Preswyl	470	570				(100)					
	Anabledd Corfforol - Nyrsio											
	Anabledd Corfforol - Gofal Cartref	54	54									
	Anabledd Corfforol - Arall	(65)	15	(80)								
	Anabledd Dysgu – Preswyl	(93)	(157)				64					
	Anabledd Dysgu - Gofal Cartref	12	12									
	Anabledd Dysgu – Gofal Dydd	38	38									
	Anabledd Dysgu – Llety â Chymorth											
	Anabledd Dysgu - Arall	46	40	6								
	Iechyd Meddwl – Preswyl	161	134				27					
	Iechyd Meddwl – Gofal Cartref	(31)	(31)									
	Iechyd Meddwl – Llety â Chymorth	154	154									
	Iechyd Meddwl - Arall	(154)	(58)	(96)								
	Uned Ddarparu – Preswyl	98	(44)	264		(24)	(98)					

Gwasanaeth	Is wasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
			Newid yn y galw am Wasanaeth	Amrywiant Staff / Asiantaethau	Newidiadau i Gontractau / Pris	Newid i Gyllid Grant	Amrywiant Incwm	Costau Adeiladu	Ymgynghori	Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn	Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth	Amrywiol
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Uned Ddarparu - Gofal Cartref	(458)	(29)	(207)		(46)	(176)					
	Uned Ddarparu Gofal Dydd	(134)	(30)	(125)			21					
	Uned Ddarparu – Llety â Chymorth	(153)	(21)	(132)								
	Uned Ddarparu - Arall	(163)	5	(117)			55			(106)		
	Gwasanaethau Cymorth Rheolaeth	(91)	(6)	(85)								
	CYFANSWM	(126)	1,976	(602)	-	(170)	(1,224)	-	-	(106)	-	-
Gwasanaethau Tudalen 30	Plant sy'n Derbyn Gofal – Lleoliadau Allsirol	2,261	2,261									
	Gofal Maeth	9	9									
	Cartrefi Clyd		5	(5)								
	Plant sy'n Derbyn Gofal Arall	186	186									
	Cymorth i Deuluoedd	(23)	(23)									
	Plant ag Anableddau	(8)	82	(90)								
	Comisiynu a Gwaith Cymdeithaso	(149)		(149)								
	Gwasanaethau Ieuenctid											
	Arall	(175)	(38)	(137)								
	CYFANSWM	2,101	2,482	(381)	-	-	-	-	-	-	-	-

Gwasanaeth	Is wasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
		£'000	Newid yn y galw am Wasanaeth £'000	Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000	Newidiadau i Gontractau / Pris £'000	Newid i Gyllid Grant £'000	Amrywiant Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghori £'000	Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000	Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000	Amrywiol £'000
Tai	Gwasanaethau Tai	(13)		(16)			(6)					9
	Digartrefedd	(35)	310				(188)			(122)		(35)
	Canolfan J.E. O'Toole	(7)		(3)								(4)
	CYFANSWM	(55)	310	(19)	-	-	(194)	-	-	(122)	-	(30)
Tudalen 31	Priffyrdd											
	Cefnogaeth a Rheolaeth Priffyrdd	(10)		(10)								
	Cludiant Cymunedol Môn	(50)		(50)								
	Meysydd Parcio a Rheolaeth Parcio	(145)			(70)		(75)					
	Rheoli Datblygu	(55)					(55)					
	Gwaith Stryd Preifat	(120)					(120)					
	Cyllideb Gweithfeydd	331			331							
	Cynnal a Chadw a Rheoli	74										74
	Dylunio Cynnal a Chadw	(20)					(20)					
	Cludiant Cyhoeddus	(50)					(50)					
	Fflyd											
	Arall	(13)		(13)								
	CYFANSWM	(58)	-	(73)	261	-	(320)		-	-	-	74
Eiddo	Rheolaeth a Staffio	(46)		(46)								
	Glanhau											
	Eiddo Masnachol											
	Eiddo'r Cyngor	11						11				
	Dylunio Pensaernïol ac Ymgynghoriaeth											
	CYFANSWM	(35)	-	(46)	-	-	-	11	-	-	-	-

[illegible]

Gwasanaeth	Is wasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
		£'000	Newid yn y galw am Wasanaeth £'000	Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000	Newidiadau i Gontractau / Pris £'000	Newid i Gyllid Grant £'000	Amrywiant Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghori £'000	Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000	Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000	Amrywiol £'000
	Cofrestrwyr	(20)		(11)			(7)	(5)				3
	Marchnadoedd	10					10					
	Iechyd a Diogelwch	(35)		(33)								(2)
	CYFANSWM	-	-	(41)	-	-	(12)	(5)	47	-	-	11
Tudalen 33	Trawsnewid											
	Adnoddau Dynol	(8)		(7)								(1)
	Hyfforddiant	(57)		(7)								(50)
	TG	(577)		(478)								(99)
	Trawsnewid Corfforaethol	(19)		(7)								(12)
	Cyswllt Môn	(23)		(23)								
	Cyfathrebu											
	Partneriaeth Ynys Môn / Gwynedd	17										17
	CYFANSWM	(667)	-	(522)	-	-	-	-	-	-	-	(145)
Adnoddau	Archwilio a Risg	(87)		(121)					34			
	Budd-daliadau a Refeniw	44		65		(38)	(10)					27
	Gwasanaethau Ariannol	45		21								24
	Caffael	(1)		(36)								35
	Rheoli	(9)		(50)			(9)					50
	CYFANSWM	(8)	-	(121)	-	(38)	(19)	-	34		-	136
Busnes y Cyngor	Gwasanaethau Etholiadol	(41)		(41)								
	Cynllunio Argyfwng	(3)										(3)
	Gwasanaethau Pwyllgor	(28)		(28)								
	Cyfieithu	4		4								

Gwasanaeth	Is wasanaeth	Amrywiant	Rheswm am yr Amrywiant									
		£'000	Newid yn y galw am Wasanaeth £'000	Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000	Newidiadau i Gontractau / Pris £'000	Newid i Gyllid Grant £'000	Amrywiant Incwm £'000	Costau Adeiladu £'000	Ymgynghori £'000	Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000	Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000	Amrywiol £'000
	Gwasanaethau Cyfreithiol	195		186			5				4	
	CYFANSWM	127	-	121	-	-	5	-	-	-	4	(3)
Rheoli Corfforaethol	Rheoli Corfforaethol	20		26								(6)
	CYFANSWM	20	-	26	-	-	-	-	-	-	-	(6)
Tudalen 34 a Democrataidd	Risg ac Yswiriant	2										2
	Cyfraniadau Pensiwn	(14)		(14)								
	Ffioedd Archwilio	(15)			(15)							
	Crwner	(49)	(46)									(3)
	Ardoll Prentisiaeth	5		5								
	Treuliau a Chymorth Aelodau	(13)										(13)
	Gwariant Dinesig	5										5
	Corfforaethol Arall											
	CYFANSWM	(79)	(46)	(9)	(15)	-	-	-	-	-	-	(9)
Arall	Darpariaeth Costau heb ei Gyllidebu	500										500
	CYFANSWM	500	-	-	-	-		-	-	-	-	500
	CYFANSWM GWASANAETH	1,161	4,515	(1,792)	302	(206)	(1,941)	(238)	107	(228)	4	638

CRYNODEB O SEFYLLFA CYLLIDEBAU WRTH GEFN – CHWARTER 3

	Cyllideb	Trosglwyddiadau i Wasanaethau	Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma	Wedi Ymrwymo hyd yma	Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma	Y Gyllideb a Ragwelir
	£	£	£	£	£	£
Cronfeydd wrth gefn cyffredinol	382,282	(33,713)	348,569	54,360	294,209	-
Cyflog a Graddfeydd	300,000	(115,340)	184,660	12,636	172,024	-
Arall Clustnodedig	150,000	(50,000)	100,000	(544,000)	644,000	(343,630)
Chwyddiant Cyflog	49,209	(49,209)	-	-	0	-
Twf Rhanbarthol – Bwrdd Uchelgais Economaid	86,250	(57,880)	28,370	-	28,370	(28,370)
Cynllun Hyfforddeion	340,000	(165,074)	174,926	174,926	-	-
Newid Hinsawdd	50,000	-	50,000	50,000	50,000	-
Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill	1,357,741	(471,216)	886,525	(252,078)	1,188,603	(372,000)

COSTAU ASIANTAETH EBRILL – RHAGFYR 2024

Gwasanaeth	Swm £	Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol	Parhaol / Dros Dro	Pwrpas
Datblygu Economaid	52,844	Cyllideb Staffio heb ei defnyddio	Dros Dro	Proses recriwtio aflwyddiannus
	52,844			
Ysgolion	94,224	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Athrawon llanw mewn maes arbenigol
	94,224			
Gwastraff	210,739	Cyllideb Graidd Benodol	Dros Dro	Tasgau penodol ar y safle
	63,249	Cyllideb Graidd Benodol / Cyfraniad Allanol	Dros Dro	Tasgau penodol ar y safle
	273,988			
Gwasanaethau Plant	65,504	Cyllideb Graidd	Dros Dro	I lenwi swyddi gwag
	65,504			
Gwasanaethau Oedolion	67,452	Cyllideb Graidd	Dros Dro	I lenwi swyddi gwag
	367,452			
Adnoddau	29,304	Cyllideb Staffio heb ei defnyddio	Dros Dro	Gwaith cymorthdal
	1,110	Cyllideb Staffio heb ei defnyddio	Dros Dro	Maint y gwaith
	30,414			
Cyfanswm	884,427			

**CRYNODEB O WARIANT AR YMGYNHORWYR HYD AT DDIWEDD CHWARTER 3
2024/25**

Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr fesul Gwasanaeth				
Gwasanaeth	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Cyfanswm 2024/25
	£	£	£	£
Addysg Ganolog	7,097	6,684	5,198	18,979
Diwylliant	13,613	11,000		24,613
Economaidd ac Adfywio	119,484	213,469	162,658	495,610
Eiddo				
Priffyrdd	53,753	18,597	29,839	102,190
Ysgolion		473		473
Gwastraff	19,093	13,868	59,445	92,405
CRT		3,490	16,277	19,766
Tai			400	400
Corfforaethol a Democrataidd				
Gwasanaethau Oedolion				
Gwasanaethau Plant	3,209	21,378	38,340	62,926
Corfforaethol				
Trawsnewid	3,713	2,919	4,088	10,720
Busnes y Cyngor	18,168	63,100	80,423	161,690
Adnoddau	9,970	51,844	7,625	69,439
Cyfanswm	248,097	406,822	404,292	1,059,211
Cyllidwyd gan:				
Cyllideb Graidd	72,552	210,618	146,749	429,919
Grant	129,111	135,036	181,405	445,551
Cyfraniad Allanol	29,411	5,816	18,567	53,795
Cronfeydd Wrth Gefn / Darpariaethau	17,023	55,352	57,571	129,946
Cyfanswm	248,097	406,822	404,292	1,059,211

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH	
Dyddiad:	18 CHWEFROR 2025	
Pwnc:	ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 3 2024/25	
Deilydd/iaid Portffolio	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A THAI	
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)	
Awdur yr Adroddiad:	JEMMA ROBINSON	
E-bost:	JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru	
Aelodau Lleol:	Amherthnasol	
A – Argymhelliad/ion a rheswm/rhesymau		
- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2024/25 yn chwarter 3. - Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol yn chwarter 3, sy'n dod i £2.696m, a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf a'r cyllid diwygiedig, yn unol ag Atodiad C, a fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £75.173m ar gyfer 2024/25. - Cymeradwyo cario tanwariant posibl ymlaen, fel y nodwyd yn Adran 4.2.		
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?		
Amherthnasol		
C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol. - Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddynodwyd i'r Pwyllgor Gwaith.		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi		
D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Gosod y gyllideb gyfalaf flynyddol.		
DD - Gyda phwy yr ymgynghorwyd?		
Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi edrych ar yr adroddiad ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad terfynol
2	Cyllid / Adran 151(gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac ystyriwyd ei sylwadau.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Mae trafodaethau ar brosiectau cyfalaf a reolir gan y Tîm Eiddo wedi cael eu cynnal a chytunwyd ar y gwariant hyd yma a'r gwariant a ragwelir.
6	Technoleg Gwybodaeth (TGCh)	Mae trafodaethau ar brosiectau cyfalaf a reolir gan y Tîm TGCh wedi cael eu cynnal a chytunwyd ar y gwariant hyd yma a'r gwariant a ragwelir.
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Mae crynodeb o'r sefyllfa gyfalaf wedi'i chynnwys yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol, a drafodwyd yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 19 Tachwedd 2024.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol

E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd sy'n ofynnol er mwyn i'r Cyngor allu cyflawni'r amcanion hirdymor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut:-	Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau ICF, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:	Mae cyllid ar gyfer prosiectau wedi'i gytuno a'i gynllunio gyda sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru yn arbennig.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf 2024/25 wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda dinasyddion Ynys Môn.
5	Nodwch unrhyw effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar yr agenda Cydraddoldeb a'r Gymraeg	Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn effeithio ar yr agenda cydraddoldeb, e.e. mynediad i ysgolion i'r anabl, y grant cyfleusterau i'r anabl. Nid oes unrhyw effaith ar agenda'r iaith Gymraeg.
F - Atodiadau:		
Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 3 2024/25 Atodiad B – Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn Atodiad C – Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers cwblhau'r broses gosod cyllideb		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):		
• Cyllideb Gyfalaf 2024/25, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024 • Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 07 Mawrth 2024 • Adroddiad Alldro Cyfalaf 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 23 Gorffennaf 2024 • Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf, Chwarter 1 2024/25, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 24 Medi 2024 • Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf, Chwarter 2 2024/25, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 26 Tachwedd 2024		

1. CYFLWYNIAD

- 1.1** Dyma adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd o ran gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf.
- 1.2** Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £13.836m ar gyfer 2024/25, a rhaglen gyfalaf o £30.002m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal â hyn, ym mis Mehefin 2024, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £15.499m gael ei ddwyn ymlaen o 2023/24, gan ddod â'r rhaglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i gyfanswm o £28.419m, a £30.918m ar gyfer y CRT. Ers y broses o osod y gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau ychwanegol at y rhaglen, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, yn ogystal ag addasu cyllid, a daw hyn i £17.181m. Hefyd, bu gostyngiad o £1.345m yn y gyllideb CRT. Mae hyn yn dod â chyfanswm cyllideb gyfalaf 2024/25 i £75.173m. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

	Cyllideb wreiddiol 2024/25 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn £'000	Lithriad fel a gymeradwywyd yn alldro Ch4 2023/24 £'000	Gostyngiad yng Nghyllideb CRT £'000	Cynlluniau ychwanegol / addasiadau ers gosod y gyllideb £'000	CYFANSWM £'000
Cyllidir gan:					
Grant	20,075	10,039	(1,173)	16,822	45,763
Benthyca â Chefnogaeth	2,634	3,233	(162)	278	5,983
Benthyca Digefnogaeth	3,636	0	2,169	0	5,805
Cyfraniad Refeniw	17,315	754	(2,688)	0	15,381
Derbyniadau Cyfalaf	178	345	509	0	1,032
Cronfeydd wrth gefn	0	1,112	0	81	1,193
Benthyciad	0	16	0	0	16
CYFANSWM	43,838	15,499	(1,345)	17,181	75,173

Cyfeiriwch at Atodiad C i gael gwybodaeth am newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers cwblhau'r broses gosod cyllideb.

2. CYNNYDD AR WARIANT 2024/25

- 2.1** Isod mae tabl cryno o gyllideb flynyddol rhaglen gyfalaf 2024/25 a sut y caiff ei gyllido, ynghyd â'r gwariant cyfalaf hyd at 31 Rhagfyr 2024:-

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol £'000	Gwariant Gwirioneddol £'000	Gwariant wedi'i Ymrwymo £'000	Cyfanswm Gwariant £'000	Cyllideb Flynyddol a Wariwyd %
Tai – Cronfa Gyffredinol	1,049	736	181	917	87
Tai - CRT	29,573	18,286	0	18,286	62
Dysgu Gydol Oes	9,377	5,995	545	6,540	70
Economaidd ac Adfywio	13,585	3,384	1,172	4,556	34
Prifffyrdd	7,117	4,759	690	5,449	77
Rheoli Gwastraff	264	239	0	239	91
Eiddo	12,483	4,795	1	4,796	38
Trawsnewid	500	62	15	77	15
Gwasanaethau Oedolion	1,225	347	9	356	29
Cyfanswm	75,173	38,603	2,613	41,216	55
Cyllidir gan:					
Grant Cyfalaf	45,763				
Derbyniadau Cyfalaf	1,032				
Benthyca â Chefnogaeth	5,983				
Benthyca Digefnogaeth	5,805				
Cyfraniad Refeniw	15,381				
Cronfeydd wrth gefn	1,193				
Benthyciad	16				
Cyfanswm Cyllid	75,173				

2.2 Mae 50% o gyllideb flynyddol y Gronfa Gyffredinol wedi'i wario hyd yn hyn. Gwnaed cynnydd cyson, gyda'r rhan fwyaf o gynlluniau cyfalaf ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'r holl gynlluniau cyfalaf wedi dechrau, fodd bynnag, disgwylir y bydd rhai cynlluniau a mwyafrif eu cyllideb yn cael eu gwario y chwarter nesaf neu tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol, fel y grant Galluogi, unedau gofal plant a'r grantiau Gwres Carbon Isel. Gellir gweld yr holl gynlluniau cyfalaf a'u gwariant cysylltiedig yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2024/25 a cheir diweddariad ar y rhain yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn.

2.3 Mae'r CRT wedi gwario 62% o'r gyllideb flynyddol. I gael rhagor o wybodaeth am wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant a ragwelir, cyfeiriwch at adroddiad monitro cyllideb chwarter 3 y CRT, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 18 Chwefror 2025.

3. CYLLIDO

3.1 Grantiau Cyfalaf

3.1.1 Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt. Ceir diweddariad byr ar y cynlluniau hynny isod:-

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** - Mae plant a staff bellach yn defnyddio adeilad newydd y Graig Fach yn llawn ers mis Medi. Mae'r Uned Gofal Plant newydd yn yr ysgol hefyd ar agor nawr. Cwblhawyd gwaith ailfodelu mewnol yn y Graig Fawr a'i drosglwyddo i'r ysgol ar 20 Medi 2024. Bydd swm dargadw (*retention sum*) yn cael ei gadw ac yn cael ei dalu yn dilyn y cyfnod diffygiol.
- **Unedau Gofal Plant (Y Fali, Llanfechell a Llangoed)** - Mae'r gwaith i'r uned newydd yn Ysgol y Fali bellach wedi'i gwblhau gan mwyaf, ond mae materion heb eu cwblhau yn ymwneud â chysylltiad trydan newydd y mae angen ei osod. Y gobaith yw y gellir cwblhau hyn cyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond mae'n dibynnu ar Scottish Power. Mae'r gwaith wedi dechrau ar y safle yn Llanfechell a Llangoed, ac mae'n rhaid ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. Mae llythyr cynnig grant diwygiedig wedi'i dderbyn, sy'n cynyddu'r grant i Llangoed i £0.865m ac yn lleihau'r grant i Lanfechell i £0.450m.
- **Caergybi: Trawsnewid yn seiliedig ar ddiwylliant a threftadaeth (cyllid Llywodraeth y DU, yn cynnwys y Fenter Treflun Treftadaeth (THI) Cam II) –**
 - Eglwys Sant Cybi - Dechreuodd y gwaith ar y safle yn Eglwys Sant Cybi ar 28 Mai 2024, hefo targed i'w gwblhau erbyn hyn o ganol Gorffennaf 2025. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y safle ac mae'r contractwr yn ceisio lleihau'r oedi. Mae'r gwres o dan y llawr ym mhrif adeilad yr eglwys wedi'i osod a'i orchuddio a bydd yn cael ei ail-deisio yn chwarter 4. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y prosiect yn gorwario gan £0.580m, ac mae trafodaethau ar y gweill gyda'r Eglwys yng Nghymru ynghylch y posibilrwydd o gael cyllid ychwanegol o'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF), ond bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r bwlch ariannol gael ei dalu gan yr Eglwys yng Nghymru. Bydd cais am swm bach o gyllid Trawsnewid Trefi ychwanegol yn cael ei wneud gan Dîm yr LUF yn chwarter 4. Mae'r cais cynllunio ar gyfer y Paneli Solar a'r Pwmp Gwres o'r Aer wedi'i wneud a disgwylir am y penderfyniad, er bod gosod Paneli Solar ar eglwys ganoloesol yn bwnc dadleuol, felly, gallai fod yn broses hir.
 - Ehangu Canolfan Ucheldre – Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda iawn ar y safle, gyda 60% o'r gwaith ar y safle yn gyffredinol wedi'i gwblhau. Mae'r gwaith manwl o ddylunio'r cladid allanol arbenigol wedi dechrau. Mae'r adeilad wedi parhau i fod yn weithredol drwy gydol yr holl waith. Y brif her o hyd yw cyflawni'r cynllun o fewn y gyllideb. Mae Tîm yr LUF yn paratoi cais am gyllid Trawsnewid Trefi i helpu gyda phwysau'r gyllideb. Mae Ucheldre yn chwilio am ffynonellau ychwanegol o gyllid ar gyfer gosod paneli PV, gosod lifft, gwaith tirweddau ychwanegol a gosod cegin.
 - Canolfan Chwarae a Blaen y Traeth - Mae'r ciosgau ar Draeth Newry wedi'u gorffen ac yn cael eu defnyddio, a dywed tenantiaid eu bod wedi cael cyfnodau da o fasnachu yn ystod chwarter 3. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar ganolfan yr Empire, a bydd y Sinema yn ailagor ddiwedd Ionawr. Bydd y gwaith nawr yn dechrau o ddifrif ar y Ganolfan Chwarae, gyda'r Ganolfan yn cau i'r cyhoedd ym mis Chwefror. Bydd y datblygiad cyfan yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2025. Mae costau wedi mynd ychydig yn uwch na'r disgwyl ar yr Empire, a gwneir cais am gyllid Trawsnewid Trefi gan Dîm yr LUF yn chwarter 4 i helpu i gyllido'r bwlch.

- Rhaglen Eiddo Gwag – Mae'r gwaith bellach wedi hen ddechrau ar yr hen fanc yr HSBC ac Adeiladau Canolog. Yn dilyn rhywfaint o oedi ar 9 Stryd Stanley, mae disgwyl i hyn gael ei gwblhau ym mis Ionawr. Mae gwaith ar 14a/b Stryd Stanley wedi'i ohirio yn dilyn yr hysbysiad a gyflwynwyd ar gyfer cau Churchill House ac eiddo llawr gwaelod cysylltiedig, ac mae rhif 14 yn un ohonynt. Mae 2-4 Stryd y Farchnad wedi'i gynnwys yn y rhaglen fel prosiect newydd yn lle 14a/b Stryd Stanley. Bydd hyn yn darparu lle manwerthu ar y llawr gwaelod fydd wedi'i adnewyddu gyda 2 fflat 2 ystafell wely uwchben. Bydd y lle manwerthu yn cael ei gwblhau erbyn diwedd chwarter 4. Cafodd y cais Trawsnewid Trefi a baratowyd yn chwarter 2 ei gymeradwyo ac mae wedi sicrhau £0.623m yn ychwanegol tuag at y prosiect i dalu'r cynnydd mewn costau. Bydd hyn yn cael ei hawlio'n llawn cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.
- THI Cam II – Mae'r tendr ar gyfer yr hen adeilad Booze Busters wedi'i dderbyn ac mae contractwr addas wedi'i ddewis, ond ni roddwyd cynnig grant i berchennog yr eiddo eto nes bod proses diwydrwydd dyladwy pellach wedi'i chynnal. Aildendwyd hen dafarn Castell Caernarfon ac mae wrthi'n cael ei adolygu. Mae'r tendrau ar gyfer eiddo Stryd Boston wedi cael eu rhyddhau a disgwylir iddynt gael eu dychwelyd yn chwarter 4, felly, hefyd y tendrau blaen siopau. Mae'r gwaith adnewyddu i'r Rheiliau a'r Porth Bwaog ger adeilad Neuadd y Farchnad wedi'i gwblhau a'i ail-osod.

Mae'r hawliad chwarter tri i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi'i ohirio, a bydd yn cael ei hawlio ar y cyd â chwarter 4 ym mis Ebrill 2025, ar gais Llywodraeth y DU. Mae hawliadau Partneriaid Cyflawni wedi'u prosesu fel yr arfer, gan ddod â gwariant y rhaglen i ychydig dros £2m yn chwarter 3 ac ychydig o dan £10m i gyd.

- **Arfor** - Mae'r rhaglen yn gweithio ar draws Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, i gefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyriadau economaidd, a fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Gronfa Cymunedau Mentrus yn rhan o'r rhaglen ac mae'n rhoi grantiau i fusnesau ar Ynys Môn er mwyn cefnogi datblygiad economaidd a'r Gymraeg. Defnyddiwyd cyllid cyfalaf yn ystod chwarter 3 i ddarparu grantiau i 5 busnes arall ar gyfer prynu offer mawr a gwella eu hadeiladau busnes.
- **Llyfrgell Llangedfni** - Sicrhawyd £0.095m o gyllid y Gronfa Ffyniant ar y Cyd er mwyn adnewyddu cyfleusterau storio presennol yn Llyfrgell Llangedfni a chreu man croesawgar i'w ddefnyddio gan y gymuned a sefydliadau, yn ogystal â'r gwasanaeth llyfrgell a'i bartneriaid mewnol ac allanol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith bellach wedi'i gwblhau a bydd yr ystafell gymunedol ar gael i'w defnyddio yn chwarter 4. Mae peth mân waith hefyd yn cael ei wneud yn Llyfrgell Caergybi i wneud lle ar gyfer defnydd Ffiws. Bydd y grant wedi'i wario'n llawn erbyn diwedd mis Mawrth.
- **Gwaith Grant ar Raddfa Fach** - Cymeradwywyd 5 cynllun ar gyfer 2024/25 (tri chynllun adeiladu a dau gynllun dylunio). Cwblhawyd gwaith adeiladu ar ddau gynllun, ac mae disgwyl i waith adeiladu ar y cynllun arall ddechrau yn ystod chwarter 4. Mae cynlluniau dylunio'n datblygu'n dda. Rhagwelir y bydd y gyllideb llawn yn cael ei gwario. Rhagwelir gorwariant sylweddol ar un o'r cynlluniau adeiladu, gan wario mwy na'r grant a gafwyd. Mae'r gorwariant yn deillio o gyflwr gwael y tir a phroblemau dŵr. Mae'r cyllid ar gyfer y gorwariant wedi'i ddyrannu o'r cyllidebau cyfalaf presennol.
- **Llanfairpwll, Porthaethwy (Achos Busnes Llawn)** – Mae Achos Busnes Llawn Porthaethwy'n mynd rhagddo, fodd bynnag, oherwydd natur y cynnig, mae cynnydd wedi arafu erbyn hyn ac yn wynebu heriau. Mae gwaith ar achos busnes Llanfairpwll bellach yn mynd rhagddo'n dda.
- **Cronfa Teithio Llesol (ATF)** - Sicrhawyd grant o £1.527m gan Lywodraeth Cymru (LIC) i gynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a llesiant, gwella ansawdd aer, lleihau allyriadau carbon, cysylltu cymunedau a gwella teithio llesol at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Yn dilyn proses amrywio ffurfiol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024, addaswyd y dadansodiad o'r gyllideb fel a ganlyn (mae'r swm ariannol cyffredinol yn parhau i fod ar £1.527m):-
 - Mae £0.182m ar gyfer gwaith craidd ar nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau, ac mae'n cynnwys gwaith datblygu ymlaen llaw, gwaith ar raddfa fach a gweithgareddau monitro ac arfarnu;
 - £1.004m mewn perthynas â Cham 2 Caergybi – Bae Trearddur (Gwaith ar Gyffordd 2 a Gweithgareddau Datblygu Ymlaen Llaw);
 - £0.341m mewn perthynas â Cham 1 Pont Marcwis - Malltraeth.

Mae gwaith ar Gam 1 Metro Gogledd Cymru yng Nghaergybi – Bae Trearddur bellach wedi'i gwblhau'n llawn ar y safle - mae trafodaethau yn parhau mewn perthynas â materion iawndal i gwblhau'r prosiect. Mae'r dull o gyflawni Cam 2 y prosiect wedi newid oherwydd cymhlethdodau wrth gyflawni drwy Gontract Dylunio, Adeiladu, Cyllido a Gweithredu (DBFO) yr A55, mae trafodaethau yn parhau gyda LIC / Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i arwain y gwaith o'i gyflawni gan fod yr ased o dan eu hawdurdodaeth (mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa bresennol).

Penodwyd y prif gontractwr ar gyfer y cynllun cyfalaf ym Malltraeth - Pont Marcwis (opsiwn tymor byr) ac mae'r gwaith wedi'i raglennu i ddechrau ar y safle ym mis Ionawr 2025, a'i orffen cyn diwedd Mawrth 2025.

Mae Gweithgareddau Datblygu Ymlaen Llaw yn mynd rhagddynt (WelTAG (Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru) 3E a Dylunio Manwl) ar gyfer y rhan rhwng Malltraeth a Niwbwrch (arolygon coed a gwaith ymchwilio tir yn parhau). Cyflwynwyd cais am grant cyfalaf ar gyfer adeiladu'r rhan hon drwy Gronfa Teithio Llesol (ATF) yn 2025/26.

Mae Gweithgareddau Datblygu Ymlaen Llaw yn parhau yn Llanfairpwll, Amlwch, Benllech, Gaerwen ac mae dyluniadau'n cael eu paratoi ar hyn o bryd ar y llwybrau methiant critigol.

Mae proses amrywio wedi'i threfnu ar gyfer Ionawr 2025 i fireinio cyllidebau ac i unrhyw amrywiadau y cytunwyd arnynt gael eu ffurfioli mewn llythyr gan LIC.

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel iawn (ULEV) (2023/24)** - Rhoddwyd cymeradwyaeth gan LIC am estyniad amser ar adeiladu Hwb EV (cerbyd tyrdan) ym Mhlas Arthur tan ddiwedd Awst 2024. Mae'r maes parcio ei hun wedi'i gwblhau, ac mae dyraniad 2023/24 bellach wedi cael ei wario'n llawn. Mae trefniadau ar gyfer cysylltu offer SPEN (Scottish Power Energy Network), cyfarpar trydanol EV a chytundebau prydles ar gyfer 2 fan gwefru yn cael eu hadolygu gan yr Adran Gyfreithiol ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o'u gosod yn chwarter 4. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â hyn yn cael eu cyllido o ddyraniad ULEV 2024/25.
- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel iawn (ULEV) (2024/25)** - Mae £0.503m wedi'i ddyfarnu i hyrwyddo prosiectau isadeiledd gwefru cerbydau trydan yn unol â Strategaeth Gwefru Trydan LIC. Derbyniwyd dyfynbrisiau gan y Gweithredwr Rhwydwaith Ardal (DNO) mewn pedwar safle, ac mae 1 safle arall wedi'i nodi gyda chais am ddyfynbris gan SPEN. Mae gwaith galluogi wedi'i gwblhau mewn dau safle (Brynsiencyn a Bulkeley, Porthaethwy) gyda chysylltiadau DNO wedi'u trefnu ar gyfer Ionawr 2025. Cynhaliwyd asesiadau ac ymweliadau safle yn Oriel Môn, ac anelir at ddarparu'r rhain yn chwarter 4, yn amodol ar gwblhau asesiadau SPEN. Cafwyd caniatâd gan LIC i ohirio gwaith adeiladu / galluogi ym Maes Parcio Castell Biwmares tan Haf 2025, pan fydd y tir wedi'i ddychwelyd yn rhydd-ddaliad CSYM (cysylltiad DNO a chostau cabinet GRP (Polyester wedi'i atgyfnerthu â ffibr gwydr) i'w gwneud yn 2024/25), gyda'r gwaith adeiladu sy'n rhan o'r costau i'w cyllido o grant 2025/26. Mae LIC wedi lansio'r Cytundeb Fframwaith EV ym mis Medi ac mae gweithgareddau wedi bod yn cael eu cynnal i asesu'r dogfennau er mwyn paratoi Manyleb, Gwahoddiad i Dendro a Chontract er mwyn penodi Darparwr Pwynt Gwefru Cerbydau Trydan trwy'r cytundeb fframwaith a lansiwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae angen cyngor cyfreithiol pellach i adolygu a ganiateir penodiad ar sail Cytundeb Rhatach (lesddaliad) o dan y rheoliadau caffael. Mae adolygiad canol tymor Cynllun Gweithredu EV wedi dechrau adlewyrchu'r sefyllfa genedlaethol a lleol diweddaraf. Gan fod llai o safleoedd yn cael eu datblygu a chan nad oes digon o gapasiti ar gael i wireddu safleoedd eraill, rhagwelir y bydd llai o wariant ar y rhaglen ULEV yn 2024/25. Rhagwelir tanwariant o £0.076m yn erbyn y gyllideb wreiddiol, a thynnwyd sylw LIC / TrC at hyn fel rhan o ddychweliadau chwarter 3. Fel mesurau lliniaru, mae'r Cyngor wedi gwneud cais i gael defnyddio'r tanwariant ar gyfer yr Hwb Hydrogen ac mae'n disgwyl am benderfyniad gan LIC / TrC.
- **Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRiC)** - Dyfarnwyd £0.072m i gefnogi cynlluniau cyfalaf sy'n cyfrannu at amcanion LIC i wella hygyrchedd a diogelwch ac annog pobl i gerdded a beicio mewn cymunedau. Mae pwyslais penodol ar wella llwybrau'n ôl a blaen i ysgolion. Y nod yw newid sut mae pobl yn teithio, gan arwain at wella cynhwysiant cymdeithasol a gwella diogelwch cymunedol. Mae mân ymyriadau ar y briffordd wedi'u nodi yn Llanfairpwll, er mwyn gwneud gwelliannau pellach yng nghyffiniau'r ysgol ac mae gwaith dylunio ar y gweill. Gofynnwyd am amrywiant o Gronfa Refeniw SRiC am £5k i ddarparu ar gyfer y gwaith ychwanegol.

- **Diogelwch Ffyrdd** - Mae £0.162m o gyllid LIC wedi'i sicrhau i gefnogi prosiectau sy'n cyfrannu at amcan LIC i leihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu ar ffyrdd Cymru. Parhaodd y gwaith yn chwarter 3, gan ddarparu rheiliau y tu allan i adeilad newydd Ysgol Corn Hir at y man croesi presennol i gerddwyr. Yn ogystal â hyn, gosodwyd arwyddion wedi'u huwchraddio a marciau ffordd ar hyd y B5109 mewn lleoliadau lle mae pryderon o ran diogelwch, ynghyd â chyrbiau is ym Modedern. Dechreuwyd gwelliannau tebyg i arwyddion ar y B5111 ar ddiwedd chwarter 3. Gohiriwyd y gwaith o gyflwyno mesurau gostegu traffig wrth nesáu at Ysgol Corn Hir, a bydd y rhain yn cael eu cwblhau yn chwarter 4, ynghyd â chwblhau arwyddion ar y B5111. Rhagwelir y bydd y gyllideb a neilltuwyd yn cael ei gwario'n llawn.
- **Gwaith adfer RAAC** (Concrit wedi'i awyru, ei awtoglaffio a'i atgyfnerthu) - Yn ystod rhan olaf 2023/24, dyfarnwyd £1.695m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cyfalaf yn gysylltiedig â RAAC. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido gwariant cyfalaf ar waith RAAC hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24, a dygwyd ymlaen £1.014m i flwyddyn ariannol 2024/25 er mwyn cwblhau gwaith RAAC.
 - Mae gwaith adfer bellach wedi'i gwblhau yn y ddwy ysgol, a bydd symiau dargadw'n cael eu talu yn chwarter 4.
- **Gwaith toi'r Santes Fair** - Sicrhawyd £0.153m o gyllid grant i gyfrannu at brosiect ail-doi gwerth £0.219m yn Ysgol Gynradd Santes Fair. Mae'r Cyngor yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer gweddill y gyllideb. Cwblhawyd y gwaith yn ystod chwarter 2, a bydd symiau dargadw'n cael eu talu yn chwarter 4.
- **Ysgol David Hughes - Bloc Technoleg Bwyd** - Sicrhawyd £0.115m o gyllid grant i gyfrannu at brosiect gwerth £0.163m yn yr ysgol, a bydd yr ysgol a'r Cyngor yn cyfrannu gweddill y gyllideb. Mae'r gwaith yn cynnwys tynnu rhywfaint o asbestos, gosod llawr newydd, gorffeniadau'r waliau a'r nenfwd, gosod unedau, byrddau gwaith a chyfarpar newydd a gwaith Mecanyddol a Thrydanol cysylltiedig. Cwblhawyd y gwaith yn ystod chwarter 2, a bydd symiau dargadw'n cael eu talu yn chwarter 4.
- **Plas Arthur** - Sicrhawyd £0.995m o gyllid grant i gyfrannu at brosiect gwerth £1.084m ym Mhlas Arthur, a bydd y Cyngor yn cyfrannu cyllid o gyllidebau cyfalaf presennol ar gyfer gweddill y gyllideb. Bydd y gwaith yn cael ei wneud ar du allan yr adeilad, gan gynnwys: ail-orchuddio'r to, amnewid clymau wal, insiwleiddio waliau ceudodau, newid ffenestri a drysau a gosod cladin ar y tu allan. Dylid nodi mai hwn yw'r gwaith cyntaf mewn cyfres o gamau arfaethedig yn amodol ar dderbyn cyllid ac, felly, ni fydd y gwaith yma yn cael ei wneud ar yr adeilad cyfan. Dechreuodd y gwaith ym mis Mai 2024, a'r dyddiad cwblhau diwygiedig yw diwedd chwarter 4 2024/25, gan fod mân waith toi wedi'i ohirio oherwydd tywydd garw. Bydd y costau cyffredinol yn uwch na'r gyllideb wreiddiol, gyda'r gwahaniaeth yn cael ei gyllido o'r cyllidebau cyfalaf presennol.
- **Grant Gwres Carbon Isel (Swyddfeydd y Cyngor)** – Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Tachwedd 2023, a chynhaliwyd arolygon daear yn dilyn hynny. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar y safle, ac mae'r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu a pheiranyddol wedi'i gwblhau, mae'r pypiau gwres a chyfarpar hanfodol arall wedi'u gosod a'u cysylltu'n llwyddiannus â'r adeilad gan ddefnyddio pibellau tan-ddaear. Mae disgwyl i'r system gael ei chomisiynu yn ystod chwarter 3, a bydd yn dibynnu ar gyflenwad trydan o eneradur symudol. Bydd angen i SPEN wneud gwaith angenrheidiol er mwyn uwchraddio'r capasiti cyflenwi trydan i swyddfeydd y Cyngor cyn y gellir trosglwyddo o'r boeleri nwy presennol i'r Pwmp Gwres o'r Aer. Mae'r Cyngor yn aros am gadarnhad o'r gofynion a'r amserlen. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau yn chwarter 4.

- **Grant Gwres Carbon Isel (4 grant)** - Dyfarnwyd cyllid gwerth £15.7m ar draws pedwar grant ar wahân. Mae'n rhaid cwblhau un o'r grantiau a ddyfarnwyd erbyn diwedd 2024/25, a'r tri arall erbyn diwedd 2025/26. Mae Gwasanaeth Ynni LIC yn darparu cyllid grant tuag at 90% o'r costau, ac mae'r Cyngor yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer y 10% sy'n weddill o gyllidebau cyfalaf presennol. Cwblhawyd gwaith allanol yn llwyddiannus mewn nifer o safleoedd ar yr un pryd, gan gynnwys gosod sylfeini a mannau gyda giatiau arnynt, a ddyluniwyd i amgylchynu pŷmpiau gwres ac offer a chyfarpar arall. Roedd y systemau gwresogi pŷmpiau gwres newydd yn weithredol ar dri safle yn ystod chwarter 2, ac mae cynlluniau i gomisiynu sawl un arall yn ystod chwarter 3, yn dibynnu ar gwblhau gwaith uwchraddio trydanol. Mae'r gwaith yn parhau yn gyflym ar nifer o safleoedd, gyda phŷmpiau gwres wedi'u gosod y tu allan a gwaith wedi'i gwblhau i amnewid y pibellau ac allyrwyr (rheiddiaduron a dewisiadau amgen) y tu mewn. Fodd bynnag, mae oedi o ran uwchraddio'r cyflenwad trydan gan SPEN yn arafu'r newid ar nifer o safleoedd. Er bod dyluniadau ar gael, ac er bod SPEN wedi'u talu, mae'r cynnydd yn araf. Er bod sylw'n cael ei roi i'r mater, mae'n debygol y bydd y dyddiad cwblhau yn hwyrach. Nodwyd y risgiau sydd ynghlwm wrth uwchraddio'r cyflenwad trydanol ar ddechrau'r prosiect, ac rydym wedi bod mewn trafodaethau cyson â LIC ynghylch y risg o danwariant o ganlyniad i hyn. Rydym yn hyderus y bydd LIC yn caniatáu i'r grantiau a roddwyd lithro ar gyfer gwaith na ellir ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Cyfalaf Ychwanegol** - Dyfarnwyd £0.574m gan LIC ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw cyfalaf mewn ysgolion. Cadarnhawyd cyllid ychwanegol ym mis Rhagfyr 2024, gan gynyddu cyfanswm gwerth y grant i £0.953m. Oherwydd amseriad y grant a'r heriau o gyflawni gwaith cyfalaf sylweddol yn chwarter 4, bydd y grant yn cael ei ddefnyddio yn erbyn gwariant sydd eisoes wedi ei wneud, gan ganiatáu i unrhyw danwariant net o'r Gyllideb Gyfalaf Adeiladau Addysg gael ei gario drosodd i 2025/26. Bydd y tanwariant hwn o 2024/25 yn ychwanegu at Gyllideb Cyfalaf Adeiladau Addysg 2025/26. Bydd rhaglen o waith cyfalaf yn cael ei baratoi i'w chyflawni yn 2025/26, gyda'r gwaith mwyaf yn cael ei wneud dros gyfnod gwyliau'r haf.
- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2024/25)** - Dyfarnwyd £0.477m o gyllid grant gan LIC yn 2024/25 i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY. Nod y grant yw gwneud y gorau o amgylcheddau dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn gwella hygyrchedd, hyrwyddo arfer cynhwysol, cefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Bydd hyn yn cefnogi amcanion diwygiadau ADY a'r Tribiwnlys Addysg ac ADY, er mwyn creu system ddwyieithog unedig ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc o 0 i 25 sydd ag ADY, a darparu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion. Gyda'r prosiectau sydd ar hyn o bryd yn y rhaglen i'w cyflawni o dan y grant hwn, rhagwelir y bydd tanwariant o £0.193m.
- **Grant Ysgolion Bro (2024/25)** - Dyfarnwyd £0.790m yn 2024/25 i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion tu allan i oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ysgolion yn ddiogel a'u hagor tu allan i oriau traddodiadol, er mwyn caniatáu i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau. Mae'r swm a ddyfarnwyd yn gysylltiedig â thair ysgol benodol. Mae gwaith ar ddwy o'r ysgolion wedi'i gwblhau, gyda'r gwaith sy'n weddill yn y drydedd ysgol yn mynd rhagddo. Disgwylir y bydd y gyllideb wedi'i defnyddio'n llawn.
- Dyfarnwyd cyllid gofal cymdeithasol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o nifer o ffrydiau cyllido gwahanol, fel a ganlyn:-
 - **Y Gronfa Gofal Integredig (ICF)** – hawliwyd £0.162m drwy'r ICF mewn blynyddoedd blaenorol ac o gyllid arall er mwyn cwblhau prosiectau sydd wedi lithro i 2024/25. Mae'r arian sy'n cael ei reoli fel rhan o'r rhaglen yn cynnwys y ddau brosiect isod, sef:-
 - Cartrefi clyd arbenigol;
 - Gofal ychwanegol yn ne'r Ynys.

Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd gweddill y cyllid yn cael ei wario'n llawn y flwyddyn ariannol hon. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel cyfraniad i'r cynlluniau gwariant uchod sydd o fewn cyllideb y CRT.

- **Y Gronfa gyfalaf integreiddio ac ail-gydbwysu (IRCF) –** Dyfarnwyd £0.839m o gyllid cyfalaf drwy'r IRCF i gyllido:-
 - Gors Felen (£0.062m) – Defnyddir y buddsoddiad hwn i greu amgylchedd synhwyrdd diogel ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu yng Nghanolfan Gors Felen yn Llangefni. Bydd yr amgylchedd pwrpasol hwn yn caniatáu i unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a hybu eu hannibyniaeth.
 - Canolfan Glanhwfa (£0.777m, ynghyd â grant ychwanegol o £0.210m) - Defnyddir y cyllid i drawsnewid capel / adeilad hanesyddol nepell o ganol tref Llangefni, ychwanegu at y dewis presennol o weithgareddau ar gyfer pobl sydd â dementia a chreu'r Ganolfan Dementia gyntaf ar Ynys Môn. Bydd y Ganolfan yn cael ei rhedeg trwy gydol yr wythnos gan Ganolfan Glanhwfa, mewn partneriaeth â Gwasanaeth Asesu'r Cof Gogledd Cymru a darparwyr arall, a bydd unigolion a gofawyr yn elwa ar y ddarpariaeth yn ystod eu taith dementia. Bydd yr unigolion hyn yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau, derbyn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, cymryd rhan mewn sesiynau cefnogi gofawyr ac ymuno â chlwb prydau fydd yn cael ei gynnal ddwywaith yr wythnos gan Bwyd Da Môn ac Age Well Cymru. Mae'r gwaith adeiladu ar gyfer y prosiect hwn wedi cychwyn a bydd yn cymryd 12 mis, felly, bydd y cyllid yn cael ei rannu dros ddwy flwyddyn ariannol - bydd y mwyafrif o'r cyllid yn cael ei wario yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

3.2 Derbyniadau Cyfalaf

3.2.1 Dyma'r derbyniadau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r derbyniadau cyfalaf a gynlluniwyd:-

	Cyllideb 2024/25 £'000	Derbyniwyd hyd at 31-Rhag-24 £'000	Rhagolwg hyd at 31-Maw-25 £'000
Cronfa'r Cyngor:			
Mân-ddaliadau	0	0	0
Cyffredinol	0	147	147
Diwydiannol	0	0	0
Ysgolion	372	81	81
CRT	247	128	251
Cyfanswm	619	356	479

3.2.2 Y derbyniadau cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2025 yw £0.479m, gyda £0.356m wedi'i dderbyn hyd at 31 Rhagfyr 2024 (74%).

3.2.3 Er y rhagwelir y bydd derbyniadau cyfalaf yn £0.479m, mae £3.379m o dderbyniadau cyfalaf ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf, gan fod £2.900m o dderbyniadau cyfalaf wedi'u cario drosodd o 2023/24 yng nghronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf. Ni fydd yr holl swm hwn ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid yn cael ei glustnodi i gyllido rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, fel rhan o gyllideb gyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chronfa wrth gefn glustnodedig Hamdden i gyllido gwelliannau hamdden, derbyniadau cyfalaf CRT, yn ogystal â chyllid a glustnodwyd ar gyfer cynlluniau sydd wedi llithro o'r flwyddyn ddiwethaf.

4. **GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2024/25**

4.1 Isod ceir tabl sy'n dangos y Gwariant a ragwelir ar 31 Mawrth 2025 a'r cyllid diwygiedig:-

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol £'000	Gwariant a Ragwelir £'000	(Tan) / Gorwariant a Ragwelir £'000	Amrywiant %
Cronfa Gyffredinol Tai	1,049	1,049	0	0
CRT Tai	29,573	27,841	(1,732)	(6)
Dysgu Gydol Oes	9,377	8,608	(769)	(8)
Economaidd ac Adfywio	13,585	9,677	(3,908)	(29)
Priffyrdd	7,117	6,883	(234)	(3)
Rheoli Gwastraff	264	264	0	0
Eiddo	12,483	11,594	(889)	(7)
Trawsnewid	500	148	(352)	(70)
Gwasanaethau Oedolion	1,225	938	(287)	(23)
Cyfanswm	75,173	67,002	(8,171)	(11)
Cyllidir gan:	Cyllideb Flynyddol £'000	Cyllid a Ragwelir £'000	Amrywiant £'000	Amrywiant %
Grant Cyfalaf	45,763	42,051	(3,712)	(8)
Derbyniadau Cyfalaf	1,032	940	(92)	(9)
Benthyca â Chefnogaeth	5,983	5,026	(957)	(16)
Benthyca Digefnogaeth	5,805	2,777	(3,028)	(52)
Cyfraniad Refeniw	15,381	15,343	(38)	(0)
Cronfeydd wrth gefn	1,193	849	(344)	(29)
Benthyciad	16	16	0	0
Cyfanswm Cyllid	75,173	67,002	(8,171)	(11)

4.2 Fel y gwelir o Dabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25 yw £8.171m, gyda'r posibilrwydd y bydd yn llithro i raglen gyfalaf 2025/26. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2025/26, a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf 2025/26.

Mae'r tanwariant sylweddol a ragwelir yn rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol yn cael ei grynhoi isod:-

Dysgu Gydol Oes

Mae disgwyl i'r gyllideb Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl danwario ei gyllideb lawn eleni. Mae Grant ADY LIC yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith er mwyn caniatáu Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl yn ystod 2024/25. Disgwylir i'r pwysau ar y pennawd cyllideb hwn gynyddu yn y dyfodol gan y bydd canlyniadau archwiliadau mynediad yn darparu darlun llawnach o'r gwaith sydd angen ei wneud. Ar hyn o bryd, gofynnir am gael dwyn unrhyw danwariant ymlaen i gyllido gwaith yn 2025/26 a thu hwnt. Mae disgwyl hefyd i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer Adeiladau Addysg danwario (tua £0.500m). Mae hyn yn deillio o gynnydd o £0.572m o'r Dyfarniad Grant Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Cyfalaf 2024/25, a ddyfarnwyd yn hwyr ym mis Gorffennaf 2024 (wythnos cyn gwyliau'r haf), a chynnydd pellach at y dyfarniad hwn o £0.381m yn Rhagfyr 2024. Gwnaed penderfyniad bwriadol i beidio â brysio'r gwariant ond, yn hytrach, ei roi yn erbyn gwariant sydd wedi'i ymrwymo a'i ddwyn ymlaen i raglen fesuredig yn 2025/26. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i ddarparu 10% o gyllid cyfatebol ar gyfer y Grant Gwres Carbon Isel o gyllidebau cyfalaf presennol, a bydd angen £0.319m fel cyllid cyfatebol ar gyfer Adeiladau Addysg yn 2025/26. Gofynnir, felly, am gael dwyn ymlaen unrhyw danwariant i gyllido cyllid cyfatebol a gwaith yn 2025/26.

Economaidd ac Adfywio

Mae disgwyl tanwariant sylweddol ar brosiectau Caergybi : Trawsnewid yn Seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth yn erbyn y gyllideb bresennol, gan fod y rhaglen gyffredinol yn wynebu oedi sylweddol o ran ei chyflawni. Er hynny, fel y nodir yn 3.1 uchod, caniatawyd estyniad tan fis Medi 2025 (ac mae'n debygol y gellir sicrhau estyniad pellach), felly, ni chaiff unrhyw gyllid ei golli. Disgwylir i'r cyllidebau Isadeiledd Ymwelwyr a Morwrol danwario tua £0.190m i gyd, gyda'r nod o gyfeirio unrhyw danwariant tuag at y gwaith yn Nant y Pandy, a fydd yn dechrau yn chwarter 4.

Priffyrdd

Rhagwelir y bydd tanwariant o tua £0.048m yn y gyllideb ar gyfer cerbydau a cherbydau graeanu. Mae hyn yn cynnwys ymrwymadau a wnaethpwyd yn barod ac archebion pellach a gynlluniwyd. Rhaid nodi, er hynny, y gallai LIC ddarparu cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol hon tuag at gerbydau trydan. Os digwydd hynny, rhagwelir y gallai'r tanwariant gael ei ddefnyddio ar y cyd â'r cyllid grant i brynu rhagor o gerbydau. Fel y nodwyd yn 3.1 uchod, mae disgwyl i gyllideb gyfalaf ULEV danwario. Mae disgwyl i gynlluniau Lliniaru Llifogydd danwario hefyd yn erbyn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Er bod y gwaith yn mynd rhagddo, bydd yn llithro i'r flwyddyn nesaf, ynghyd â'r cyllid grant, ac ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.

Eiddo

Ni fydd y gyllideb ar gyfer Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus yn cael ei gwario'n llawn; ychydig iawn o wariant sy'n cael ei ragweld o'r gyllideb hon yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf defnyddiwyd y gyllideb hon i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer rhaglen grant LIC, Y Pethau Pwysig, sy'n cyllido 80% o gostau cymwys. Nid oes rhaglen Y Pethau Pwysig yn 2024/25, ond mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd y rhaglen yn rhedeg yn 2025/26, ac y bydd y tanwariant yn y gyllideb ar gael i gefnogi ceisiadau grant. Ni chredir y byddai'n synhwyrol ymrwymo'r gyllideb hon ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cyllido'n llwyr gan y Cyngor eleni, tra bod posibilrwydd o ddefnyddio'r cyllid i gyflawni prosiectau yn y dyfodol, pan fydd 80% o'r costau'n cael eu cyllido gan grantiau. Mae'r cynllun gwella toiledau cyhoeddus arfaethedig, fydd yn meintio'r gofynion cyfalaf a blaenoriaethu asedau i fuddsoddi ynddynt, wedi'i ohirio gan fod y swyddog arweiniol wedi symud i swydd arall yn y Swyddogaeth Eiddo. Mae swyddog arweiniol newydd wedi'i benodi ac mae cynllun gwella toiledau cyhoeddus newydd yn cael ei ddatblygu. Mae risg hefyd o danwariant yn gysylltiedig â'r Grant Gwres Carbon Isel, o ran comisiynu gwaith lle mae'n ofynnol i SPEN gyflawni gwaith yn brydlon.

Trawsnewid

Bellach, mae disgwyl y bydd tanwariant yn y gyllideb TGCh y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn oherwydd yr angen i gysoni hyn â dyddiadau diwedd oes a diwedd cymorth a'r angen i amnewid gweinyddwyr, switshis craidd a waliau tân. Bydd y gwaith hwn bellach yn cael ei gwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26.

Gwasanaethau Oedolion

Mae disgwyl y bydd tanwariant yng nghynllun Canolfan Glanhwfa yn erbyn cyfanswm y gyllideb y flwyddyn ariannol hon, fel yr eglurir ym mharagraff 3.1 uchod.

- 4.3** Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) a ragwelir ar 31 Mawrth 2025 yw £152.849m, sef y gofyn sylfaenol i'r Awdurdod fenthycu er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Mae benthycu allanol yn £121.178m ar hyn o bryd, gan olygu, yn ei hanfod, fod angen i'r Awdurdod fenthycu £31.671m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf bresennol. Os caiff y cyllid hwn ei fenthycu'n allanol, ni fydd yr Awdurdod yn mynd tu hwnt i'r terfynau benthycu a gymeradwywyd, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 (Atodiad 11).

5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

- 5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2024/25 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthycu â chefnogaeth (fel y penderfynir gan LIC) ac amcangyfrif o werth unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir. Disgwylir i raglen gyfalaf 2025/26 ddilyn yr un egwyddorion, gyda'r grant cyfalaf cyffredinol a benthycu â chefnogaeth yn cael eu defnyddio ar gyfer yr amnewid blynyddol cerbydau, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau presennol a dyraniad blynyddol i gwrdd â chostau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl statudol. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a byddant yn cael eu harfarnu fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y cânt eu nodi yng Nghynllun y Cyngor 2022-2027, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw neu gynhyrchu incwm ychwanegol yn y dyfodol.

Bydd y gyllideb gyfalaf arfaethedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 27 Chwefror 2025, gyda'r gyllideb derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w chymeradwyo ar 6 Mawrth 2025. Bydd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2025/26 hefyd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn a'r Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025.

6. CASGLIAD

- 6.1** Dengys y canlyniadau ar ddiwedd chwarter 3, a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir, fod mwyafrif y prosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Er bod disgwyl i rai prosiectau danwario ar hyn o bryd, rhaid nodi fod y gyllidebau wedi cael eu hymrwymo a bod gofyn amdanynt, a gofynnir i'r cynlluniau hyn lithro i 2025/26 er mwyn eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £0.479m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2024/25, fydd yn cyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

Crynodeb o Wariant y Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar ddiwedd y Flwyddyn

Tudalen 50

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant Ymrwymiedig (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragwelir (£)	Tan / Gor Wariant a Ragwelir (£)	Amrywiant (%)
Tai - Cronfa Gyffredinol								
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	878,910	697,889	181,021	878,910	100	878,910	0	0
Grant Galluogi	139,786	37,869	0	37,869	27	139,786	0	0
Tai Fforddiadwy	30,650	0	0	0	0	30,650	0	0
CYFANSWM	1,049,346	735,758	181,021	916,779	87	1,049,346	0	0
Tai - CRT								
Contract Gwres Canolog	1,600,000	863,465	0	863,465	54	1,100,000	(500,000)	(31)
Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd	6,216,006	3,400,766	0	3,400,766	55	4,800,766	(1,415,240)	(23)
Gwella Perfformiad Ynni	1,700,000	4,325	0	4,325	0	900,000	(800,000)	(47)
Gwaith Amgylcheddol	500,000	157,622	0	157,622	32	220,000	(280,000)	(56)
Prynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd	15,657,000	12,100,536	0	12,100,536	77	16,820,036	1,163,036	7
Addasiadau Sector Cyhoeddus	500,000	325,175	0	325,175	65	500,000	0	0
Rsig Tân	400,000	19,572	0	19,572	5	500,000	100,000	25
Fflyd	300,000	0	0	0	0	300,000	0	0
SATC	2,700,000	1,415,012	0	1,415,012	52	2,700,000	0	0
CYFANSWM	29,573,006	18,286,475	0	18,286,475	62	27,840,802	(1,732,204)	(6)
Dysgu Gydol Oes								
Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl	134,763	0	0	0	0	0	(134,763)	(100)
Adnewyddu Adeilad Addysg	1,482,269	631,607	698	632,304	43	982,269	(500,000)	(34)
Diogelwch Ysgolion	68,901	5,607	0	5,607	8	5,607	(63,294)	(92)
Canopiau Allanol	3,077	0	0	0	0	3,077	0	0
Anghenion Dysgu Ychwanegol 2023/24	108,385	108,621	0	108,621	100	108,621	236	0
Anghenion Dysgu Ychwanegol 2024/25	476,761	204,925	0	204,925	43	283,761	(193,000)	(40)
Ysgolion Bro	789,680	391,923	1,476	393,400	50	789,680	0	0
Gwaith adfer RAAC	1,013,521	1,111,560	7,062	1,118,621	110	1,135,618	122,097	12
Uned Gofal Plant Y Fali	281,166	214,859	250	215,109	77	281,166	0	0
Uned Gofal Plant Ysgol Henblas	38,569	38,569	0	38,569	100	38,569	0	0
Uned Gofal Plant Ysgol Llangoed	442,543	60,332	24,161	84,493	19	442,543	0	0
Uned Gofal Plant Ysgol Llanfechell	842,309	90,510	471,426	561,936	67	842,309	0	0
Cynllun Grantiau Cyfalaf Gofal Plant	435,044	275,391	1,630	277,021	64	435,044	0	0
Santes Fair - Toi	218,607	209,952	0	209,952	96	218,607	0	0
Ysgol David Hughes – Bloc Technoleg Bwyd	162,950	152,746	0	152,746	94	162,950	0	0
Dechrau Rhaglen Band B	2,878,000	2,498,418	37,883	2,536,301	88	2,878,000	0	0
CYFANSWM	9,376,545	5,995,019	544,586	6,539,605	70	8,607,821	(768,724)	(8)

ATODIAD B

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant wedi'i Ymrwymo (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragwelir (£)	Tan / Gor Wariant a Ragwelir (£)	Amrywiant (%)
Economaidd ac Adfywio								
Canolfan Hamdden Caergybi - Llawr	50,527	47,524	2,381	49,905	99	49,905	(622)	(1)
Porth Twristiaeth	50,000	0	0	0	0	50,000	0	0
Adfywio Caergybi (THI Cam II)	1,282,000	383,601	607,170	990,771	77	990,771	(291,229)	(23)
Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol	122,543	0	0	0	0	122,543	0	0
Llithfra Porth y Wrach – Camerâu Gorfodaeth	30,000	0	0	0	0	30,000	0	0
Canolfan Gymunedol Newry	51,287	3,885	0	3,885	8	51,287	0	0
Isadeiledd Morwrol	177,514	0	0	0	0	87,514	(90,000)	(51)
Isadeiledd Ymwelwyr	1,340,482	86,322	554,975	641,297	48	1,240,482	(100,000)	(7)
Arfor	585,000	260,409	0	260,409	45	585,000	0	0
Llyfrgell Llangejni	95,430	40,233	7,865	48,098	50	95,430	0	0
Caergybi: Trawsnewid yn seiliedig ar ddiwylliant a threftadaeth	9,800,000	2,562,349	0	2,562,349	26	6,374,342	(3,425,658)	(35)
CYFANSWM	13,584,783	3,384,323	1,172,392	4,556,715	34	9,677,275	(3,907,508)	(29)
Prifffyrdd								
Cerbydau	520,789	489,698	12,290	501,988	96	501,988	(18,801)	(4)
Cerbydau Graeanu	456,000	0	426,772	426,772	94	426,772	(29,228)	(6)
Ail-wynebu Prifffyrdd	2,116,975	2,058,342	0	2,058,342	97	2,116,975	0	0
Cynllun Atal Llifogydd Llanfair	454,334	246,058	0	246,058	54	354,334	(100,000)	(22)
Cynllun Atal Llifogydd Menai – Cynllun Busnes Llawn	69,518	38,169	0	38,169	55	59,518	(10,000)	(14)
Buddsoddi i Arbed – Cerbydau	5,068	0	0	0	0	5,068	0	0
Gwaith grantiau ar raddfa fach	889,341	729,563	0	729,563	82	889,341	0	0
Teithio Llesol	1,527,338	699,016	149,362	848,378	56	1,527,338	0	0
Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Mannau Gwefru EV 2023/24	163,521	162,218	0	162,218	99	163,521	0	0
Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd	161,500	82,867	0	82,867	51	161,500	0	0
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau	71,750	65,976	0	65,976	92	71,750	0	0
ULEV 2024/25	502,500	164,854	99,263	264,117	53	426,500	(76,000)	(15)
Isadeiledd Gwefru EV	178,705	22,316	1,940	24,256	14	178,705	0	0
CYFANSWM	7,117,339	4,759,077	689,627	5,448,704	77	6,883,310	(234,028)	(3)

ATODIAD B

Gwasanaeth	Cyllideb Flynyddol (£)	Gwariant Gwirioneddol (£)	Gwariant wedi'i Ymrwymo (£)	Cyfanswm Gwariant (£)	Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%)	Gwariant a Ragwelir (£)	Tan / Gor Wariant a Ragwelir (£)	Amrywiant (%)
Rheoli Gwastraff								
Gwaith IVC	7,791	0	0	0	0	7,791	0	0
Offer Ailgylchu	255,857	238,524	0	238,524	93	255,857	0	0
CYFANSWM	263,648	238,524	0	238,524	90	263,648	0	0
Eiddo								
Adnewyddu Asedau Presennol	698,060	136,744	1,385	138,129	20	698,060	0	0
Plas Arthur	1,273,753	662,186	0	662,186	52	1,273,753	0	0
Eiddo Buddsoddi i Arbed	15,596	0	0	0	0	15,596	0	0
Grant Gwres Carbon Isel – Swyddfeydd y Cyngor	23,900	0	0	0	0	23,900	0	0
Grant Gwres Carbon Isel - 231	2,875,431	1,720,000	0	1,720,000	60	2,759,888	(115,543)	(4)
Grant Gwres Carbon Isel - 249	1,572,184	0	0	0	0	1,414,966	(157,218)	(10)
Grant Gwres Carbon Isel - 250	4,111,728	1,684,415	0	1,684,415	41	3,868,997	(242,731)	(6)
Grant Gwres Carbon Isel - 251	1,632,570	591,814	0	591,814	36	1,528,495	(104,075)	(6)
Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus	279,574	0	0	0	0	10,000	(269,574)	(96)
CYFANSWM	12,482,795	4,795,159	1,385	4,796,544	38	11,593,654	(889,141)	(7)
Trawsnewid								
TGCh	411,513	5,797	13,680	19,478	5	60,000	(351,513)	(85)
System Ffôn	88,500	56,036	689	56,724	64	88,500	0	0
CYFANSWM	500,013	61,833	14,369	76,202	15	148,500	(351,513)	(70)
Gwasanaethau Oedolion								
Gardd Synhwyrdd Gors Felen	62,353	35,053	0	35,053	56	62,353	0	0
Canolfan Glanhwfa	987,041	283,439	0	283,439	29	700,000	(287,041)	(29)
Y Gronfa Gofal Integredig	162,362	28,873	8,697	37,570	23	162,362	0	0
Adnewyddu Plas Mona	13,520	0	0	0	0	13,520	0	0
CYFANSWM	1,225,276	347,365	8,697	356,062	29	938,235	(287,041)	(23)
CYFANSWM	75,172,751	38,603,534	2,612,076	41,215,610	55	67,002,591	(8,170,160)	(11)

Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb.

Cynllun	Cyllideb £	CYLLID						
		Grant £	Cyfraniad Refeniw £	Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf £	Cronfa Wrth Gefn Gyfalaf £	Benthycia â Chefnogaeth £	Bethycia Digefnogaeth £	Cronfa Arall £
Galluogi	139,786	139,786						
Teithio Llesol	1,527,338	1,527,338						
ADY 2024/25	476,761	476,761						
Cynlluniau Llifogydd ar Raddfa Fach	889,341	580,143			53,172	256,026		
Gardd Synhwyrdd Gors Felen	62,353	62,353						
Canolfan Glanhwfa	987,041	987,041						
Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd	161,500	161,500						
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau	71,750	71,750						
ULEV	502,500	502,500						
Ysgol DH – Bloc Technoleg								
Bwyd	162,950	115,000			27,950	20,000		
Cyfalaf Adeiladau Addysg	(515,752)					(515,752)		
Cyfalaf Adeiladau'r Cyngor	(405,235)					(405,235)		
Toi y Santes Fair	218,607	153,000				65,607		
Grant Gwres Carbon Isel - 231	1,932,388	1,739,149				193,239		
Grant Gwres Carbon Isel - 249	974,510	877,059				97,451		
Grant Gwres Carbon Isel - 250	2,497,783	2,248,004				249,778		
Grant Gwres Carbon Isel - 251	982,523	884,271				98,252		
Plas Arthur	1,273,753	986,132				287,621		
Ysgolion Bro 2024/25	789,680	789,680						
Y Gronfa Gofal Integredig	162,362					162,362		
ULEV	(8,023)	(8,023)						
Cyfalaf Trwsio a Cynnal a Chadw Addysg	953,523	953,523						
Llanfairpwll - Cynllun Busnes								
Llawn	105,000	105,000						
Arfor	585,000	585,000						
Cyfalaf Gofal Plant	435,044	435,044						
Uned Ysgol Llanfechell	842,309	842,309						
Uned Ysgol Llangoed	442,543	442,543						
Uned Henblas	95,430	95,430						
Llyfrgell Llangejni -- SPF	38,569	38,569						
Isadeiledd Ymwelwyr - SPF	1,146,529	1,146,529						
Cyllid cyfatebol cynllun llifogydd	(346,800)	(115,774)				(231,026)		
CRT*	(1,345,000)	(1,172,661)	(2,688,074)	509,441		(162,362)	2,168,656	
CYFANSWM	15,836,062	15,648,956	(2,688,074)	509,441	81,122	115,961	2,168,656	0

*Roedd cyllideb y CRT ar gyfer 2024/25 yn cynnwys amcangyfrif rhy uchel ar gyfer cyllid grant ac, yn ogystal â gostwng y gyllideb yn ôl y gofyn, mae'r cyllid wedi cael ei ddiwygio erbyn hyn.

Cynlluniau Ychwanegol a Ychwanegwyd yn Chwarter 3 – Angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith		
Cynllun	£'m	Cyllidir gan
Cyfalaf Adeiladau Addysg	0.381	Grant Allanol
Isadeiledd Ymwelwyr	1.147	Grant Allanol
LCHG 231 – cywiro'r llithriad yn dilyn archwiliad terfynol Datganiad Cyfrifon (SOA) 2023/24	0.873	Grant Allanol a chyllid cyfatebol gan y Cyngor
LCHG 249 – cywiro'r llithriad yn dilyn archwiliad terfynol SOA 2023/24	0.033	Grant Allanol a chyllid cyfatebol gan y Cyngor
LCHG 250 – cywiro'r llithriad yn dilyn archwiliad terfynol of SOA 2023/24	0.212	Grant Allanol a chyllid cyfatebol gan y Cyngor
LCHG 251 – cywiro'r llithriad yn dilyn archwiliad terfynol SOA 2023/24	0.075	Grant Allanol ac arian cyfatebol gan y Cyngor
Cyllid cyfatebol cynllun lliniaru llifogydd	(0.347)	Grant Allanol a benthycia â chefnogaeth wedi'i symud i'r cynlluniau Lliniaru Llifogydd ar Raddfa Fach
Cynlluniau lliniaru llifogydd ar raddfa fach	0.360	Cynnydd yn y gyllodeb a gyllidir drwy gyllidebau cyfalaf presennol
Cyfalaf Adeiladau Addysg	(0.025)	Cyllid cyfatebol benthycia â chefnogaeth wedi'i symud i gynlluniau Lliniaru Llifogydd ar Raddfa Fach
Cyfalaf Adeiladau'r Cyngor	(0.012)	Cyllid cyfatebol ychwanegol benthycia â chefnogaeth i gywiro cyllid cynllun Plas Arthur
Cyfanswm Cynlluniau Ychwanegol a Ychwanegwyd yn Chwarter 3	2.696	

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	18 CHWEFROR 2025
Pwnc:	CYFRIF REFENIW TAI – MONITRO'R GYLLIDEB, CHWARTER 3 2024/25
Aelod(au) Portffolio:	CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A THAI
Pennaeth/Cyfarwyddwr Gwasanaeth:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)
Awdur yr Adroddiad:	ŠARKA TIMAROVÁ
Ffôn:	
E-bost:	SarkaTimarova@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amh.
A – Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau	
1. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol: - (i) Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 3 2024/25. (ii) Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2024/25. 2. Cefndir (i) Gosodwyd cyllideb refeniw gyda gwarged a gynlluniwyd o £8,369k. (ii) Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2024/25 yw £29,573k. Mae cyllideb cyllid grant o £10,578k a chronfa wrth gefn clustnodedig o £509k yn gostwng y gyllideb net i £18,485k. (iii) Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £10,116k. Bydd £7,011k yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT, a bydd y balans o £3,104k yn cael ei gyllido gan fenthyca allanol. (iv) Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo'i gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT. 3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025. 4. Trosolwg 4.1 Mae sefyllfa gwarged / diffyg refeniw y CRT ar ddiwedd chwarter 3 yn dangos tanwariant o £338k o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Rhagwelir gorwariant o £38k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae mwy o fanylion wedi'u cynnwys yn Adrannau 5 i 8 isod ac yn Atodiad A. 4.2 Rhagwelir y bydd gwariant cyfalaf £1,732k yn llai na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, fel yr esbonnir yn Adran 9 isod ac yn Atodiadau B a C. Mae disgwyl y bydd incwm grant £1,205k yn uwch na'r gyllideb, ac rydym hefyd yn disgwyl derbyn £128k o dderbyniadau cyfalaf ychwanegol. 4.3 Mae'r diffyg a ragwelir (trwy gyfuno cyllidebau refeniw a chyfalaf) bellach yn £7,088k, £3,027k yn llai na'r gyllideb.	

5. Incwm

- 5.1** Ar ddiwedd chwarter 3, roedd incwm £235k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r diffyg o £171k yn yr incwm rhenti yn bennaf oherwydd bod nifer yr eiddo gwag yn uwch na'r disgwyl, o gymharu â'r gyllideb, ac mae gwahaniaeth o ran amseru trosglwyddo eiddo newydd i'r stoc sydd ar gael i'w rentu'n rhannol gyfrifol am y diffyg hefyd. Y rheswm pennaf am y diffyg o £64k sydd yn weddill yw gwahaniaeth amseru o ran derbyn y derbyniadau gwirioneddol incwm arall o gymharu â'r gyllideb. Rydym yn rhagweld y bydd incwm £178k yn llai na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

- 6.1** Ar ddiwedd chwarter 3, roedd gwariant nad yw'n ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw £108k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r prif amrywiadau'n ymwneud â:-
- thanwariant o £19k ar gostau staffio yn y tîm rheoli ystadau;
 - tanwariant o £23k yn y tîm cyfranogiad tenantiaid o ganlyniad i gyllid grant ychwanegol;
 - dileu dyledion drwg gwerth £47k (a fydd yn cael ei wrthbwyso ar ddiwedd y flwyddyn â llai o ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg);
 - gorwariant ar sawl llinell amrywiol iawn yn y gyllideb, megis cyfleustodau a gwasanaethau diogelwch ayb., sy'n dod i gyfanswm o £50k;
 - buddsoddiad ychwanegol o £50k mewn systemau TG.
- 6.2** Rydym yn rhagweld gorwariant posib o hyd at £193k ar ddiwedd y flwyddyn. Os caiff y gorwariant hwn ei wireddu, y prif reswm fydd gwariant ychwanegol o hyd at £140k mewn perthynas â throsglwyddo i gontract newydd ar gyfer system TG tai. Rydym yn dal i drafod cost y contract terfynol gyda chyflenwr y feddalwedd.

7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

- 7.1** Ar ddiwedd chwarter 3, roedd tanwariant o £682k ar waith trwsio a chynnal a chadw. Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT), lle mae gwariant £745k yn is na'r gyllideb. Mae sawl rheswm am hyn:-
- (i) mae amseriad anfonebau contractwyr a gwahaniaethau wrth broffilio cyllidebau yn gyfrifol am tua £600 o'r tanwariant – tybir y bydd hyn yn cywiro'i hun i raddau helaeth erbyn diwedd y flwyddyn; mae ein gweithwyr storfa yn dal i brofi oedi wrth anfon anfonebau ers symud i system gyllid newydd;
 - (ii) tanwariant ychwanegol ar drafnidiaeth (cerbydau a gyllidwyd at ddefnydd staff gweithredol ble mae'r swyddi'n wag), yn ogystal â thanwariant ar staffio oherwydd swyddi gweigion;
 - (iii) yn gyffredinol, mae gwariant yr UCChT wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall, oherwydd cynnydd mewn prisiau ac oherwydd bod mwy o waith yn cael ei wneud. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r cynnydd oherwydd gwaith cyfalaf ar eiddo gwag ac mae'r gwariant yn cael ei gyfalafu. Yn sgil y tueddiadau gwrthwynebol hyn, rhagwelir tanwariant o tua £333k ar ddiwedd y flwyddyn.
- 7.2** Mae gwariant ar staff nad ydynt yn staff cynnal a chadw'r UCChT £83k yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3, oherwydd swyddi gweigion. Mae gwaith trwsio a chynnal a chadw arall yn dangos gorwariant.

8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

- 8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sydd yn ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ddiwedd chwarter 3, rydym yn rhagweld cyllideb gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn.

9. Gwariant Cyfalaf

- 9.1** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2024/25 yw £29,573k, mae'r gyllideb cyllid grant yn £10,578k, ac mae'r gyllideb cyfraniadau eraill yn £509k. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, rydym yn rhagweld y bydd gwariant cyfalaf yn lleihau i £27,841k (gweler Atodiad B am ddadansoddiad manwl), yn ogystal â gostyngiad mewn incwm grantiau a derbyniad cyfalaf ychwanegol gwerth £128k, i'w ddefnyddio'n llawn gyda'r swm o £509k o'r gronfa wrth gefn glustnodedig.

Mae'r cyllid Grant sy'n cael ei ragweld, gwerth £11,783k, yn cael ei grynhoi yn y tabl isod:-

Ffynhonnell	Rhagolwg Chwarter 3 £
Y Gronfa Tai â Gofal (CTG)	1,184,158
CADW	73,676
SATC	324,730
Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol	889,540
Grant Tai Cymdeithasol (GTC)	5,382,170
Lwfans Atgyweiriadau Mawr (LAM)	2,690,000
Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2024/25	872,899
Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2024/25 Dyraniad Ychwanegol	366,268
Cyfanswm Cyllid Grant	11,783,441

- 9.2** Gwariant SATC – Mae'r gyllideb o £2,700k yn cael ei rhannu fel a ganlyn:- £1,500k i fynd i'r afal â SATC, er mwyn adnewyddu eiddo i safon SATC pan fyddant yn dod yn wag, os oedd y tenant blaenorol wedi gwrthod caniatáu i'r gwaith gael ei wneud. Bydd y £1,200k sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio i sefydlu rhaglen 5 mlynedd ar gyfer adnewyddu ceginau sydd bellach dros 15 oed. Cafodd y contract ei dendro a'i werthuso yn ystod chwarter 2 a'i ddyfarnu i ddau gontractwr llwyddiannus yn ystod chwarter 3. Rhagwelir y bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2024/25.
- 9.3** Gwariant Risg Tân – Bwriedir gwario'r gyllideb o £400k ar sicrhau cydymffurfiaeth â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005. Bydd y mesurau arfaethedig yn ymwneud yn bennaf â gosod drysau tân newydd ac uwchraddio systemau larymau tân mewn blociau fflatiau. Cafodd y contract gosod drysau tân newydd ei ddyfarnu yn ystod chwarter 2 a dechreuodd y gwaith ar y safle yn ystod chwarter 3. Mae'r costau'n uwch na'r gyllideb wreiddiol ac, o ganlyniad, rhagwelir y bydd gorwariant o £100k yn y gyllideb yn ystod 2024/25.
- 9.4** Gwariant ar Addasiadau Sector Cyhoeddus – Mae'r Gwasanaethau Tai yn disgwyl i'r galw am addasiadau canolig a mawr barhau'n uchel, a bydd y gyllideb o £500k a ddyrannwyd yn cyllido gwaith megis gosod lifftiau grisiau, cawodydd â mynediad gwastad, rampiau ac estyniadau. Rhagwelir y bydd y gyllideb lawn yn cael ei defnyddio yn ystod 2024/25.

- 9.5** Gwariant Perfformiad Ynni - Mae rhaglen 5 mlynedd wedi cael ei rhoi ar waith ar gyfer darparu mesurau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio yn y tymor hwy, sy'n ymwneud yn bennaf â gosod systemau Solar PV ar y stoc dai a thargedu eiddo sydd heb eu cysylltu â'r prif rwydwaith nwy. Bydd y gwaith yn dechrau yn ystod y chwarter olaf, a rhagwelir y bydd £900k o'r gyllideb wreiddiol o £1,700k yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 9.6** Gwariant Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd – Dyrannwyd cyllideb gwerth cyfanswm o £6,216k ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw traddodiadol a gynlluniwyd, sy'n cynnwys ymrwymiad a ddygwyd ymlaen o 2023/24. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar ystadau ym Mae Cemaes, Caergybi a'r Fali, serch hynny, rhagwelir tanwariant o £1,415k, a bydd y cynlluniau'n cael eu dwyn ymlaen i 2025/26.
- 9.7** Gwariant ar Waith Amgylcheddol – Mae cyllideb gwerth £500k wedi'i dyrannu ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn ystod 2024/25. Bydd cyfran o'r gyllideb hon yn cael ei ddefnyddio i barhau â'r gwaith a gynlluniwyd i ddymchwel rhai garejys yn Llangefni, Moelfre ac Amlwch nad ydynt yn ymarferol eu cadw bellach. Defnyddir y gyllideb hefyd i dargedu gwelliannau ar stadau tai ac uwchraddio gwaith trin y mae'r Gwasanaethau Tai'n berchen arnynt ac yn eu gweithredu. Mae trafodaethau'n parhau â Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag uwchraddio gwaith trin yng Ngharreglefn, ac nid yw'r cynllun yn debygol o gael ei gytuno yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac ni fydd gwaith yn cychwyn ar y safle. Rhagwelir na fydd y gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2024/25, a rhagwelir tanwariant o £280k.
- 9.8** Gwariant Contract Gwres Canolog – Yn ystod 2024/25, nod y Gwasanaethau Tai yw amnewid oddeutu 600 o foeleri, a dyrannwyd cyllideb o £1,600k ar gyfer y prosiect. Dyfarnwyd contract ar gyfer y rhaglen amnewid boeleri ar gyfer eleni yn ystod chwarter 1. Yn dilyn adolygiad canol blwyddyn o niferoedd eiddo terfynol, rhagwelir tanwariant o £500k yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.
- 9.9** Adnewyddu Fflyd – Mae'r gyllideb yn dyrannu swm o £300k er mwyn cychwyn rhaglen dreigl i adnewyddu fflyd gerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau, yn bennaf y faniau a ddefnyddir gan weithwyr, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddefnyddio'r gyllideb yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 9.10** Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd - Disgwylir defnyddio mwy na'r gyllideb o £15,657k yn ystod 2024/25, a bydd cyfanswm o £16,820k yn cael ei wario.
- **Prosiectau a gwblhawyd neu sydd bron â'u cwblhau**
Mae Lôn Lwyd ym Mhentraeth a Pharc y Coed (Cam 2) yn Llangefni wedi'u cwblhau gan ychwanegu 10 a 6 uned rhenti canolradd at stoc dai'r CRT. Bydd 4 uned hefyd ar gael i'w gwerthu ym Mharc y Coed.

Bydd Plas Alltran yng Nghaergybi a Lôn Garreg Lwyd yng Nghaergybi'n ychwanegu 12 uned at stoc dai rhenti cymdeithasol y CRT.
 - **Cydweithio â'r Gwasanaethau Cymdeithasol**
Mae'r CRT yn cydweithio ar bedwar prosiect gweithredol gydag adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Mae'r gwaith o ddatblygu cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy yn wynebu oedi ac nid oes disgwyl i unrhyw waith sylweddol ddigwydd yn 2024/25. Prynowyd eiddo yng Ngwalchmai gyda grant o'r CTG a bydd y costau adnewyddu'n cael eu talu gan y CRT. Bydd estyniad newydd ar eiddo ym Modorgan yn cael ei ddatblygu gyda grant o'r CTG. Yn chwarter 4, bydd eiddo arall yn cael ei brynu yn Llangefni i'w ddefnyddio gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

- **Datblygiadau eraill**

Mae datblygiadau newydd yng Nghae Braenar yng Nghaergybi a Stad y Bryn yn Llanfaethlu yn mynd rhagddynt yn dda, er bod cynnydd gyda'r ddau brosiect wedi arafu ychydig. Roedd y gwaith o ddatblygu hen safle Ysgol Niwbwrch i fod i gychwyn ym mis Ionawr 2024, ond oherwydd oedi ni chychwynnwyd ar y gwaith tan fis Mehefin. Oherwydd hyn, bydd y gwariant yn 2024/25 tua £750k yn llai, a fydd yn llithro i 2025/26.

- **Prosiectau newydd y mae gwaith cychwynnol yn cael ei wneud arnynt neu brosiectau sydd ar y gweill nad ydynt wedi derbyn caniatâd cynllunio eto**

Mae gwaith cychwynnol yn cael ei wneud ar nifer o brosiectau, sef datblygiadau ym Mhlas Penlan yn Llangefni, Maes Mona yn Amlwch a safle hen Ysgol Corn Hir yn Llangefni. Mae disgwyl i Blas Penlan a safle hen Ysgol Corn Hir wario mwy gan nad oedd cost y safle wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2024/25. Mae'r prosiect datblygu ar safle Ysgol Parch Thomas Ellis wedi'i ohirio oherwydd materion cynllunio ac mae wedi cael ei dynnu oddi ar y rhestr o brosiectau gweithredol am y tro. Mae ei gyllideb wreiddiol o £21k wedi'i dyrannu bellach i ddatblygiad Garreg Lwyd.

Mae prosiectau sydd ar y gweill ond nad ydynt wedi derbyn caniatâd cynllunio eto yn cynnwys gwaith datblygu ac ailddatblygu ym Maes William Williams yn Amlwch, Tan y Foel yn Llanerchymedd, Ysgol y Parc yng Nghaergybi a Phencraig Mansion yn Llangefni. Mae disgwyl i wariant ar y prosiectau hyn fod oddeutu £65k yn ystod 2024/25.

Bydd pob prosiect yn cael ei asesu'n ariannol a'i gymeradwyo'n unol â'r gweithdrefnau a gymeradwywyd.

- **Prynu eiddo yn ôl ac adnewyddu eiddo**

Mae'r cynllun blynyddol yn cynnwys prynu ac adnewyddu 15 o hen dai Cyngor. Mae 7 eiddo wedi cael ei brynu, ac mae'r 8 arall wedi'u hadnabod ac wrthi'n cael eu prynu ar hyn o bryd. Mae £500k o gyllid grant wedi cael ei sicrhau i gyllido'r costau prynu'n rhannol. Rhagwelir tanwariant o £157k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae £704k wedi cael ei wario ar waith adnewyddu hyd yma, gyda chyfraniad o £390k o'r grant TACP, er bod y gwaith wedi cael ei gwblhau ar eiddo a brynwyd yn 2023/24. Mae disgwyl i brosiectau presennol, yn ogystal â gwaith ar eiddo newydd a brynir, olygu bod cyfanswm o £1,404k yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

10. Balans y CRT

10.1 Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £8,189k. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer defnyddio £7,011k o'r balans hwn, gan adael yr isafswm balans o £1,177k ar gyfer y gronfa wrth gefn, fel y nodir yng Nghynllun Busnes y CRT. Mae hyn gyfystyr â 5% o'r gyllideb incwm ar gyfer 2024/25.

11. Benthyciadau'r CRT

11.1 Mae'r diffyg refeniw / cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn yn £10,116k. Cyllidebwyd hyn i gael ei gyllido gan £7,011k o gronfa wrth gefn y CRT a £3,105k gan fenthycia allanol. Erbyn hyn, rhagwelir y bydd y diffyg yn £7,089k, yn bennaf o ganlyniad i'r tanwariant ar y rhaglen gyfalaf. Bydd hyn yn cael ei gyllido gan £7,011k o gronfa wrth gefn y CRT a £77k gan fenthycia ychwanegol.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Amherthnasol.		
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.		
Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ydi		
Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Amherthnasol
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwrch sut	Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Amherthnasol
E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad. Mae unrhyw sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.

3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried a'u hymgorffori yn yr adroddiad.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn derbyn adroddiad ar ganlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
• Atodiad A – Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd chwarter 3 2024/25 • Atodiad B – Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 3 2024/25 • Atodiad C – Cynlluniau cyfalaf adeiladau newydd a rhagolygon hyd at ddiwedd chwarter 3 2024/25		
Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
• Cynllun Busnes 30 mlynedd y CRT 2024-2054 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2024).		

CYFRIF REFENIW TAI 2024/25								
	Cyllideb Flynyddol 2024/25	Cyllideb a broffilwyd hyd at Mis 9	Gwirioneddol hyd at Mis 9	Amrywiant hyd at Mis 9	Rhagolwg Diwedd Blwyddyn	Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn	Amrywiant a ragwelir ym Mis 6	Newid o Ragolwg Mis 6
	£	£	£	£	£	£	£	£
CYFRIF REFENIW								
Incwm								
Anheddau	(22,764,700)	(17,073,526)	(16,902,888)	170,638	(22,574,038)	190,662	182,950	7,713
Modurdai	(267,820)	(200,866)	(200,981)	(115)	(267,935)	(115)	333	(448)
Taliadau Gwasanaeth	(185,730)	(131,799)	(148,806)	(17,007)	(182,737)	(7,007)	(2,473)	(4,535)
Arall	(233,340)	(211,508)	(129,902)	81,606	(248,465)	(5,125)	(19,289)	14,164
Darpariaeth Dyledion Drwg	341,470	-	-	-	341,470	-	-	-
CYFANSWM INCWM	(23,110,120)	(17,617,699)	(17,382,577)	235,122	(22,931,705)	178,415	161,521	16,894
Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw								
Cyfranogiad Tenantiaid	252,940	188,762	165,942	(22,820)	241,322	(11,618)	9,646	(21,264)
Gweinyddu Rhenti	450,530	337,434	353,170	15,736	476,823	26,293	29,064	(2,771)
Rheoli Stadau	684,480	512,746	494,000	(18,746)	674,304	(10,176)	(4,509)	(5,668)
Gwariant Refeniw Arall	2,354,450	1,662,104	1,796,101	133,997	2,542,668	188,218	158,566	29,652
Cyfanswm Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw	3,742,400	2,701,046	2,809,214	108,168	3,935,117	192,717	192,767	(50)
Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw								
Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT)	6,576,240	5,083,987	4,338,256	(745,731)	6,343,636	(232,604)	92,952	(325,555)
Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UCChT)	1,192,960	893,396	815,776	(77,620)	1,112,358	(80,602)	(67,603)	(12,999)
Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall	1,098,220	723,362	864,961	141,599	1,078,124	(20,096)	43,970	(64,065)
Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw	8,867,420	6,700,745	6,018,993	(681,752)	8,534,118	(333,302)	69,318	(402,620)

Yn eiddo

Addasiadau Diwedd Blwyddyn								
Taliadau	1,646,000	-	-	-	1,646,000	-	-	-
Llog a Dderbynnir	(400,000)	-	-	-	(400,000)	-	-	-
Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Tai	53,870	-	-	-	53,870	-	-	-
Ailgodi Tâl o'r Gwasanaethau Canolog	831,260	-	-	-	831,260	-	-	-
Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn	2,131,130	-	-	-	2,131,130	-	-	-
CYFANSWM GWARIANT REFENIW	14,740,950	9,401,791	8,828,207	(573,584)	14,600,366	(140,584)	262,085	(402,670)
CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG	(8,369,170)	(8,215,908)	(8,554,370)	(338,462)	(8,331,340)	37,830	423,606	(385,776)
CYFRIF GWARIANT CYFALAF								
Gwariant 2024/25	29,573,006		18,286,473	-	27,840,802	(1,732,204)	1,023,078	(2,755,282)
Cyllid grant	(10,578,339)		-	-	(11,783,441)	(1,205,102)	(1,612,054)	406,952
Cyfraniadau eraill	(509,441)		(128,000)	(128,000)	(637,441)	(128,000)	(128,000)	-
CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG	18,485,226		18,158,473	(128,000)	15,419,920	(3,065,306)	(716,976)	(2,348,330)
Cyllidir Gan								
Gwarged refeniw	(8,369,170)				(8,331,340)	37,830		(8,331,340)
Cronfa wrth gefn CRT	(7,011,400)				(7,011,400)	-		(7,011,400)
Benthyca digefnogaeth	(3,104,656)				(77,180)	3,027,476		(77,180)
Cyfanswm Cyllido Gwariant Cyfalaf	(18,485,226)				(15,419,920)	3,065,306		(15,419,920)
Balans Agoriadol y CRT	(8,188,500)				(8,188,500)			(8,188,500)
Gostyngiad yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT	7,011,400				7,011,400			7,011,400
Balans Cau'r CRT	(1,177,100)				(1,177,100)			(1,177,100)

CYLLIDEB CYFLALAF CYFRIF REFENIW TAI 2024/25

Tudalen 65

	Cyllideb Flynyddol 2024/25	Gwirioneddol i Mis 9	Rhagolwg diwedd blwyddyn	Amrywiant diwedd blwyddyn	Amrywiant a ragwelir ym Mis 6	Newid o ragolwg Mis 6
	£	£	£	£	£	£
Contract Gwresogi Canolog	1,600,000	863,465	1,100,000	(500,000)	(300,000)	(200,000)
Contract Cynnal a Chadw a gynlluniwyd	6,216,006	3,400,766	4,800,766	(1,415,240)	(1,000,000)	(415,240)
Gwella Perfformiad Ynni	1,700,000	4,325	900,000	(800,000)	-	(800,000)
Gwaith Amgylcheddol	500,000	157,622	220,000	(280,000)	(200,000)	(80,000)
Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd	15,657,000	12,100,536	16,820,036	1,163,036	2,523,078	(1,360,042)
Addasiadau Sector Gyhoeddus	500,000	325,175	500,000	-	-	-
Risg Tân	400,000	19,572	500,000	100,000	-	100,000
SATC	1,500,000	1,268,250	1,500,000	-	-	-
Rhaglen Adnewyddu Ceginau	1,200,000	146,762	1,200,000	-	-	-
Adnewyddu Fflyd	300,000	-	300,000	-	-	-
CYFANSWM GWARIANT CYFALAF	29,573,006	18,286,473	27,840,802	(1,732,204)	1,023,078	(2,755,282)

CYLLIDEB DATBLYGIADAU NEWYDD 2024/25

Tudalen 66

Cynlluniau	Nifer yr unedau ychwanegol	Cyllideb 2024/25 £	Gwariant hyd Mis 9 £	Cyfanswm gwariant a ragwelir 2024/25 £	Amrywiant a ragwelir ym Mis 9 £	Amrywiant ym Mis 6 £
Lôn Lwyd, Pentraeth	10	2,723,500	2,724,547	2,724,547	1,047	(757)
Parc y Coed, Llangefni Cam 2	10	294,000	214,934	215,000	(79,000)	(54,000)
Plas Alltran, Caergybi	4	238,000	323,935	562,395	324,395	314,335
Ffordd Garreg Lwyd, Caergybi	8	886,500	937,539	965,000	78,500	78,500
Gofal Ychwanegol Porthaethwy	45	100,000	209,368	250,000	150,000	50,000
Cartrefi Gwasanaethau Cymdeithasol	3	-	412,216	910,000	910,000	415,000
Cae Braenar, Caergybi	23	4,000,000	3,031,174	3,800,000	(200,000)	-
Hen Safle Ysgol Niwbwrch	14	2,500,000	1,048,133	1,750,000	(750,000)	(700,000)
Stad y Bryn, Llanfaethlu	9	2,175,000	1,516,306	1,900,000	(275,000)	250,000
Plas Penlan, Llangefni	12	50,000	25,989	350,000	300,000	300,000
Safle Hen Ysgol Corn Hir		100,000	2,545	520,000	420,000	420,000
Cynlluniau yn y Cyfnod Cyn Cynllunio	0	90,000	60,725	125,969	35,969	-
Adnewyddu 15 Uned	0	1,000,000	703,693	1,403,693	403,693	1,100,000
Prynu 15 Uned yn ôl	15	1,500,000	889,432	1,343,432	(156,568)	200,000
Cyfanswm	153	15,657,000	12,100,536	16,820,036	1,163,036	2,373,078

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH	
Dyddiad:	18 CHWEFROR 2025	
Pwnc:	ADOLYGIAD RHEOLI'R TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2024/25	
Deilydd Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS, DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A TAI	
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	R MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151	
Awdur yr Adroddiad:	CLAIRE KLIMASZEWSKI	
Ffôn:	01248 752133	
E-bost:	claire.klimaszewski@ynysmon.llyw.cymru	
Aelodau Lleol:	Amherthnasol	
A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau		
Argymhellir bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:-		
1. Ystyried a nodi'r adroddiad, y gweithgareddau trysorlys a'r dangosyddion darbodus fel ag yr oeddent ar 30 Medi 2024.		
2. Cyflwyno unrhyw sylwadau i'r Cyngor llawn.		
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Adroddiad craffu ac er gwybodaeth yw hwn ac nid yw ystyried opsiynau'n berthnasol.		
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus CIPFA 2021.		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa rheoli'r trysorlys lle mae penderfyniadau ynglŷn â benthyca a buddsoddi wedi cael eu gwneud yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Nid oes angen penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn a fydd yn effeithio ar gyllideb y Cyngor.		
DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Dim sylwadau ychwanegol.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	D/B Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Dim sylwadau ychwanegol.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n craffu ar yr adroddiad hwn ar 11 Chwefror 2025.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
10	Arall	Dim

E – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae rheoli'r trysorlys yn allweddol o ran hwyluso cynaliadwyedd ar gyfer anghenion yr Ynys yn yr hir dymor gan fod cynlluniau benthycu'n cynorthwyo i gyllido gwariant cyfalaf i sicrhau fod asedau ar gael heddiw ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid hefyd i gynlluniau trysorlys fod yn fforddiadwy i sicrhau nad yw penderfyniadau Rheoli'r Trysorlys a wneir yn y tymor byr a'r tymor canol yn creu anfantais i genedlaethau'r dyfodol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-	Mae'n rhaid i'r strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r gweithgareddau fod yn fforddiadwy er mwyn lliniaru'r effaith yn y dyfodol. Gallai rhywfaint o wariant cyfalaf a gyllidir gan fenthycu, megis o dan y cynllun Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill, gynorthwyo i leihau costau yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy:	Yn aml, mae gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru. Roedd / mae ysgolion newydd / estyniadau o dan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael eu cyllido gyda chyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Ymgynghorir â dinasyddion Môn bob blwyddyn ynglŷn â'r rhaglen gyfalaf flynyddol, ac mae cyfran o'r rhaglen honno'n ddibynol ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys. Mae ymgynghori mwy manwl yn digwydd mewn perthynas â rhai prosiectau cyfalaf, megis adeiladu ysgolion newydd / ad-drefnu ysgolion.
5	Nodwch effeithiau posib y penderfyniad hwn ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd asedau newydd sy'n cael eu hadeiladu a'u cyllido trwy fenthycu yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni adnewyddu ac amnewid blynyddol hefyd yn helpu i wella hygyrchedd a chaniatáu amrywiaeth.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.	Gwaith monitro statudol ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys yw hwn, nid penderfyniad strategol.
7	Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae rhai o'r prosiectau sy'n cael eu cyllido trwy fenthycu'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu a thyfu'r iaith Gymraeg, megis ysgolion cyfrwng Gymraeg sy'n cael eu hadeiladu fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
F – Atodiadau:		
Atodiad A – Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 2 2024/25 Atodiad B – Dadansoddiad o Fenthyciadau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) Cyngor Sir Ynys Môn fesul blwyddyn Aeddfedu Atodiad C – Dadansoddiad Economaidd – MUFG Corporate Markets Treasury Limited Atodiad CH – Dadansoddiad BBGC – MUFG Corporate Markets Treasury Limited		
FF – Papurau cefndir:		
Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 – Cyngor Sir Ynys Môn 7 Mawrth 2024		

1. PWRPAS RHEOLI'R TRYSORLYS

- 1.1** Mae'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) 2024/25 yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau rheoli'r trysorlys o ddydd i ddydd ac yn y tymor canol. Mae'r DSRhT yn rhan allweddol o brosesau cynllunio strategol y Cyngor i gynorthwyo i nodi beth yw blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn y dyfodol.
- 1.2** Mae gweithgareddau rheoli'r trysorlys, yn unol â'r DSRhT, yn allweddol ar gyfer gweithredu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023/28 a'r Strategaeth Gyfalaf 2024/25, yn ogystal â sawl cynllun strategol a gweithredol cysylltiedig. Mae gwariant cyfalaf yn hanfodol i sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar yr asedau tymor hir, megis swyddfeydd y Cyngor, ysgolion, cyfleusterau gofal cymdeithasol, tai Cyngor, isadeiledd, meddalwedd a chyfarpar TGCh, cerbydau ac offer sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor, ac i gynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023/28. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod asedau cyfredol y Cyngor yn cael eu hadnewyddu, eu hystyn neu eu hamnewid yn ôl yr angen a bod asedau newydd, megis ysgolion newydd, yn cael eu hadeiladu er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.
- 1.3** Mae cyllid cyfalaf yn brin, felly mae'r Cyngor yn cyllido rhai prosiectau cyfalaf trwy fenthycia â chefnogaeth, lle mae'r Cyngor yn derbyn cyllid ar gyfer hynny yn y grant cynnal refeniw blynyddol gan Lywodraeth Cymru (LIC), neu fenthycia digefnogaeth, sy'n cael ei gyllido'n llawn gan y Cyngor. Fel arfer, bydd benthycia'n cael ei wneud trwy fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC). Mae hyn yn rhan allweddol o'r gwaith rheoli'r trysorlys, a dyna sydd i gyfrif am y cyswllt pwysig â'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25 a rhoi'r rhaglen gyfalaf ar waith.
- 1.4** Mae'r Côt Ymarfer Rheoli'r Trysorlys 2021, sydd yn ganllaw statudol, yn diffinio rheoli trysorlys fel:-

"Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny."

2. GWYBODAETH CEFNDIROL

- 2.1** Mae rheoli'r trysorlys yn cynnwys tasgau sy'n sicrhau fod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau o ddydd i ddydd, a buddsoddi arian dros ben, yn ychwanegol i'r hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol. Mae'n rhaid i'r buddsoddiadau hyn fod mewn cyfrifon hynod ddiogel, megis banciau yn y DU sydd â statws credyd uchel, fel y diffinnir yn y DSRhT. Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch ei arian, yn unol â'r Côt, ac mae'n sicrhau fod digon o arian parod ar gael ar unwaith fel y gall y Cyngor dalu cyflenwyr, staff a budd-daliadau ar y dyddiadau talu gofynnol. Yr ystyriaeth olaf yw elw ar fuddsoddiadau, ac mae'r Cyngor yn buddsoddi i dderbyn y gyfradd log uchaf posib o fewn y grŵp o sefydliadau sydd yn ddiogel ac yn cwrdd â'r meini prawf yn y DSRhT 2024/25. Elfen olaf Rheoli'r Trysorlys yw rheoli portffolio benthyciadau'r Cyngor, i sicrhau nad yw lefel benthycia'r Cyngor yn rhy uchel a bod costau refeniw benthycia yn fforddiadwy.
- 2.2** Un o swyddogaethau allweddol y gwasanaeth rheoli'r trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o faint y bydd angen i'r Cyngor ei fenthycia, sef, yn ei hanfod, cynllunio llif arian yn y tymor hwy i sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Mae cyswllt agos rhwng Strategaeth Gyfalaf 2024/25, Rhaglen Gyfalaf 2024/25 ac adroddiadau monitro chwarterol y gyllideb gyfalaf a gweithgareddau rheoli'r trysorlys y Cyngor. Yn unol â deddfwriaeth, gall y Cyngor ond benthycia ar gyfer gwariant cyfalaf, nid costau refeniw, ac eithrio pan fydd LIC yn darparu cyfarwydddeb cyfalafu ar gyfer gwariant refeniw eithriadol penodol, megis cyfalafu ôl-daliadau tâl cyfartal. Mae'r strategaeth gyfalaf, y rhaglen gyfalaf flynyddol a'r DSRhT i gyd yn cefnogi blaenoriaethau allweddol y Cyngor sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2023/28. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r gwaith o fonitro gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Medi 2024, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r DSRhT.

3. DIWEDDARIAD ECONOMAIDD

3.1 Mae ymgynghorwyr rheoli trysorlys allanol y Cyngor, MUFG Corporate Markets Treasury Limited (MUFG), yn anfon nifer o ddiweddariadau bob wythnos, megis adroddiadau economaidd ac adroddiadau credyd, er mwyn cynorthwyo swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i wneud y penderfyniadau gorau ynglŷn â gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Mae MUFG wedi darparu diweddariad economaidd ar gyfer yr ail chwarter, ac mae copi ohono yn Atodiad C. Mae MUFG wedi darparu'r rhagolwg o gyfraddau llog canlynol yn ddiweddar hefyd:-

Tabl 1
Rhagolwg o Gyfradd Sylfaen Banc Lloegr, chwyddiant a Chyfraddau BBGC, rhwng Mawrth 2025 a Rhagfyr 2026

	Mawrth	Mehefin	Medi	Rhagfyr	Mawrth	Mehefin	Medi	Rhagfyr
	2025	2025	2025	2025	2026	2026	2026	2026
Cyfradd Banc (%)	4.50%	4.25%	4.00%	4.00%	3.75%	3.75%	3.75%	3.50%
Chwyddiant (OBR Hydref 2024)	2.60%	2.60%	2.60%	2.60%	2.30%	2.30%	2.30%	2.30%
Cyfradd blwydd-dal 5 mlynedd BBGC (%)	4.90%	4.80%	4.60%	4.50%	4.50%	4.40%	4.30%	4.20%
Cyfradd blwydd-dal 10 mlynedd BBGC (%)	5.10%	5.00%	4.80%	4.80%	4.70%	4.50%	4.50%	4.40%
Cyfradd blwydd-dal 25 mlynedd BBGC (%)	5.50%	5.40%	5.30%	5.20%	5.10%	5.00%	4.90%	4.80%
Cyfradd blwydd-dal 50 mlynedd BBGC (%)	5.30%	5.20%	5.10%	5.00%	4.90%	4.80%	4.70%	4.60%

3.2 Targed chwyddiant Banc Lloegr (BLI), a osodwyd gan y Llywodraeth, yw 2%. Dechreuodd chwyddiant godi'n uwch na'r ffigwr hwn ym mis Awst 2021, ac roedd cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) wedi cyrraedd ei lefel uchaf, sef 11.1%, erbyn mis Hydref 2022 o ganlyniad i effaith ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a arweiniodd at gynnydd sylweddol ym mhrisiau ynni a bwyd. Arhosodd chwyddiant yn uchel am fwy o amser na'r disgwyl, ond dechreuodd ostwng ym mis Ebrill 2023, i 8.7%, ac roedd yr MPD wedi gostwng i 7.9% erbyn diwedd chwarter cyntaf 2023/24. Yn 2024/25, mae chwyddiant wedi gostwng yn sylweddol i darged BLI o 2%, a, chyflawnwyd hynny ym mis Mehefin 2024. Parhau i ostwng wnaeth cyfraddau chwyddiant yn ystod yr ail chwarter, ac roedd yr MPD yn 1.7% ar 30 Medi 2024. Er bod rhagolygon chwyddiant yr MPD ar gyfer 2025 a 2026 yn uwch na'r targed o 2% (gweler rhagolygon Chwyddiant OBR, Hydref 2024 yn Nhabl 1 uchod), mae'r cyfraddau hyn yn well o lawer nac yn 2022 a 2023.

3.3 Ar ddechrau'r pandemig, cafodd y gyfradd sylfaen ei gostwng i'w lefel isaf, sef 0.1%, er mwyn cefnogi'r economi. Ym mis Rhagfyr 2021, cododd BLI y gyfradd i 0.25%, ac yna gwelwyd cynnydd o rhwng 0.25% a 0.75% (sef y cynnydd uchaf) yn y gyfradd sylfaen ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC). Ym mis Awst 2023, cododd yr MPC y gyfradd sylfaen i 5.25%, ac ni newidiwyd y gyfradd o 5.25% tan 1 Awst 2024 pan gafodd y gyfradd sylfaen ei gostwng am y tro cyntaf ers 2020, i 5%, ac roedd y gyfradd yr un fath ar 30 Medi 2024. Ers hynny, mae'r gyfradd wedi gostwng i 4.75%, ac mae'r marchnadoedd yn disgwyl 2 neu 3 gostyngiadau cynyddradol pellach yn y gyfradd sylfaen yn ystod 2025.

3.4 Mae'r Cyngor yn elwa ar gyfradd sylfaen uwch ar gyfer buddsoddi arian parod sydd dros ben, ac mae hynny wedi cynorthwyo'r Cyngor i ennill dros £1m mewn taliadau llog. Er hynny, mae benthyciadau'n costio mwy i'r Cyngor ers i BLI ddechrau codi cyfraddau llog i geisio rheoli chwyddiant. Mae benthyca allanol yn cael ei ohirio, felly, hyd nes na fydd y balansau arian parod yn ddigonol i barhau i ddefnyddio balansau'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf (benthyca mewnol).

4. SEFYLLFA FENTHYCA’R CYNGOR 30 MEDI 2024

- 4.1 Benthyciadau BBGC – Ni chymerodd y Cyngor unrhyw fenthyciadau newydd gan y BBGC rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Medi 2024. Yr angen i osgoi benthycia tra bod cyfraddau llog yn codi sydd i gyfrif am hyn. Yn hytrach, defnyddiwyd balansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn yn unol â chyngor MUFG Corporate Markets ar fenthycia yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Y gost yn gysylltiedig â hyn yw bod llai o falansau i’w buddsoddi, ond, serch hynny, mae costau benthycia’n uwch na’r enillion ar fuddsoddiadau. I sicrhau fod gan y Cyngor ddigon o arian i dalu ei gredydwy a chyflogau, mae’n rhaid cadw digon o arian parod mewn cyfrifon galw ar unwaith. Fel arfer, mae’r cyfraddau llog ar y cyfrifon hyn yn llawer is, felly, mae’r Cyngor yn parhau i wneud arbedion rhesymol ar log taladwy wrth ddefnyddio balansau arian parod.
- 4.2 Mae Atodiad B yn cynnwys rhestr lawn o fenthyciadau BBGC sy’n parhau i fod yn ddyledus. Mae’r benthyciad hynaf yn dyddio o 1969, ac mae cyfraddau llog y mwyafrif o’r benthyciadau’n uwch na chyfraddau presennol, er gwaethaf y cynnydd diweddar yn y gyfradd log. Maent wedi cael eu trefnu yn ôl y flwyddyn ariannol pryd mae’n rhaid ad-dalu’r benthyciad.

Tabl 2
Benthyciadau BBGC sy’n Ddyledus - 30 Medi 2024

Benthyciadau BBGC ar 30 Medi 2024			
	BBGC Aeddfedu	BBGC EIP	Cyfanswm Benthyciadau BBGC ar 30 Medi 2024
	£'000	£'000	£'000
Benthyciad Dyledus	117,546	153	117,699
Canran y benthyciadau aeddfedu blwydd-dal	99.87%	0.13%	100.00%
Hyd cyfartalog (blynyddoedd)	31.14	3.66	31.10
Cyfradd gyfartalog (%)	4.47%	9.42%	4.48%

- 4.3 Benthyciadau Salix – Sefydliad LIC yw Salix ac mae’n darparu benthyciadau di-log ac, yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy’n cefnogi’r amgylchedd ac er mwyn cynorthwyo cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni eu targed sero net erbyn 2030. Roedd gan y Cyngor £4.570m o fenthyciadau Salix ar 30 Medi 2024. Mae’r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn ddibynol ar y cytundeb, ac mae 2 ad-daliad y flwyddyn yn cael eu gwneud fesul benthyciad. Mae’r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden, yn ogystal â sawl prosiect cynaliadwy arall. Mae Tabl 3 yn dangos y benthyciadau Salix sy’n ddyledus ar 30 Medi a’r dyddiad ad-dalu ar gyfer pob benthyciad. Gellir gweld yr ad-daliadau ar gyfer y benthyciadau Salix yn Atodiad C.

Tabl 3
Benthyciadau Salix sy’n Ddyledus ar 30 Medi 2024

Benthyciadau Salix ar 30 Medi 2024						
	Benthyciad Salix 2	Benthyciad Salix 3	Benthyciad Salix 4	Benthyciad Salix 5	Benthyciad Salix 6	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans Dyledus	68	287	132	1,653	2,431	4,571
Dyddiad Ad-dalu	2025/26	2027/28	2029/30	2031/32	2035/36	
Cyfradd Llog (%)	-	-	-	-	-	-

5. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

- 5.1 Cymeradwywyd y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli’r Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2024/25, sydd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024.

- 5.2** Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau'r elw (enillion) uchaf posibl ar ei fuddsoddiadau sy'n gymesur â lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd, sy'n cyd-fynd â lefel y risg y mae'r Cyngor am ei gymryd.
- 5.3 Teilyngdod i gael Credyd –** Ychydig o newidiadau sydd wedi bod i gyfraddau credyd yn ystod y chwarter dan sylw. Fodd bynnag, mae swyddogion yn parhau i fonitro'r rhain yn ofalus, a mesurau teilyngdod credyd eraill, i sicrhau mai dim ond gwrthbartïon priodol sy'n cael eu hystyried at ddibenion buddsoddi.
- 5.4 Meini Prawf ar gyfer Gwrthbartïon Buddsoddi –** Mae'r meini prawf presennol ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a gymeradwywyd yn y DSRhT yn bodloni gofynion y swyddogaeth rheoli'r trysorlys.
- 5.5 Balans y Buddsoddiadau –** Cyfanswm y buddsoddiadau ar 30 Medi 2024 oedd £39.451m, fel y dangosir yn Nhabl 4 isod. Roedd yr elw ar y buddsoddiadau hyn rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Medi 2024 yn £924k, a disgwylir i gyfanswm y llog y gellir ei dderbyn ar y buddsoddiadau a restrir isod fod yn £1.322m ar gyfer 2024/25. Mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn uwch wrth i fuddsoddiadau newydd gael eu gwneud pan fydd y rhain yn aeddfedu. Fodd bynnag, mae'r balansau arian parod yn lleihau wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, felly, ni fydd yn ymarferol adnewyddu pob un o'r buddsoddiadau hyn pan fyddant wedi aeddfedu.
- 5.6** Dechreuodd cyfraddau buddsoddi ostwng yn Awst 2024, yn dilyn gostwng y gyfradd sylfaenol o 5.25% i 5% ar 1 Awst 2024. Fodd bynnag, roedd buddsoddiadau tymor penodol yn ystod yr hanner blwyddyn hyd at 30 Medi 2024 wedi cael eu trefnu cyn y gostyngiad hwn. Mae gan gyfrif galw'r Cyngor gyda The Bank of Scotland gyfradd llog newidiol a ostyngodd o 5.14% i 4.88% yn Awst 2024. Fodd bynnag, er bod y cyfraddau'n is, disgwylir i'r llog y bydd y Cyngor yn ei dderbyn ar gyfer 2024/25 fod yn uwch na'r gyllideb. Rhagwelir y bydd Cronfa'r Cyngor yn derbyn cyfanswm o £833k o log ar y buddsoddiadau, sydd £163k yn uwch na'r gyllideb o £670k, disgwylir £304k o log ar gyfer y CRT, £119k ar gyfer ysgolion a £66k ar gyfer trydydd bartïon lle y mae'r Cyngor yn dal cyllid ar ran eraill, yn cynnwys yr Ymddiriedolaethau y mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr iddynt.

Tabl 4
Buddsoddiadau a ddelir rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Medi 2024

Gwrthbarti	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Cyfradd Llog %	Symiau Buddsoddi 1 Ebrill i 30 Medi 2024 £	Prifswm Buddsoddi ar 30 Medi 2024 £	Amcangyfrif o'r llog a enillir i 30 Medi 2024 £	Amcangyfrif o Gyfanswm y Llog ar y buddsoddiad au hyn £
Cyfrif Galw NatWest – amcangyfrif ar gyfer y cyfnod Nationwide Building Society	01/04/2024 08/01/2024	31/03/2025 08/04/2024	Newidiol	11,758,959	11,758,959	266,374	426,038
			5.11%	5,000,000	-	5,600	5,600
Santander Uk Plc	09/02/2024	09/05/2024	5.19%	5,000,000	-	27,727	27,727
National Westminster	11/03/2024	11/06/2024	5.23%	5,000,000	-	51,584	51,584
Cyfrif Galw Bank of Scotland - Lloyds	01/04/2024	31/03/2025	Newidiol	7,692,214	7,692,214	198,489	352,676
Goldmansachs International Bank	08/04/2024	08/10/2024	5.29%	5,000,000	5,000,000	127,540	133,337
Santander	09/05/2024	08/11/2024	5.07%	5,000,000	5,000,000	100,705	127,792
National Westminster Penodol	09/05/2024	09/08/2024	5.14%	5,000,000	5,000,000	65,482	65,482
National Westminster Penodol	11/06/2024	11/12/2024	5.23%	5,000,000	5,000,000	80,241	131,825
Cyfanswm					39,451,173	923,743	1,322,060

5.7 Terfynau Awdurdodedig – Gall swyddogion gadarnhau na aethpwyd yn uwch na'r terfynau awdurdodedig o fewn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024.

6. DANGOSYDD DARBODUS AR GYFER GWARIANT CYFALAF

6.1 Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor

Mae Tabl 5 isod yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf yn chwarter 2:-

Tabl 5
Gwariant Cyfalaf

Gwariant Cyfalaf 2024/25	Cyllideb Flynyddol £'000	Gwariant Rhagamcanol £'000	Rhagamcanwyd (Tan) / Gor Wariant Rhagamcanol £'000
Cronfa'r Cyngor	42,904	36,384	(6,520)
Tai - CRT	29,573	30,596	1,023
Cyfanswm	72,477	66,980	(5,497)

6.1.1 Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 yn chwarter 2 oedd £72.477m. Y gwariant rhagamcanol ar gyfer 2024/25 yw £66.980m. Rhagwelir tanwariant o £6.520m ar brosiectau'r Cyngor, fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o'r tanwariant hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i 2025/26, ynghyd â'r cyllid. Rhagwelir gorwariant o £1.023m yn y CRT, a fydd yn cael ei gyllido gan y CRT.

6.2 Newidiadau o ran Cyllido'r Rhaglen Gyfalaf

6.2.1 Mae rhai newidiadau i'r modd y cyllidir y rhaglen gyfalaf, fel y gwelir yn Nhabl 6 isod, yn deillio o'r newidiadau i'r gyllideb gyfalaf a nodwyd yn 6.1.1.

6.2.2. Mae Tabl 6 isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategol y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan dynnu sylw at ddull cyllido gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwyliedig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthycy'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei ostwng yn rhannol gan daliadau referiw ar gyfer ad-dalu dyledion (Darpariaeth Refeniw Isaf - DRI). Gallai ffynhonnell y cyllid ar gyfer prosiectau hefyd newid ar ddiwedd y flwyddyn gan fod cyllid yn cael ei ddyrannu yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol i liniaru pwysau cyllido cyfalaf. Mae hyn hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ymateb i gynigion diweddarach o gyllid grant allanol lle gofynnir i'r Cyngor ddisodli'r cyllid yn y flwyddyn, ond i sicrhau bod cyllid yn y flwyddyn nesaf i gyflawni amodau'r grant sy'n cael ei gynnig.

Tabl 6
Amcangyfrif o Gyllid Gwariant Cyfalaf

Cyllid Cyfalaf	2024/25 Cyllideb Flynyddol £'000	2024/25 Amcangyfrif Diwygiedig £'000
Grantiau Cyfalaf	43,171	38,638
Derbyniadau Cyfalaf	1,032	931
Cronfeydd wrth Gefn	1,205	1,002
Cyfraniad Refeniw	15,381	15,017
Benthycy â Chefnogaeth	5,867	5,925
Benthycy Digefnogaeth	5,805	5,451
Benthyciad	16	16
Cyfanswm	72,477	66,980

6.3. Dangosydd Darbodus - Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

6.3.1 Mae Tabl 7 isod yn dangos y GCC, sef yr angen sylfaenol i fenthycha er mwyn cyllido gwariant cyfalaf. Disgwylir i'r GCC fod £15.534m yn is na'r amcangyfrif gwreiddiol a ddarparwyd yn DSRhT 2024/25. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r CRT. Disgwylir newidiadau wrth i'r DSRhT gael ei baratoi cyn i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn gael ei chwblhau. Gall prosiectau cyfalaf hefyd lithro am amryw o resymau neu deuir o hyd i gyllid arall i leihau'r swm benthycha sydd ei angen.

Tabl 7
Newid yn y Gofynion Cyllido Cyfalaf 2024/25 ar 30 Medi 2024

Dangosydd Darbodus - CCG	2024/25 Amcangyfrif Gwreiddiol £'000	2024/25 Amcangyfrif Diwygiedig £'000
GCC – Cronfa'r Cyngor	116,485	115,695
GCC – CRT	55,506	40,762
Cyfanswm GCC	171,991	156,457
Symud Net yn GCC	-	(15,534)

6.3.2 Dadansoddiad o fenthycha

Mae'r tabl uchod yn dangos mai'r GCC diwygiedig a ragwelir ar gyfer 2024/25 yw £156.457m. Y gwahaniaeth rhwng y GCC, sef faint o wariant cyfalaf a gyllidir drwy fenthycha, a'r benthycha allanol / gwirioneddol a wneir, yw'r benthycha mewnol. Dyma lle mae'r Cyngor wedi defnyddio balansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf er mwyn gohirio'r benthycha gwirioneddol cyhyd ag y bo modd, i arbed taliadau llog sy'n daladwy. Mae hyn yn unol â DSRhT 2024/25, a dyma'r dull a argymhellir gan MUFG Corporate Markets Treasury Limited, ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys y Cyngor, oherwydd effaith yr economi ar gyfraddau llog a giltiau y mae cyfraddau llog BBGC yn seiliedig arnynt. Pan fydd balansau arian parod yn mynd yn rhy isel, bydd y benthyciad hwn yn cael ei allanoli trwy gymryd benthyciadau newydd gan y BBGC. Er mwyn lleihau'r taliadau cyllido cyfalaf, mae'n debygol y byddai benthyciadau tymor byrrach yn cael eu trefnu, gan fod disgwyl i chwyddiant ostwng yn y dyfodol ynghyd â chwyddiant.

Mae Tabl 8 isod yn dangos bod y balansau benthycha allanol a benthycha mewnol yn debygol o newid yn ystod y chwarter olaf, gyda benthycha BBGC o £2.751m yn ddisgwyliedig ar gyfer y CRT. Bydd hyn ar gyfradd is ar gyfer Cyfrifon Refeniw Tai.

Tabl 8
Proffil benthycha rhwng benthycha allanol a benthycha mewnol
(defnyddio balansau arian parod)

	Y Sefyllfa Bresennol ar 30 Medi 2024 £'000	Amcangyfrif o'r GCC Diwygiedig ar 31 Mawrth 2025 £'000
Benthycha allanol	122,270	125,021
Benthycha mewnol	34,187	31,436
Ymrwymadau tymor hir eraill	-	-
Sefyllfa diwedd blwyddyn	156,457	156,457

7. DANGOSYDDION DARBODUS

- 7.1** Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn nodi nifer o ddangosyddion darbodus a therfynau awdurdodedig. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar hyn o bryd yn erbyn pob dangosydd perthnasol i'w gweld yn Nhabl 9 isod:-

Tabl 9
Dangosyddion darbodus 2024/25 ar ddiwedd Chwarter 2

DANGOSYDDION DARBODUS			
Grŵp Dangosydd	Disgrifiad	SRhT 2024/25	Sefyllfa Amcangyfrifedig ar Ddiwedd Ch2
Fforddiadwyedd	Cymhareb Costau Cyllido a Ffrwd Refeniw Net – Cronfa Gyffredinol	3.12%	3.01%
	Cymhareb Costau Cyllido a Ffrwd Refeniw Net – Cyfrif Refeniw Tai	10.38%	6.04%
Gofyniad Cyllido Cyfalaf	Cronfa'r Cyngor a'r CRT	£171.991m	156,457m
TERFYNAU AWDURDODEDIG			
Darbodrwydd	Rhaid i ddyled gros fod yn is na'r GCC plws unrhyw GCC ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd nesaf	<198.521m	122.270m
Dyled Allanol	Terfyn Awdurdodedig	< £198.521m	£122.270m
	Ffin Weithredol	< £193.521m	£122.270m
Aeddfedrwydd Dyled		Llai na 12 mis	0.178m - 0.15%
		12 mis ac o fewn 24 mis	1.105m - 0.9%
		24 mis ac o fewn 5 ml	5.595m – 4.58%
		5 ml ac o fewn 10 m	6.722m - 5.50%
		10 ml a throsodd	108.674m - 88%
	Cyfanswm Benthycia		122.270m - 100%

- 7.2** Mae'r tabl uchod yn dangos bod y dangosyddion perfformiad yn gysylltiedig â fforddiadwyedd a lefel y GCC yn well na'r rhagolygon gwreiddiol a bod pob un o fewn y terfynau awdurdodedig. Mae'r gymhareb costau cyllido a llif refeniw net ar gyfer Cronfa'r Cyngor yn llai na'r hyn a gynigwyd yn DSRhT 2024/25, sef 3.00%, yn yr un modd mae'r costau cyllido cyfalaf ar gyfer y CRT hefyd yn is o lawer, sef 6.04%. Yn achos Gronfa'r Cyngor, mae hyn oherwydd bod y Cyngor wedi defnyddio benthycia mewnol cyhyd ag y bo modd i arbed taliadau llog sy'n daladwy. Mae'r CRT wedi bod yn defnyddio incwm dros ben a chronfa wrth gefn y CRT i gyllido ei raglen gyfalaf. Fodd bynnag, mae'r balansau hyn yn rhy isel erbyn hyn ac, yn fwy na thebyg, bydd rhaid i'r CRT gymryd benthyciad tymor byr yn fuan iawn oherwydd llwyddiant ei ddatblygiadau CRT, y tai a brynwyd a'r gwaith sydd angen ei wneud i gartrefi presennol i sicrhau eu bod yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC).
- 7.3** Oherwydd y lefelau llog presennol, mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio ei falansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf, yn hytrach na chymryd benthyciadau allanol, fel y trafodwyd uchod. Fodd bynnag, wrth i falensau arian parod leihau, bydd yn rhaid benthycia tua diwedd blwyddyn ariannol 2024/25 neu'n gynnar yn 2025/26. Mae'r wybodaeth ynglŷn â Dyledion Allanol yn Nhabl 9 uchod yn dangos bod rhain yn is o lawer na'r terfyn fforddiadwy, sydd yr un fath â'r terfyn awdurdodedig a'r ffin weithredol.

8. AILDREFNU DYLEDION

- 8.1** Mae'r cyfleoedd i aildrefnu dyledion wedi cynyddu'n sylweddol yn y cyfnod presennol, gan fod enillion gilt, sy'n tanategu cyfraddau BBGC a benthyciadau'r farchnad, wedi codi'n sylweddol. Cwblhawyd ymarfer, a oedd yn dangos y byddai newid benthyciadau presennol am fenthyciadau newydd yn denu disgowntiau ond, oherwydd y cyfraddau llog uwch, byddai'r llog a fyddai'n daladwy hyd nes y byddai'r benthyciadau hynny'n aeddfedu yn llawer iawn uwch ac, felly'n anfforddiadwy gan y byddai'r costau refeniw cyllido cyfalaf yn cynyddu.

9. CYDYMFFURFIO Â THERFYNAU TRYSORLYS A DARBODUS

- 9.1** Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i bennu a pharhau i adolygu'r terfynau benthycia fforddiadwy. Yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodir yn Natganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2024/25. Dywed y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ni ragwelir unrhyw anawsterau ar gyfer y flwyddyn gyfredol na'r blynyddoedd i ddod o ran cydymffurfio â'r dangosyddion hyn.
- 9.2** Mae'r holl weithrediadau rheoli'r trysorlys hefyd wedi'u cynnal yn unol ag Arferion Rheoli'r Trysorlys y Cyngor.

10. CASGLIAD

- 10.1** Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Medi 2024, mae'r Cyngor wedi mynd ati'n rhagweithiol i adneuo balansau arian dros ben mewn banciau diogel yn y DU ac awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor wedi elwa o gyfradd llog ffafriol yn ystod y cyfnod gyda £924k mewn llog i'w dderbyn ar yr adneuo hyn. Rhagwelir y bydd y llog a amcangyfrifir y gellir ei dderbyn ar gyfer y flwyddyn gyfan ar y buddsoddiadau sy'n weithredol yn ystod y cyfnod yn £1.322m. Bydd y CRT, yr ysgolion a'r sefydliadau y mae'r Cyngor yn dal cyllid ar eu rhan yn derbyn cyfran o'r llog a dderbynnir yn seiliedig ar eu balansau ar 31 Mawrth 2025, ar gyfradd llog gyfartalog o'r holl adneuo. Dylid nodi hefyd, bod balansau arian y Cyngor yn lleihau, ynghyd a chyfraddau llog, felly, efallai na fydd y llog a geir yn y dyfodol yn cyrraedd y lefelau yn 2023/24 neu 2024/25.
- 10.2** Nid yw'r Cyngor wedi gwneud cais am unrhyw fenthyciadau BBGC yn ystod y cyfnod i leihau llog sy'n daladwy a gohirio'r benthycia a nodwyd ar gyfer cyllido prosiectau cyfalaf penodol hyd nes y bydd angen. Mae'r Cyngor wedi benthycio benthyciadau di-log gan Salix ar gyfer prosiectau cyfalaf effeithlonrwydd ynni / carbon isel.
- 10.3** I grynhoi, mae safbwynt Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn parhau'n sefydlog, gyda gwell adenillon ar fuddsoddiadau na ragwelwyd a'r holl ddangosyddion darbodus yn parhau o fewn y ffiniau a'r targedau a osodwyd yn y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25. Nid oes unrhyw fenthycia allanol newydd wedi digwydd, wrth i strategaeth y Cyngor barhau i fod i ddefnyddio benthycia mewnol i gyllido gwariant cyfalaf, ond, wrth i arian wrth gefn gael ei ddefnyddio (cydbwyso'r gyllideb, lleihau balansau ysgolion, defnydd o arian wrth gefn y CRT er mwyn cyllido gwariant cyfalaf), mae lefel yr arian parod sydd ar gael yn lleihau sydd, o ganlyniad, wedi lleihau'r symiau sydd ar gael i fuddsoddi a'r lefel o fenthycia mewnol y gellir ei gefnogi. Bydd hyn yn gofyn am newid strategaeth yn y dyfodol gan y bydd angen ymgymryd â benthycia allanol ychwanegol.

AD-DALIADAU BENTHYCIADAU BBGC

Blwyddyn Ariannol	Dyddiad Ad-dalu'r Benthyciad	Cyfradd Llog %	Swm Ad-dalu £
2026/27	01/04/2026	3.67	527,601
	30/09/2026	8.63	853,800
2026/27 Cyfanswm			1,381,401
2027/28	01/04/2027	3.73	490,601
	19/08/2027	5.20	1,000,000
	30/09/2027	7.00	674,502
2027/28 Cyfanswm			2,165,103
2028/29	01/04/2028	3.80	262,440
	01/03/2029	9.50	17,135
2028/29 Cyfanswm			279,575
2029/30	01/04/2029	3.85	684,697
	09/05/2029	9.25	3,652
	06/06/2029	9.38	12,087
	01/09/2029	9.25	6,210
	30/09/2029	8.63	853,800
	06/12/2029	9.25	11,782
2029/30 Cyfanswm			1,572,228
2030/31	01/04/2030	3.91	450,706
	09/05/2030	9.38	8,462
	01/09/2030	9.75	12,901
	09/11/2030	9.75	4,628
	06/12/2030	9.75	9,622
	01/03/2031	9.25	7,140
2030/31 Cyfanswm			493,459
2031/32	01/04/2031	3.96	660,449
	30/09/2031	8.63	1,280,700
2031/32 Cyfanswm			1,941,149
2032/33	01/04/2032	4.01	314,886
	06/06/2032	9.25	25,858
	06/12/2032	9.50	32,229
	01/03/2033	9.88	1,168
2032/33 Cyfanswm			374,140
2033/34	01/04/2033	4.05	636,565
2033/34 Cyfanswm			636,565
2034/35	01/04/2034	4.09	623,834
2034/35 Cyfanswm			623,834
2035/36	01/04/2035	4.13	611,357
2035/36 Cyfanswm			611,357
2036/37	01/04/2036	4.16	599,130
2036/37 Cyfanswm			599,130
2037/38	01/04/2037	4.18	587,147
2037/38 Cyfanswm			587,147
2038/39	01/04/2038	4.20	225,467
2038/39 Cyfanswm			225,467
2039/40	15/04/2039	4.95	5,000,000
2039/40 Cyfanswm			5,000,000
2040/41	15/04/2040	4.95	3,500,000
2040/41 Cyfanswm			3,500,000

Blwyddyn Ariannol	Dyddiad Ad-dalu'r Benthyciad	Cyfradd Llog %	Swm Ad-dalu £
2042/43	01/04/2042	4.25	999,781
2042/43 Cyfanswm			999,781
2043/44	01/04/2043	4.25	1,020,120
2043/44 Cyfanswm			1,020,120
2044/45	01/04/2044	4.25	1,009,718
2044/45 Cyfanswm			1,009,718
2045/46	01/04/2045	4.25	11,464,215
2045/46 Cyfanswm			11,464,215
2050/51	16/01/2051	4.15	2,000,000
2050/51 Cyfanswm			2,000,000
2052/53	19/05/2052	4.05	5,000,000
	12/10/2052	4.55	4,300,000
	09/11/2052	4.55	6,138,400
	20/11/2052	4.20	6,800,000
	11/12/2052	4.25	6,000,000
2052/53 Cyfanswm			28,238,400
2054/55	06/05/2054	8.38	3,000,000
2054/55 Cyfanswm			3,000,000
2055/56	15/11/2055	8.00	1,500,000
	15/12/2055	7.88	2,000,000
2055/56 Cyfanswm			3,500,000
2056/57	15/04/2056	7.13	3,000,000
	10/10/2056	7.88	2,000,000
2056/57 Cyfanswm			5,000,000
2057/58	15/04/2057	7.13	6,000,000
	15/10/2057	6.50	2,512,854
2057/58 Cyfanswm			8,512,854
2059/60	22/06/2059	4.25	1,763,308
2059/60 Cyfanswm			1,763,308
2064/65	25/03/2065	2.24	10,000,000
2064/65 Cyfanswm			10,000,000
2066/67	30/03/2067	2.20	6,200,000
2066/67 Cyfanswm			6,200,000
2068/69	16/01/2069	2.49	15,000,000
2068/69 Cyfanswm			15,000,000
Cyfanswm			117,698,952

AD-DALIADAU BENTHYCIADAU SALIX

Blwyddyn ariannol	Ad-daliadau Benthyciadau Salix £000
2024/25	178
2025/26	577
2026/27	531
2027/28	531
2028/29	531
2029/30	455
2030/31	441
2031/32	441
2032/33	221
2033/34	221
2034/35	221
2035/36	221
Cyfanswm	4,571

Economic Update & Forecasts – produced by Link Group

- The second quarter of 2024 (July to September) saw:
 - GDP growth stagnating in July following downwardly revised Q2 figures (0.5% q/q)
 - A further easing in wage growth as the headline 3myy rate (including bonuses) fell from 4.6% in June to 4.0% in July;
 - CPI inflation hitting its target in June before edging above it to 2.2% in July and August;
 - Core CPI inflation increasing from 3.3% in July to 3.6% in August;
 - The Bank of England initiating its easing cycle by lowering interest rates from 5.25% to 5.0% in August and holding them steady in its September meeting;
 - 10-year gilt yields falling to 4.0% in September.
- The economy's stagnation in June and July points more to a mild slowdown in GDP growth than a sudden drop back into a recession. Moreover, the drop in September's composite activity Purchasing Managers Index, from 53.8 in August to 52.9, was still consistent with GDP growth of 0.3%-0.4% for the summer months. This is in line with the Bank of England's view, and it was encouraging that an improvement in manufacturing output growth could be detected, whilst the services PMI balance suggests non-retail services output grew by 0.5% q/q in Q3. Additionally, the services PMI future activity balance showed an uptick in September, although readings after the Chancellor's announcements at the Budget on 30th October will be more meaningful.
- The 1.0% m/m jump in retail sales in August was stronger than the consensus forecast for a 0.4% m/m increase. The rise was reasonably broad based, with six of the seven main sub sectors recording monthly increases, though the biggest gains came from clothing stores and supermarkets, which the ONS reported was driven by the warmer-than-usual weather and end of season sales. As a result, some of that strength is probably temporary.
- The government's plans to raise public spending by around £16bn a year (0.6% GDP) have caused concerns that a big rise in taxes will be announced in the Budget, which could weaken GDP growth in the medium-term. However, if taxes are raised in line with spending (i.e., by £16bn) that would mean the overall stance of fiscal policy would be similar to the previous government's plan to reduce the budget deficit. Additionally, rises in public spending tend to boost GDP by more than increases in taxes reduce it. Our colleagues at Capital Economics suggest GDP growth will hit 1.2% in 2024 before reaching 1.5% for both 2025 and 2026.
- The further easing in wage growth will be welcomed by the Bank of England as a sign that labour market conditions are continuing to cool. The 3myy growth rate of average earnings fell from 4.6% in June to 4.0% in July. On a three-month annualised basis, average earnings growth eased from 3.0% to 1.8%, its lowest rate since December 2023. Excluding bonuses, the 3myy rate fell from 5.4% to 5.1%.
- Other labour market indicators also point to a further loosening in the labour market. The 59,000 fall in the alternative PAYE measure of the number of employees in August marked the fourth fall in the past five months. And the 77,000 decline in the three months to August was the biggest drop since November 2020. Moreover, the number of workforce jobs fell by 28,000 in Q2. The downward trend in job vacancies continued too. The number of job vacancies fell from 872,000 in the three months to July to 857,000 in the three months to August. That leaves it 34% below its peak in May 2022, and just 5% above its pre-pandemic level. Nonetheless, the Bank of England is still more concerned about the inflationary influence of the labour market rather than the risk of a major slowdown in labour market activity.
- CPI inflation stayed at 2.2% in August, but services inflation rose from a two-year low of 5.2% in July to 5.6%, significantly above its long-run average of 3.5%. Food and fuel price inflation exerted some downward pressure on CPI inflation, but these were offset by the upward effects from rising furniture/household equipment inflation, recreation/culture inflation and a surprisingly large rise in airfares inflation from -10.4% in July to +11.9% in August. As a result, core inflation crept back up from 3.3% to 3.6%. CPI inflation is also expected to rise in the coming months, potentially reaching 2.9% in November, before declining to around 2.0% by mid-2025.

- The Bank initiated its loosening cycle in August with a 25bps rate cut, lowering rates from 5.25% to 5.0%. In its September meeting, the Bank, resembling the ECB more than the Fed, opted to hold rates steady at 5.0%, signalling a preference for a more gradual approach to rate cuts. Notably, one Monetary Policy Committee (MPC) member (Swati Dhingra) voted for a consecutive 25bps cut, while four members swung back to voting to leave rates unchanged. That meant the slim 5-4 vote in favour of a cut in August shifted to a solid 8-1 vote in favour of no change.
- Looking ahead, CPI inflation will likely rise in the coming months before it falls back to its target of 2.0% in mid-2025. The increasing uncertainties of the Middle East may also exert an upward pressure on inflation, with oil prices rising in the aftermath of Iran's missile attack on Israel on 1 October. China's recent outpouring of new fiscal support measures in the latter stages of September has also added to the upshift in broader commodity prices, which, in turn, may impact on global inflation levels and thus monetary policy decisions. Despite these recent developments, our central forecast is still for rates to fall to 4.5% by the end of 2024 with further cuts likely throughout 2025. This is in line with market expectations, however, although a November rate cut still looks likely, December may be more problematic for the Bank if CPI inflation spikes towards 3%. In the second half of 2025, though, we think a more marked easing in inflation will prompt the Bank to speed up, resulting in rates eventually reaching 3.0%, rather than the 3.25-3.50% currently priced in by financial markets.
- Our forecast is next due to be updated around mid-November following the 30 October Budget, 5 November US presidential election and the 7 November MPC meeting and the release of the Bank of England Quarterly Monetary Policy Report.
- Looking at gilt movements in the first half of 2024/25, and you will note the 10-year gilt yield declined from 4.32% in May to 4.02% in August as the Bank's August rate cut signalled the start of its loosening cycle. Following the decision to hold the Bank Rate at 5.0% in September, the market response was muted, with the 10-year yield rising by only 5bps after the announcement. This likely reflected the fact that money markets had priced in a 25% chance of a rate cut prior to the meeting. The yield had already increased by about 10bps in the days leading up to the meeting, driven in part by the Fed's "hawkish cut" on 18 September. There is a possibility that gilt yields will rise near-term as UK policymakers remain cautious due to persistent inflation concerns, before declining in the longer term as rates fall to 3.0%.
- The FTSE 100 reached a peak of 8,380 in the third quarter of 2024, but its performance is firmly in the shade of the US S&P500, which has breached the 5,700 threshold on several occasions recently. Its progress, however, may pause for the time being whilst investors wait to see who is elected the next US President, and how events in the Middle East (and Ukraine) unfold. The catalyst for any further rally (or not) is likely to be the degree of investors' faith in AI.

MPC meetings: 9 May, 20 June, 1 August, 19 September 2024

- On 9 May, the Bank of England's Monetary Policy Committee (MPC) voted 7-2 to keep Bank Rate at 5.25%. This outcome was repeated on 20th June.
- However, by the time of the August meeting, there was a 5-4 vote in place for rates to be cut by 25bps to 5%. However, subsequent speeches from MPC members have supported Governor Bailey's tone with its emphasis on "gradual" reductions over time.
- Markets thought there may be an outside chance of a further Bank Rate reduction in September, following the 50bps cut by the FOMC, but this came to nothing.
- Nonetheless, November still looks most likely to be the next month to see a rate cut to 4.75% but, thereafter, inflation and employment data releases, as well as geo-political events, are likely to be the determinant for what happens in the remainder of 2024/25 and into 2025/26.


INTEREST RATE FORECASTS AND PWLB RATES – PRODUCED BY LINK GROUP


The Authority has appointed Link Group as its treasury advisors and part of their service is to assist the Authority to formulate a view on interest rates. The PWLB rate forecasts below are based on the Certainty Rate (the standard rate minus 20 bps) which has been accessible to most authorities since 1 November 2012.

Our latest forecast on 28 May sets out a view that short, medium and long-dated interest rates will fall back over the next year or two, although there are upside risks in respect of the stickiness of inflation and a continuing tight labour market, as well as the size of gilt issuance.

Our PWLB rate forecasts below are based on the Certainty Rate (the standard rate minus 20 bps, calculated as gilts plus 80bps) which has been accessible to most authorities since 1 November 2012.

Link Group Interest Rate View	28.05.24									
	Dec-24	Mar-25	Jun-25	Sep-25	Dec-25	Mar-26	Jun-26	Sep-26	Dec-26	Mar-27
BANK RATE	4.50	4.00	3.50	3.25	3.25	3.25	3.25	3.00	3.00	3.00
3 month ave earnings	4.50	4.00	3.50	3.30	3.30	3.30	3.30	3.00	3.00	3.00
6 month ave earnings	4.40	3.90	3.50	3.30	3.30	3.30	3.30	3.10	3.10	3.20
12 month ave earnings	4.30	3.80	3.50	3.40	3.40	3.40	3.40	3.20	3.30	3.40
5 yr PWLB	4.50	4.30	4.10	4.00	3.90	3.90	3.90	3.90	3.90	3.80
10 yr PWLB	4.60	4.40	4.30	4.10	4.10	4.10	4.00	4.00	4.00	3.90
25 yr PWLB	5.00	4.80	4.70	4.50	4.50	4.40	4.40	4.40	4.30	4.30
50 yr PWLB	4.80	4.60	4.50	4.30	4.30	4.20	4.20	4.20	4.10	4.10





HIGH/LOW/AVERAGE PWLB RATES FOR 02.04.24 – 30.09.24

	1 Year	5 Year	10 Year	25 Year	50 Year
02/04/2024	5.39%	4.72%	4.80%	5.28%	5.07%
30/09/2024	4.95%	4.55%	4.79%	5.33%	5.13%
Low	4.78%	4.31%	4.52%	5.08%	4.88%
Low date	17/09/2024	17/09/2024	17/09/2024	17/09/2024	17/09/2024
High	5.61%	5.14%	5.18%	5.61%	5.40%
High date	29/05/2024	01/05/2024	01/05/2024	01/05/2024	01/05/2024
Average	5.21%	4.76%	4.88%	5.35%	5.14%
Spread	0.83%	0.83%	0.66%	0.53%	0.52%

- The current PWLB rates are set as margins over gilt yields as follows: -
 - PWLB Standard Rate** is gilt plus 100 basis points (G+100bps)
 - PWLB Certainty Rate (GF)** is gilt plus 80 basis points (G+80bps)
 - PWLB Local Infrastructure Rate** is gilt plus 60 basis points (G+60bps)
 - PWLB Certainty Rate (HRA)** is gilt plus 40bps (G+40bps)
- The **UK Infrastructure Bank** will lend to local authorities that meet its scheme criteria at a rate currently set at gilt plus 40bps (G+40bps).

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	18 CHWYFROR 2025
Pwnc:	FFIOEDD A THALIADAU 2025/26
Aelod(au) Portffolio:	CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DIRPWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A TAI
Pennaeth Gwasanaeth:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad; Ffôn: E-bost::	BETHAN OWEN – RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG (01248) 752663 BethanOwen2@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau	
ARGYMHELLION A RHESYMAU Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, bydd holl ffioedd a thaliadau'r Cyngor yn cael eu hadolygu. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod amcan fod yr holl ffioedd a thaliadau yn cynyddu 3% ar gyfartaledd ar draws pob gwasanaeth unigol. Mae hyn wedi galluogi Penaethiaid Gwasanaeth i gynyddu ffioedd unigol o fwy neu lai na 3% ond, yn gyffredinol, mae'r cynnydd ar draws y gwasanaeth yn cyd-fynd â chynnydd o 3%. Mae'r holl ffioedd statudol wedi eu cynyddu yn ôl y swm a osodir gan y corff cymeradwyo, lle mae'r cynnydd wedi ei gyhoeddi. Lle nad yw'r taliad diwygiedig yn hysbys, dangosir y ffi fel 'i'w gadarnhau' a bydd yn cael ei ddiweddarau unwaith y bydd gwybodaeth am y ffi newydd yn cael ei dderbyn. Mae'r cynnydd mewn ffioedd Gofal Cymdeithasol yn cael eu hadrodd amynt i'r Pwyllgor Gwaith fel eitemau agenda ar wahân. ARGYMHELLIAD Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r rhestr Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2025/26, fel a amlinellir yn y llyfryn isod.	
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
Ystyriodd Gwasanaethau unigol wahanol lefelau o ffioedd er mwyn cyflawni'r gofyniad o gynydd o 3% yn y lefel gyffredinol o ffioedd anstatudol ar gyfer y gwasanaeth.	
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
Y Pwyllgor Gwaith sydd ag awdurdod wedi'i ddirprwyo ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â ffioedd a thaliadau.	
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?	
Ydi	
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?	
Ydi	

DD – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Defnyddir yr adroddiad ynghyd ag adroddiadau eraill i bennu'r gyllideb flynyddol. Wrth bennu'r gyllideb flynyddol, bydd yr effaith ar anghenion hirdymor yr Ynys yn cael ei hasesu.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?	Mae'r cynnydd mewn ffioedd a thaliadau wedi'i uwchraddio i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau wrth ddarparu'r gwasanaethau.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses pennu cyllideb 2025/26, ac ymgynghorir â hwy ar gyllidebau'r dyfodol.
5	Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg.	Mae'r penderfyniad yn uwchraddio ffioedd a thaliadau yn flynyddol ac nid yw'n newid polisi mewn unrhyw faes. Mae taliadau'n berthnasol i holl ddefnyddwyr gwasanaethau Ynys Môn ac nid ydynt yn targedu nac yn eithrio grwpiau gwarchodedig yn benodol rhag y cynnydd mewn ffioedd a thaliadau.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.	Amherthnasol
E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r adroddiad wedi ei ystyried gan y TA yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2025 ac mae'r sylwadau wedi eu hymgorffori i mewn i'r adroddiad.
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Amherthnasol
7	Sgriwtini	Amherthnasol
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / arall	Amherthnasol
F – Atodiadau:		
Atodiad A – Rhestr Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2025/26		
FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Cyllideb Refeniw 2025/26 (i'w mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 6 Mawrth 2025).		



Ffioedd a Thaliadau

Ebrill 2025

Cynnwys

Gwasanaethau Cymdeithasol

Gofal Cymdeithasol Oedolion

Gwasanaethau Tai

Tai

Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

Addysg

Llyfrgelloedd a Diwylliant

Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

Gwarchod y Cyhoedd

Cynllunio

Canolfan Fusnes Môn

Hamdden

Cyrchfan

Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

Priffyrdd

Rheoli Gwastraff

Neuadd y Farchnad Caergybi

Busnes y Cyngor

Cyfreithiol

Nodiadau

1. Cyfnod Perthnasol

1.1 Mae'r holl ffioedd a thaliadau o'r dyddiad penodedig (yn gynhwysol) oni bai y nodir fel arall.

2. TAW

2.1 Mae'r holl ffioedd a thaliadau yn cynnwys TAW (TAW yn amodol i newid), oni bai y nodir fel arall.

2.2 Allwedd i Ddangosyddion TAW

- S** - TAW i'w dalu ar y Gyfradd Safonol (20%, amodol i newid)
- Z** - Cyfradd sero
- E** - Eithriwyd o TAW
- O/S** - Tu allan i gwmpas TAW / Ddim yn fusnes
- D/B** - Amherthnasol

2.3 Gall statws TAW fod yn ddarostyngedig i newid yn ystod y flwyddyn.

2.4 Nid yw taliadau rhwng gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys TAW.

Gofal Cymdeithasol Oedolion

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Gofal Preswyl yng Nghartrefi'r Awdurdod ar gyfer Pobl Hyn		
Tâl safonol (ar gyfer preswylwyr sydd hefo'r modd ariannol i dalu'r gost lawn)	£983.86 yr wythnos	O/S
Tâl safonol EMI (ar gyfer preswylwyr sydd hefo'r modd ariannol i dalu'r gost lawn)	£1,046.41 yr wythnos	O/S
Gofal Cartref		
Uchafswm Tâl Wythnosol sy'n berthnasol wrth godi tâl dibreswyl (mae'r uchafswm ffi yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru)	£100.00 ¹	O/S
Prydau yng Ngwasanaethau Dydd		
(Yn berthnasol i'r holl brydau a lluniaeth a ddarperir ym mhob lleoliad Gwasanaeth Dydd)		
Prydau yng Ngwasanaethau Dydd ar gyfer oedolion (ac eithrio pobl hefo anableddau dysgu)	£7.80	O/S (S yw prydau a ddarparwyd i bersonau sydd heb dderbyn asesiad Gwasanaethau Cymdeithasol)
Byrbryd canol dydd yng Ngwasanaethau Dydd ar gyfer pobl hefo anableddau dysgu	£3.30	
Lluniaeth arall (te/coffi/teisen) yng Ngwasanaethau Dydd	£1.85	
Gwasanaethau Teleofal		
Haen 1 – Offer Digidol, Gwasanaeth a Cynnal a Chadw (uned, pendant a larwm mwg)	£78.00 y chwarter £6.00 yr wythnos	Os darparwyd fel rhan o becyn gofal – O/S Os darparwyd i'r anabl – Z Os darparwyd i'r henoed ddim fel rhan o becyn gofal, neu i drydydd barti (e.e. Cymdeithasau Tai) – S
Haen 2 – Offer Digidol, Gwasanaeth a Cynnal a Chadw (uned, pendant a larwm mwg)	£153.40 y chwarter £11.80 yr wythnos	
Gwasanaeth a Cynnal a Chadw (blynyddol)	£142.50	
Gwasanaethau'n unig (blynyddol)	£91.50	
Costau Gosod unwaith ac am byth (blynyddol)	£57.00	
Cyfradd Taliadau Uniongyrchol fesul awr	£16.80	
Bathodynau Glas (sefydliadol ac amnewid (colli/dwyn))	£10.00	O/S

¹ £100 ar hyn o bryd, ond mi fydd yn newid yn unol ag unrhyw newid i'r uchafswm a osodir gan Lywodraeth Cymru.

Tai

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Ffioedd Troi Tai'n Gartrefi		
Hyd at £50,000	£345.00	O/S
Dros £50,000	£445.00	O/S
Cynllun Benthyciad i Wella Cartrefi	£500.00	O/S
Rhenti Garejys*	£11.02	Amrywiol
Ffioedd*		
1 Llofft – Tŷ/Byngalo	£104.21	Amrywiol
2 Llofft – Tŷ/Byngalo	£115.78	
3 Llofft – Tŷ/Byngalo	£127.39	
4 Llofft – Tŷ/Byngalo	£138.93	
5+ Llofft – Tŷ/Byngalo	£150.51	
1 Llofft – Fflat	£94.28	
2 Llofft – Fflat	£104.76	
3 Llofft – Fflat	£115.24	
4+ Llofft – Fflat	£125.70	
Fflat un ystafell	£83.80	
Cais i ofyn am orfodi gorchymyn	£255.00	
Ffi Llys	£391.00	
Warant	£143.00	
Ail-gyhoeddi Gwarant	Dim tâl	
Taliadau Gwasanaeth mewn Anheddau*		
Glanhau ardaloedd cymunedol	£4.57 - £12.72	O/S os mewn perthynas â phrydles tŷ Cyngor, ac E am brydlesau arall
Cynnal a chadw lifftiau	£0.23 - £2.89	
Erialau mewn ardaloedd cymunedol	£0.20	
Gwresogi a goleuadau mewn ardaloedd cymunedol	£1.68	
Larymau tân ac offer tân	£2.10	
Systemau mynediad	£0.25	
Taliadau Carthffosiaeth	£4.47	
Cynnal a chadw tiroedd (eiddo domestig)	£5.75 (tâl 6 misol)	
Cynnal a chadw tiroedd (eiddo gwarchod)	£0.15 - £3.23	
Ffi rheoli	15% o'r tâl gwasanaeth	

* Ar sail 51 wythnos

Addysg

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Prydau Ysgol		
Disgyblion		
Ysgolion cynradd (plant sydd ddim wedi eu cynnwys o dan y cynllun Prydau Ysgol am ddim i Ysgolion Cynradd)	£3.60	O/S
Ysgolion uwchradd	£2.95	O/S
Staff ac ymwelwyr		
Ysgolion Cynradd	£4.30	S
Ysgolion Uwchradd	£3.60	S
Gofal cyn y Clwb Brecwast		
30 munud o ofal cyn y clwb brecwast	£1.65 y plentyn	E
Bysus Ysgol:		
Dros 16 Oed	Dim tâl	O/S
Dan 3 milltir		O/S
Allan o'r dalgylch		O/S
Ffi Bws Coleg		
Taliadau Eraill		
Llungopïau	£0.20 y ddalen	S
Defnydd o Gaeau Chwaraeon		
Aelodau		
Ffi Gêm	£45.00	E

Llyfrgelloedd a Diwylliant

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Amgueddfeydd a Diwylliant		
Oriel Môn		
Comisiwn ar werthiant	35%	Amrywiol
Llogi Ystafelloedd Prif Oriel Gelf neu Galeri Oriel Kyffin Williams (nosweithiau yn unig 5-11yh)		
Yr Awr	£88.00 yr awr	E
Noson Lawn (5-11yh)	£475.00	E
Ystafell Tunncliffe:		
Yr Awr	£23.00	E
Hanner Diwrnod (3.5 awr)	£70.00	E
Diwrnod Llawn (7 awr)	£130.00	E
Yr awr gyda'r nos (5-11yh)	£50.00	E
Noson Lawn (5-11yh)	£216.00	E
Copiau Digidol (anfonwyd drwy e-bost / trosglwyddo ffeil)		
Delwedd Gyntaf	£5.00 y ddelwedd	S
Delweddau Dilynol	£3.00 y ddelwedd	S
Ymchwil		
Gwasanaeth Ymchwil a Thâl (isafswm o 1 awr i bob cais)	£30.00 yr awr	S
Ffilmio yn Oriel Môn a safleoedd (Pris ar Gais)		
Yr Awr – (uchafswm o 3 awr)	£46.00	S
Hanner Diwrnod - (3.5 awr)	£149.00	S
Diwrnod Llawn (7 awr)	£288.00	S
Atgynhyrchu Delweddau – Llyfrau a Chyfnodolion		
Atgynhyrchu mewn llyfrau a chyfnodolion (yn cynnwys defnydd addysgol)	£32.00	S
Atgynhyrchu mewn arddangosfeydd (anfasnachol)	£50.40	S
Atgynhyrchu ar gyfer defnydd masnachol e.e. marchnata	£140.00	S
Defnydd ysgolion – heb hyfforddwyr (30 munud)		
Neuadd lawn	£22.00	O/S
Hanner neuadd	£16.00	O/S
Neuadd lawn – Ysgolion tu allan i Fôn	£27.50	O/S
Hanner Neuadd – Ysgolion tu allan i Fôn	£20.00	O/S
Llogi Ystafelloedd		
Ystafell Gyfarfod Fach ar gyfer Gweithgareddau (aelod - oedolyn)	£18.50	E
Ystafell Gyfarfod Fach ar gyfer Gweithgareddau (di-aelod - oedolyn)	£23.50	E
Ystafell Gyfarfod (aelod - oedolyn)	£16.50	E
Ystafell Gyfarfod (di-aelod - oedolyn)	£20.50	E
Llogi 4 awr olynol (aelod - oedolyn)	£52.00	E
Llogi 4 awr olynol (di-aelod - oedolyn)	£65.00	E
Diwrnod llawn (aelod - oedolyn)	£102.00	E
Diwrnod llawn (di-aelod - oedolyn)	£127.00	E
Ystafell ffitrwydd / ystafell codi pwysau		
Anwythiad (aelod - oedolyn)	£14.00	O/S
Anwythiad (aelod - consesiynau)	£10.00	O/S
Anwythiad (di-aelod - oedolyn)	£17.00	O/S
Anwythiad (di-aelod - consesiynau)	£12.50	O/S
Ystafell Ffitrwydd a Phwysau (di-aelod - oedolyn)	£8.30	O/S
Ystafell Ffitrwydd a Phwysau (aelod - oedolyn)	£6.80	O/S
Ystafell Ffitrwydd a Phwysau (aelod – 11-17 a 60+ oed)	£5.30	O/S
Ystafell Ffitrwydd a Phwysau (di-aelod – 11-17 a 60+ oed)	£6.30	O/S
Sesiynau ystafell ffitrwydd ieuencid ar ôl ysgol	£2.30	O/S
Defnydd Unigol		
Tocyn wythnosol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (aelod - oedolyn)	£14.00	E
Tocyn wythnosol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (di-aelod - oedolyn)	£17.00	E
Tocyn wythnosol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (aelod - consesiynau)	£10.00	E
Tocyn wythnosol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (di-aelod - consesiynau)	£12.50	E
Tocyn misol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (aelod - oedolyn)	£37.00	E
Tocyn misol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (di-aelod - oedolyn)	£45.00	E
Tocyn misol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (aelod - consesiynau)	£29.50	E
Tocyn misol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (di-aelod - consesiynau)	£34.50	E
Tocyn Wythnosol (CHDH) – Ystafell Ffitrwydd yn unig (aelod - oedolyn)	£13.00	E
Tocyn Wythnosol (CHDH) – Ystafell Ffitrwydd yn unig (di-aelod - oedolyn)	£14.00	E
Tocyn Wythnosol (CHDH) – Ystafell Ffitrwydd yn unig (aelod - consesiynau)	£10.00	E
Tocyn Wythnosol (CHDH) – Ystafell Ffitrwydd yn unig (di-aelod - consesiynau)	£10.50	E
Hyfforddiant Ffitrwydd ieuencid 14-17 oed - gyda hyfforddwr yn bresennol (aelod)	£4.20	O/S
Hyfforddiant Ffitrwydd ieuencid 14-17 oed - gyda hyfforddwr yn bresennol (di-aelod)	£5.20	O/S

Debyd Uniongyrchol - Pob Canolfan Hamdden		
Pecyn Llawn	£32.50	O/S
Pecyn Oriau Tawel	£22.50	O/S
Gwersi Nofio	£19.60	O/S
Pecyn Nofio o dan 18	£11.00	O/S
Pecyn Ieuencid	£18.50	O/S
Ystafell Ffitrwydd a Nofio	£26.50	O/S
Hyfforddiant Personol	£70.00	E
Pecyn Corfforaethol	£27.50	O/S
Pecynnau Aelodaeth Blynnyddol		
Pecyn Llawn	£325.00	O/S
Pecyn Oriau Tawel	£225.00	O/S
Pecyn Ieuencid	£185.00	O/S
Ystafell Ffitrwydd a Nofio	£265.00	O/S
Tâl gweinyddol na ellir ei ad-dalu am godi bil	£6.70	S
Ymarfer trwy Wahoddiad		
Ddim yn aciwt	£3.00	E
Sesiynau a Chyrsiau - Ochr Sych		
Sesiwn Ffitrwydd (30 mun) (aelod - oedolyn)	£5.20	O/S
Sesiwn Ffitrwydd (30 mun) (aelod - consesiynau)	£4.20	O/S
Sesiwn Ffitrwydd (30 mun) (di-aelod - oedolyn)	£6.20	O/S
Sesiwn Ffitrwydd (30 mun) (di-aelod - consesiynau)	£5.20	O/S
Sesiwn Ffitrwydd (1 awr) (aelod - oedolyn)	£6.70	O/S
Sesiwn Ffitrwydd (1 awr) (aelod - consesiynau)	£5.70	O/S
Sesiwn Ffitrwydd (1 awr) (di-aelod - oedolyn)	£8.70	O/S
Sesiwn Ffitrwydd (1 awr) (di-aelod - consesiynau)	£6.60	O/S
Cwrs Gymnasteg (45 munud) (aelod – iau)	£6.00	O/S
Cwrs Gymnasteg (45 munud) (di-aelod – iau)	£8.00	O/S
Hyfforddiant Personol 1:1 (aelod - oedolyn)	£14.50	E
Hyfforddiant Personol 1:1 (aelod - consesiynau)	£13.00	E
Hyfforddiant Personol 1:1 (di-aelod - oedolyn)	£17.50	E
Hyfforddiant Personol 1:1 (di-aelod - consesiynau)	£16.00	E
Hyfforddiant Personol 1:2 (aelod - oedolyn)	£19.50	E
Hyfforddiant Personol 1:2 (aelod - consesiynau)	£18.50	E
Hyfforddiant Personol 1:2 (di-aelod - oedolyn)	£24.50	E
Hyfforddiant Personol 1:2 (di-aelod - consesiynau)	£22.50	E
Gweithgareddau i Blant (aelod)	£3.50	O/S
Gweithgareddau i Blant (di-aelod)	£4.50	O/S
Cyrsiau Datblygu Chwaraeon (aelod consesiynau)	£4.50	O/S
Cyrsiau Datblygu Chwaraeon (di-aelod consesiynau)	£5.00	O/S
Camp chwaraeon (y plentyn, y dydd)	£16.00	O/S
Nofio		
Nofio cyhoeddus (y sesiwn) (aelod - oedolyn)	£5.20	O/S
Nofio cyhoeddus (y sesiwn) (aelod - consesiynau)	£3.70	O/S
Nofio cyhoeddus (y sesiwn) (di-aelod - oedolyn)	£6.70	O/S
Nofio cyhoeddus (y sesiwn) (di-aelod - consesiynau)	£4.70	O/S
Nofio cyhoeddus i blant sy'n cael gwersi Debyd Uniongyrchol	£1.00	E
Tocyn wythnosol (aelod - oedolyn)	£11.00	O/S
Tocyn wythnosol (aelod - consesiynau)	£8.00	O/S
Tocyn wythnosol (di-aelod - oedolyn)	£14.00	O/S
Tocyn wythnosol (di-aelod - consesiynau)	£10.50	O/S
Teulu - tocyn nofio dyddiol (aelod)	£12.50	O/S
Teulu - tocyn nofio dyddiol (di-aelod)	£15.50	O/S
Teulu - tocyn nofio wythnosol (aelod)	£23.50	O/S
Teulu - tocyn nofio wythnosol (di-aelod)	£29.00	O/S
Nofio (o dan 3)	Am ddim	D/B
Gwersi (30 munud) (aelod - oedolyn)	£6.60	E
Gwersi (30 munud) (aelod - consesiynau)	£6.10	E
Gwersi (30 munud) (di-aelod - oedolyn)	£8.10	E

Gwersi (30 munud) (di-aelod - consesiynau)	£7.60	E
Gwersi preifat un i un (30 munud) (aelod - oedolyn)	£23.50	E
Gwersi preifat un i un (30 munud) (aelod - consesiynau)	£20.00	E
Gwersi preifat un i un (30 munud) (di-aelod - oedolyn)	£29.00	E
Gwersi preifat un i un (30 munud) (di-aelod - consesiynau)	£24.50	E
Gwersi preifat un i ddau (30 munud) (aelod - oedolyn)	£32.00	E
Gwersi preifat un i ddau (30 munud) (aelod - consesiynau)	£27.00	E
Gwersi preifat un i ddau (30 munud) (di-aelod - oedolyn)	£44.50	E
Gwersi preifat un i ddau (30 munud) (di-aelod - consesiynau)	£37.50	E
Defnydd Clwb Nofio Ynys Môn	£34.00	E
Clwb Nofio Ynys Môn - Llogi Lôn	£13.00	E
Defnydd Neilltuedig o'r prif bwll (aelod)	£80.00	O/S
Defnydd Neilltuedig o'r prif bwll (di-aelod)	£99.00	O/S
Defnydd Neilltuedig o'r pwll dysgu (aelod)	£42.00	O/S
Defnydd Neilltuedig o'r pwll dysgu (di-aelod)	£51.50	O/S
Llogi lôn (aelod)	£18.50	O/S
Llogi lôn (di-aelod)	£22.50	O/S
Achubwr bywyd pwll (aelod)	£270.00	E
Achubwr bywyd pwll (di-aelod)	£325.00	E
Achubwr bywyd pwll – ail-eistedd (aelod)	£65.00	E
Achubwr bywyd pwll – ail-eistedd (di-aelod)	£80.00	E
Nofio - defnydd ysgolion - 1 hyfforddwr fesul dosbarth wedi ei gynnwys (30 munud)		
Dosbarth hyd at 30 o blant (angen 2 hyfforddwr)	£40.00	E
Dosbarth o 31 - 52 o blant (angen 3 hyfforddwr)	£44.00	E
Hyfforddwr ychwanegol	£16.00	E
Cyfleusterau Awyr Agored		
Ffi Gêm (aelod - oedolyn)	£110.00	O/S
Ffi Gêm (aelod - consesiynau)	£89.00	O/S
Ffi Gêm (di-aelod - oedolyn)	£136.00	O/S
Ffi Gêm (di-aelod - consesiynau)	£110.00	O/S
Hanner cae 3G (CHPA) (aelod - oedolyn)	£50.00	O/S
Hanner cae 3G (CHPA) (aelod - consesiynau)	£40.00	O/S
Hanner cae 3G (CHPA) (di-aelod - oedolyn)	£61.50	O/S
Hanner cae 3G (CHPA) (di-aelod - consesiynau)	£49.00	O/S
Traean cae 3G (CHPA) (aelod - oedolyn)	£40.00	O/S
Traean cae 3G (CHPA) (aelod - consesiynau)	£30.00	O/S
Traean cae 3G (CHPA) (di-aelod - oedolyn)	£50.00	O/S
Traean cae 3G (CHPA) (di-aelod - consesiynau)	£37.00	O/S
Cae llawn 3G (CHPA) (aelod - oedolyn)	£81.00	O/S
Cae llawn 3G (CHPA) (aelod - consesiynau)	£61.00	O/S
Cae llawn 3G (CHPA) (di-aelod - oedolyn)	£101.00	O/S
Cae llawn 3G (CHPA) (di-aelod - consesiynau)	£75.00	O/S
Cyrtiau Allanol (CHA / Ysgol David Hughes) (aelod - oedolyn)	£38.00	O/S
Cyrtiau Allanol (CHA / Ysgol David Hughes) (aelod - consesiynau)	£29.50	O/S
Cyrtiau Allanol (CHA / Ysgol David Hughes) (di-aelod - oedolyn)	£45.00	O/S
Cyrtiau Allanol (CHA / Ysgol David Hughes) (di-aelod - consesiynau)	£34.50	O/S
Tenis - cost y cwrt (aelod - oedolyn)	£9.70	O/S
Tenis - cost y cwrt (aelod - consesiynau)	£6.30	O/S
Tenis - cost y cwrt (di-aelod - oedolyn)	£12.20	O/S
Tenis - cost y cwrt (di-aelod - consesiynau)	£7.70	O/S
Llogi Offer		
Pêl / Raced	£2.00	O/S

Cyrchfan

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Pier St. George – Porthaethwy		
Angori yn y pier ac angorfeydd ymwelwyr (pob nos)	£22.00	S
Cyflenwad dŵr croyw – cychod bach	Dim tâl	D/B
Cyflenwad dŵr croyw - llongau dros 15 tunnell	£10.00 y dunnell o ddŵr	S
Trwydded Parcio Car (blynyddol)	£125.00	S
Trwydded Parcio Car (misol)	£40.00	S
Trwydded Parcio Car (wythnosol)	£20.00	S
Golau mordwyo dyledus (Masnachol)	£0.45 y dunnell	S
Angori parhaol ar y pier (dyraniad ar sail achos busnes)	£2,520.00 y flwyddyn	S
Angori parhaol ar y pier (dyraniad ar sail achos busnes)	£250.00 y mis gyda chytundeb y Harbwrfeistr	S
Pier Biwmares		
Angori yn y pier (pob nos)	£22.00	S
Cyflenwad dŵr croyw – cychod bach	Dim tâl	D/B
Cyflenwad dŵr croyw - llongau dros 15 tunnell	£10.00 y dunnell o ddŵr	S
Trwydded ar gyfer y Ciosg Docynnau (Tymhorol – 1 ^{af} Mawrth – 31ain Hydref)	£569.84	S
Ffioedd Trwydded Angorfa		
Traeth Coch a Cymyran – cyson	£0.80 (fesul metr x ardal)	S
Biwmares, Porthaethwy a Bae Llanfaes – cyson	£1.33 (fesul metr x ardal)	S
Ffi Rhestr Aros	£15.75 y flwyddyn	S
Harbwr Allanol Amlwch		
Angori – iotiau a chychod hamdden yn ymweld	£22.00	S
Ffioedd trwydded angori (pob cwch ac eithrio pysgota masnachol)	£54.60 y metr, y flwyddyn	S
Ffioedd trwydded angori pysgota masnachol	£110.25 y metr, y flwyddyn	S
Cyflenwad dŵr croyw – cychod bach	Dim tâl	D/B
Cyflenwad dŵr croyw - llongau dros 15 tunnell	£10.00 y tunnell o ddŵr	S
Diesel – tancer neu bowser	£210.00	S
Gwerthu Diesel Morol (llai na 2,000 litr) Ffi wedi ei nodi heb TAW	£0.08 y litr	Z – llongau masnachol yn mynd tu allan i ddyfroedd y DU a chychod yr RNLI S – llongau masnachol ar daith o fewn dyfroedd y DU R – cychod pleser gyda chyflenwad llai na 2,300 litr ar gyfer gyriant yn unig, a chychod preswyl ac elusennol
Gwerthu Diesel Morol (dros 2,000 litr) Ffi wedi ei nodi heb TAW	£0.08 y litr	

Ffi storio cwch (compownd / corlannau allanol)	£7.35 yr wythnos	S
Ffi gwarchodaeth / harbwr - pob cwch	£88.20	Z – Llong gymwys S – Llongau eraill ¹
Defnydd dyddiol o gorlannau allanol	£4.20 y dydd	Z – Llong gymwys S – Llongau eraill ¹
Defnyddio doc sych	£105.00 y mis	Z – Llong gymwys S – Llongau eraill ¹
Harbwr Mewnol Amlwch		
Ffioedd trwydded angori pob cwch ac eithrio pysgota masnachol	£55.55 y metr y flwyddyn	S
Ffioedd trwydded angori pysgota masnachol	£111.20 y metr y flwyddyn	S
Llongau heb drwydded - iotiau a chychod hamdden yn ymweld	£22.00	S
Llongau heb drwydded - ffi gwarchodaeth / harbwr - pob llong	£22.00 y dydd	Z – Llong gymwys S – Llongau eraill ¹
Ffi Rhestr Aros	£15.75 y flwyddyn	S
Cofrestru pob cwch pŵer (o dannan 10hp, dim ffi lansio)		
Cofrestru Blynyddol		
Pob llong llai na 10hp	£40.00	O/S
Ceisiadau pob llong arall	£70.00	O/S
Rhosneigr yn unig (cofrestru a lansio preswylwyr yn unig. Ni ellir ei ddefnyddio ar unrhyw draeth arall)	£70.00	O/S
Ar lanfeydd preifat mewn partneriaeth (75% Cyngor / 25% gwerthwr)	£37.50	O/S
Ffioedd lansio		
Tâl dyddiol	£22.00	S
Trwydded flynyddol (yn cynnwys cofrestru)	£180.00	S
Cwmnïau yn lansio i arddangos neu brofi (cytundeb ysgrifenedig)	£120.00	S
Cost cofrestru a lansio ar gyfer gwasanaethau Chwilio ac Achub	Dim tâl	D/B
Masnachol		
Lansio cerbyd masnachol ar Lithrfeydd y Cyngor	£992.25 y cwmni y flwyddyn	S
Cychod diogelwch ar gyfer digwyddiadau	Dim tâl (dal angen cais)	D/B
Ffi Gweinyddu Trwydded Masnachol	£100.00	S
Amrywiol		
Defnyddio'r blaendraeth ar gyfer Criwiau Ffilmio/Digwyddiadau ac ati:		
Diwrnod llawn (31-69 cast a chriw) Gostyngiad o 50% ar gyfer hanner diwrnod	£2,100.00	S
Diwrnod llawn (6-30 cast a chriw) Gostyngiad o 50% ar gyfer hanner diwrnod	£1,050.00	S
Diwrnod llawn (1-5 cast a chriw) Gostyngiad o 50% ar gyfer hanner diwrnod	£432.00	S
Cwmnïau Ffilmio Lleol	£120.00	S
Cynhyrchiadau mawr >70 cast a chriw	Trafodaeth masnachol	S

¹ I gael arweiniad ar ba gychod sy'n cael eu dosbarthu fel llongau cymwys, dilynwch y ddolen ganlynol:
<https://www.gov.uk/guidance/ships-aircraft-and-associated-services-notice-744c#ships-and-qualifying-ships>

Hysbysiadau	£2,000.00 y dydd	S – heblaw am elusennau cofrestredig (Z)
Amser Staff	£500.00 y dydd	S
Sefydliadau elusennol yn defnyddio'r blaendraeth	Yn ôl disgresiwn staff y Swyddogaeth Forol	S
Ffi parcio ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi		
Trwydded Flynyddol	I'w gadarnhau	S
1 awr	I'w gadarnhau	S
2 awr	I'w gadarnhau	S
4 awr	I'w gadarnhau	S
Hyd at 12 awr	I'w gadarnhau	S
Trwydded Digwyddiadau Masnachol Parc Gwledig Morglawdd Caergybi		
Digwyddiad bach, tua 0-50 o bobl	I'w gadarnhau	S
Digwyddiad canolig, tua 51-200 o bobl	I'w gadarnhau	S
Digwyddiad mawr, tua 200+ o bobl	I'w gadarnhau	S

Priffyrdd

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Gorchmynion Arallgyfeirio a Diddymu Llwybrau		
Cyngor cychwynnol ac ymweliad safle (hyd at ddwy awr)	Dim tâl	D/B
Tynnu cais yn ôl neu ei wrthod wedi ystyriaeth gan swyddogion	£300.00	O/S
Gwneud gorchymyn, ond ei dynnu'n ôl wedi ei hysbysebu	£1,040.00	O/S
Gorchymyn sy'n cael ei gadarnhau gan yr Awdurdod heb wrthwynebiad	£1,700.00	O/S
Os ceir gwrthwynebiad i'r gorchymyn ond ei fod yn cael ei dynnu'n ôl	£1,850.00	O/S
Os derbynnir gwrthwynebiadau a ategir a bod y gorchymyn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru	£3,180.00	O/S
Ceisiadau lluosog – os yw'r cais yn cynnwys arallgyfeirio mwy nag un llwybr, y ffi ar gyfer pob llwybr ychwanegol a gynhwysir yn yr un gorchymyn	£450.00	O/S
Gorchmynion Arallgyfeirio a Chau Llwybrau Dros Dro		
Argyfwng hyd at 21 diwrnod	£300.00	O/S
Gwaith tymor byr hyd at 5 niwrnod (angen 2 wythnos o rybudd)	£300.00	O/S
Gwaith tymor hirach hyd at 6 mis (angen 6 wythnos o rybudd a 2 hysbyseb)	£1,775.00	O/S
Estyniad ar orchymyn 6 mis (cais i Lywodraeth Cymru) (6 wythnos o rybudd ac 1 hysbyseb)	£1,200.00	O/S
Gwaith Stryd		
Sgipiau		
Cofrestriad cwmni sgipiau	£420.00	O/S
Trwydded sgip (7 diwrnod). Tâl ychwanegol o £50 am bob wythnos, neu ran o wythnos, dros y cyfnod rhedeg	£30.00	O/S
Trwydded sgip (un mis). Tâl ychwanegol o £100 am bob wythnos, neu ran o wythnos, dros y cyfnod rhedeg	£60.00	O/S
Trwydded sgip ar stryd sy'n sensitif i draffig (7 diwrnod). Tâl ychwanegol o £110 am bob wythnos, neu ran o wythnos, dros y cyfnod rhedeg	£65.00	O/S
Trwydded sgip ar stryd sy'n sensitif i draffig (1 mis). Tâl ychwanegol o £220 am bob wythnos, neu ran o wythnos, dros y cyfnod rhedeg	£130.00	O/S
Tystysgrif sgip mawr rowlio ymlaen a rowlio i ffwrdd (1 mis). Tâl ychwanegol o £210 am bob wythnos, neu ran o wythnos, dros y cyfnod rhedeg	£130.00	O/S
Trwydded sgip mawr rowlio ymlaen a rowlio i ffwrdd ar stryd sy'n sensitif i draffig (1 mis). Tâl ychwanegol o £420 am bob wythnos, neu ran o wythnos, dros y cyfnod rhedeg	£250.00	O/S
Sgaffaldiau		
Cofrestriad cwmni sgaffaldiau	£450.00	O/S
Trwydded sgaffaldiau (7 diwrnod). Tâl ychwanegol o £50 am bob wythnos, neu ran o wythnos, dros y cyfnod rhedeg	£30.00	O/S
Trwydded sgaffaldiau (6 wythnos). Tâl ychwanegol o £110 am bob wythnos, neu ran o wythnos, dros y cyfnod rhedeg	£65.00	O/S
Trwydded sgaffaldiau ar stryd sy'n sensitif i draffig (7 diwrnod). Tâl ychwanegol o £120 am bob wythnos, neu ran o wythnos, y cyfnod rhedeg	£65.00	O/S
Trwydded sgaffaldiau ar stryd sy'n sensitif i draffig (6 wythnos). Tâl ychwanegol o £220 am bob wythnos, neu ran o wythnos, y cyfnod rhedeg	£130.00	O/S
Ffensio Herras ar y briffordd (dim angen cofrestru) – tri mis	£65.00	O/S
Palis ar y briffordd (dim angen cofrestru) – tri mis	£65.00	O/S
Trwyddedau Adran 171		
Adran 184 a 171 cytundeb a thrwydded	£435.00	O/S
Adran 171 ar gyfer caban, container, portaloo, defnydd compownd neu storfa ar y briffordd am uchafswm o dri mis	£435.00	O/S
Ceisiadau Adran 171 i osod drych traffig ar y briffordd gyferbyn â mynediad preifat	£65.00	O/S
Adran 171 - "high lift", "scissor lift" neu HIAB ar y briffordd mewn un lleoliad am fwy nag un awr (dim ffi am lai nag un awr yn yr un lleoliad). Tâl fesul diwrnod plws ffi cau'r ffordd os bydd angen	£65.00	O/S
Adran 171 – craen ar y briffordd. Tâl fesul diwrnod plws ffi cau'r ffordd os bydd angen	£375.00	O/S

Adran 50 o'r Ddeddf Priffyrdd 1980		
Adran 50 presennol (offer ar y briffordd)	£500.00	O/S
Adran 50 newydd	£600.00	O/S
Ymchwiliad Adran 50 o gloddfa fesul 200 metr o hyd	£305.00	O/S
Trwydded Adran 50 ar gyfer anheddau newydd – 6 eiddo neu fwy (fesul annedd)	£375.00	O/S
Cau'r Ffordd		
Cau'r ffordd yn ôl y drefn arferol	£3,200.00	O/S
Cau'r ffordd yn dilyn argyfwng	£3,200.00	O/S
TTRO ar gyfer gwaith ADB	Dim Tâl	
Ffioedd Gorchymyn Cyfyngu Dros Dro ar gyfer Gwaith		
Gorchymyn Traffig Dros Dro i wneud neu ddiwygio Aros cyfyngedig	£900.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i gyfyngu ar barcio	£900.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i wneud neu ddiwygio Un ffordd	£900.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i wneud neu ddiwygio terfyn cyflymder	£900.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i greu neu ddiwygio clirffordd	£900.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i wneud neu ddiwygio cyfyngiad pwysau	£900.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i wneud neu ddiwygio cyfyngiad uchder	£900.00	O/S
Amrywiol		
Goriadau wedi eu colli lawr gyli (*plws ffi contractwr)	£60.00*	O/S
Ceisiadau meinciau a gwely blodau gan Gynghorau Cymuned	Dim tâl	D/B
Digwyddiadau ar y Briffordd		
Marciau Amddiffyn Mynediad	£100.00	O/S
Adnewyddu Marciau Amddiffyn Mynediad	Gwir Gost + 20%	O/S
Cais Arwydd Twristiaeth	£75.00	S
Dylunio a Gosod Arwydd Twristiaeth	Gwir Gost + 20%	S
Ffioedd Gorchymyn Gwaharddiad Dros Dro ar gyfer Gweithgareddau		
Gorchymyn gwahardd cerbydau ar gyfer digwyddiad (cau ffordd, tua 6 digwyddiad y flwyddyn)	£850.00	O/S
Gorchymyn diwygio traffic ar gyfer digwyddiad (aros cyfyngedig, un ffordd, a.y.b., tua 6 digwyddiad y flwyddyn)	£850.00	O/S
Arwydd Twristiaeth	Gwir Gost + 20%	O/S
Digwyddiadau graddfa fechan gymunedol neu elusenol	Am ddim	D/B
Rheolaeth Datblygu		
Chwiliad sylfaenol mewn un lleoliad	£85.00	S
Chwiliad sylfaenol mewn hyd at 5 lleoliad	£180.00	S
Chwiliadau Tref Manylach	£350.00	S
Chwiliadau Ardal Manylach	£715.00	S
Cais ar gyfer datblygiadau mawr (yr awr)	£90.00	S
Cytundebau Adran 38/278 – isafswm tâl o £2,500	10% o gostau gwaith	S
Meysydd Parcio		
Ceir - Trefi		
1 awr	£1.00	S
2 awr	£1.50	S
4 awr	£3.00	S
Hyd at 12 awr	£4.00	S
Ceir - Arfordirol		
1 awr	£1.50	S
3 awr	£3.50	S
4 awr	£7.00	S
12 awr	£12.00	S
Trelar	£20.00	S
Parcio a Rhannu Llanfairpwll		
1 diwrnod	£1.00	S
2 ddiwrnod	£2.00	S

3 diwrnod	£3.00	S
4 diwrnod	£4.00	S
5 diwrnod	£5.00	S
6 diwrnod	£6.00	S
7 diwrnod	£7.00	S
Stanley Crescent, Caergybi		
12 awr	£1.20	S
2 ddiwrnod	£2.00	S
3 diwrnod	£3.00	S
4 diwrnod	£4.00	S
5 diwrnod	£5.00	S
6 diwrnod	£6.00	S
7 diwrnod	£7.00	S
Tocyn Tymor Parcio		
12 mis cerbyd sengl	£180.00	S
6 mis cerbyd sengl	£125.00	S
12 mis cerbyd sengl gyda threlar	£210.00	S
6 mis cerbyd sengl gyda threlar	£260.00	S
Prisiau Meysydd Parcio Arall		
Trwydded Parcio	£75.00	O/S
Meddiant maes parcio (compownd bach, 4-6 bae)	£80.00 i £240.00 yr wythnos	S
Meddiant maes parcio (compownd mawr)	Hyd at £500.00	S
NODER: Nodwch, os gwelwch yn dda, bydd gwasanaethau sydd angen mewnbwn gan y Gwasanaethau Cyfreithiol yn denu costau ychwanegol amrywiol.		

Rheoli Gwastraff

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Bin olwynion du 240 litr newydd neu amnewid ar gyfer gwastraff gweddilliol (wedi eu colli, dwyn, cyfnewid neu ddifrodi) (tâl danfon a gweinyddu yn unig, nid gwerthu biniau olwyn du)	£43.00	S
Bin olwynion du 140 litr newydd neu amnewid ar gyfer gwastraff gweddilliol (wedi eu colli, dwyn, cyfnewid neu ddifrodi) (tâl danfon a gweinyddu yn unig, nid gwerthu biniau olwyn du)	£25.00	S
Casglu gwastraff swmpus 'A' (hyd at 4 eitem fesul casgliad)	£47.00	O/S
Casgliad Gwastraff Gardd Gwyrdd (bin olwynion gwyrdd)	£41.00	S
Taliadau casglu/gwaredu sbwriel masnach	Gwir gyfradd gyfredol a godir gan gontractwr casglu gwastraff y Cyngor plws tâl gweinyddol o 20%	Amrywiol
Holl Ffioedd Eraill		
Pob gwaith perthnasol a reolir / drefnir gan y Gwasanaeth Gwastraff. Yn cynnwys: - Trolis siopau wedi eu gadael - Cael gwared ar fagiau sbwriel - Llogi biniau olwynion ar gyfer digwyddiadau a drefnwyd	Gwir gost plws tâl gweinyddol o 20%	Amrywiol

Eiddo

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Llogi Ystafell Gyfarfod Neuadd y Farchnad Caergybi (yn cynnwys TAW)		
Ystafell Thomas (capasiti seddi 24 / 50 arddull theatr)		Yn destun TAW lle bo'n briodol h.y.
Cost yr awr	£40.00	
Cost fesul hanner diwrnod	£87.00	
Cost fesul diwrnod llawn	£140.00	
Ystafell Edwards (capasiti seddi 20 / 42 arddull theatr)		S – i gleientiaid allanol Dim TAW ar logi mewnol
Cost yr awr	£36.00	
Cost fesul hanner diwrnod	£80.00	
Cost fesul diwrnod llawn	£134.00	

Cyfreithiol

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Taliadau Tir Lleol		
Chwilio (CON29R)	£173.04	S
Ffi Parsel Ychwanegol (CON29R)	£13.92	S
Ffurflen LLC1	£6.00	O/S
Ffurflen LLC1 ar-lein	£4.00	O/S
Ffi Parsel Ychwanegol (LLC1)	£1.00	O/S
Con 29O (ac eithrio cwestiwn 22)	£18.54	S
Con 29O: Cwestiwn 22 (tir comin)	£23.70	S
Ffioedd Cyfreithiol Dewisol		
Rhwymedigaethau cynllunio (cytundebau Adran 106)		
Annedd fforddiadwy sengl hunan adeiladu	£698.86	O/S
3 awr o waith ar bob cytundeb arall gyda chyfraddau fesul awr i'w godi ar amser a dreuliwyd dros 3 awr	£1,048.54	O/S
Gweithredoedd rhyddhau syml / Gweithredoedd Amrywiant	£333.72	O/S
Gwerthu tir neu Ganiatáu prydlesau		
Gwerthiant neu drosglwyddiad tir – Lle na phenodir cyfreithiwr y gan barti arall (ar gyfer 3 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 3 awr)	£633.00	S
Gwerthiant neu drosglwyddiad tir – Lle penodir cyfreithiwr gan y parti arall (ar gyfer 6 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 6 awr)	£1,266.00	S
Pob gweithgaredd arall sy'n ymwneud ag eiddo. I gynnwys: materion prydles masnachol dibreswyl a phreswyl (gan gynnwys grantiau, ildiau, amrywiadau, aseiniadau, tanosodiadau a chydsyniadau), grantiau, rhyddhau ac amrywio hawddfrait, gweithredau cyfamad (gan gynnwys rhyddhau ac addasiadau), arwystlon cyfreithiol a chytundebau benthyciad, gweithrediadau blaenoriaeth a gohirio, a phob cais arall sy'n ymwneud ag eiddo'r Cyngor nad yw'n perthyn i unrhyw gategori arall o waith	Gwir amser a dreuliwyd ar raddfa'r awr berthnasol*	S
Cytundebau Adran 38 a 278 (Deddf Priffyrdd) (hyd at 5 awr o waith, cyfradd fesul awr priodol i'w ddefnyddio pan fo gwaith yn fwy na 5 awr)	£1,055.00	O/S
Gorchmynion rheoleiddio traffig, os ceir cais gan drydydd parti (megis gorchmynion cau, dargyfeirio, gorchmynion traffig dros dro) (4.5 awr o waith, cyfradd awr perthnasol ar waith dros 4.5 awr)	£632.42	O/S
Cofrestr Tir Comin – ffioedd isod wedi eu nodi HEB TAW a bydd angen ei ychwanegu lle'n berthnasol		
Cywiro camgymeriad arall dan Adran 19(2)(b)	£396.04	Gweler nodyn
Diweddarau enwau a chyfeiriadau dan Adran 19 (2)(d)	£66.44	Gweler nodyn
Crynnodiad neu grebachiant dan Adran 19 (2)(e)	£66.44	Gweler nodyn
Ceisiadau dan Atodlen 2, paragraffau 6 i 9 cynhwysol (adeiladau a gofrestrir fel tir comin neu dir maes tref neu bentref neu dir a gofrestrwyd yn anghywir fel tir comin neu faes tref neu bentref).	£2,599.04	Gweler nodyn
Sylwer: Mae Treth Ar Werth yn daladwy ar rhai ffioedd sy'n ymwneud â thrafodion eiddo. Yn sylfaenol, lle mae'r eiddo wedi ei gofrestru ar gyfer TAW. Nid yw'r ffioedd uchod yn cynnwys TAW, a bydd angen ychwanegu'r gyfradd TAW priodol lle'n berthnasol.		
*Cyfraddau fesul awr priodol		
Cyfarwyddwr Swyddogaeth, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfreithwyr	£211.00	Codir TAW ychwanegol yn gyson â'r ymholiad mae'n ymwneud â hi
Pob staff arall sy'n ennill ffi	£127.00	
SYLWER - bydd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth neu Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, yn ôl ei ddoethineb, y pŵer i hepgor y ffi mewn rhai achosion o galedi ariannol profedig.		

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adrodd i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	18 Chwefror 2025
Pwnc:	Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol ar gyfer 2025/26
Aelod(au) Portffolio:	Cynghorydd Alun Roberts
Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth:	Arwel Wyn Owen, Pennaeth Oedolion
Awdur yr Adroddiad:	Carwyn Edwards, Rheolwr Cyllid
Ffôn:	01248 752699
E-bost:	CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Yr holl Aelodau

A – Argymhellion a rhesymau

Argymhelliad

Rydym yn argymhell cynyddu'r ffioedd Preswyl, Preswyl Henoed Bregus eu Meddwl (EMI), Nyrsio a Nyrsio Henoed Bregus eu Meddwl gan 7.5%. Mae'r argymhellion wedi'u crynhoi ar ddiwedd yr adran hon (A1 - A4).

Cefndir

O 6 Ebrill 2016, mae'r fframwaith ar gyfer asesiadau ariannol a chodi ffioedd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gofynnir i'r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol yn flynyddol, er mwyn cyd-fynd â newidiadau'r Llywodraeth Ganolog i fudd-daliadau a lefelau pensiwn.

Wrth osod lefelau ffioedd ar gyfer cartrefi gofal y sector annibynnol, rhaid dangos ein bod wedi ystyried yn llawn y costau darparu wrth bennu ein ffioedd gofal sylfaenol. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r pecyn cymorth methodoleg fel cyfarpar meincnodi ar gyfer ffioedd 2025/26. Mae'r fethodoleg yn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth mewn perthynas â'r cyflog byw gwirioneddol, newidiadau mewn deddfwriaeth Yswiriant Gwladol a chwyddiant. Wrth adolygu lefelau ffioedd, rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau lleol, pwysau o ran galw ac argaeledd darpariaeth, yn ychwanegol at y fformiwla ranbarthol.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, ac wrth gydnabod y pwysau ariannol mae ein darparwyr yn eu hwynebu, rydym yn argymhell cynyddu ein ffioedd gan 7.5%, sy'n mynd y tu hwnt i'r cynnydd ar sail chwyddiant a gyfrifwyd gan ddefnyddio pecyn cymorth methodoleg rhanbarthol.

Mae Tabl 1, isod, yn gosod y ffioedd yn seiliedig ar gynnydd ar sail chwyddiant, ac eithrio unrhyw daliad atodol ar sail y farchnad, ac mae Tabl 2 yn gosod cyfraddau arfaethedig Ynys Môn, yn cynnwys taliadau atodol ar sail y farchnad, gan gydnabod y pwysau mae darparwyr yn eu hwynebu.

Nid yw'r ffioedd yn Nhablau 1 a 2 isod ar gyfer gofal nyrsio yn cynnwys yr elfen Gofal Nyrsio am ddim yr (FNC) Awdurdod Lleol na'r elfen Gofal Nyrsio am ddim (FNC) y Bwrdd Iechyd. Rhaid pwyllgo wrth gymharu ag adroddiadau'r flwyddyn flaenorol oherwydd, yn hanesyddol, mae cyfradd FNC yr Awdurdod Lleol wedi cael ei gynnwys yn ein ffioedd nyrsio. Cyfradd FNC y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024/25 yw £218.12 a chyfradd FNC yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2024/25 yw £8.83. Bwriedir adolygu'r cyfraddau hyn yn ystod y misoedd nesaf, gyda'r disgwyliad y bydd cynnydd yn sgil chwyddiant yn cael ei gyhoeddi'n fuan yn y flwyddyn ariannol newydd.

Tabl 1**Ffioedd arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar y methodoleg ffioedd (Ac eithrio Taliad Atodol ar sail y Farchnad)**

Categori	Ffi 2024/25 fel y cyfrifwyd yn ôl y model (Ebrill 2024)	Ffi y cyfrifwyd ar gyfer 2025/26	Cynnydd o gymharu â ffioedd 2024/25	% Cynnydd o gymharu â ffioedd 2024/25
Preswyl (Oedolion)	£753.04	£810.33	£57.29	7.60%
Preswyl (EMI)	£786.45	£847.12	£60.67	7.71%
Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol)	£820.34	£883.91	£63.57	7.75%
Nyrsio (EMI) (Elfen Gofal Cymdeithasol)	£886.67	£957.47	£70.80	8.00%

Tabl 2**Ffioedd Arfaethedig Ynys Môn ar gyfer 2025/26**

Categori	Ffi 2024/25 (Ebrill 2024)	Ffi arfaethedig 2025/26	Cynnydd o gymharu â ffioedd 2024/25	% Cynnydd o gymharu â ffioedd 2024/25
Preswyl (Oedolion)	£774.47	£832.56	£58.09	7.50%
Preswyl (EMI)	£865.46	£930.37	£64.91	7.50%
Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol)	£843.44	£906.70	£63.26	7.50%
Nyrsio (EMI) (Elfen Gofal Cymdeithasol)	£996.66	£1,071.41	£74.75	7.50%

Bydd y cynnydd o 7.5%, os caiff ei gymeradwyo, yn berthnasol i gartrefi sy'n derbyn ein cyfraddau sylfaenol. Gofynnir i unrhyw un sy'n derbyn ffioedd y tu hwnt i'n cyfradd ddangosol ar hyn o bryd i rannu gwybodaeth ariannol, gan roi ystyriaeth i godiad ariannol.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen ystyried ceisiadau unigol gan ddarparwyr mewn perthynas â'r ffioedd hyn. Os bydd tystiolaeth glir yn mynegi nad yw'r ffi a osodwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos, bydd rhaid i'r Cyngor ystyried eithriadau i gyfraddau'r ffi. Argymhellir bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu dirprwyo i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a Phennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r argymhelliad i godi lefel y ffi fel a ganlyn:-

A1 – Gofal Preswyl (Pobl Hŷn) - £832.56 bob wythnos

A2 – Preswyl (EMI) - £930.37 bob wythnos

A3 – Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £906.70 bob wythnos (Ac eithrio FNC yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd)

A4 – Nyrsio (EMI) (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £1,071.41 bob wythnos (Ac eithrio FNC yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd)

Yn unol ag awdurdodau eraill, gofynnwn fod y Pwyllgor Gwaith yn rhoi awdurdod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Ariannol ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarferiad fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffi gytunedig. Bydd rhaid i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau), Swyddog Adran 151 a Phennaeth Gofal Cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Oedolion gytuno ar unrhyw eithriadau o fewn y cyllidebau presennol.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Gwnaethom ystyried defnyddio'r fethodoleg ffioedd fel sylfaen ar gyfer ffioedd 2025/26 ond wrth gydnabod y pwysau mae darparwyr yn eu hwynebu, penderfynasom beidio â gwneud hynny, a chynnig taliad atodol ar sail y farchnad y tu hwnt i'r ffi a gyfrifwyd gan y fethodoleg.		
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol osod lefelau ffioedd cartrefi gofal yn unol â'r polisi cenedlaethol. Mae'r penderfyniad hwn yn cyflwyno goblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol ac mewn perthynas â fforddiadwyedd yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.		
Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydy.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Mae'r gost ychwanegol o gyllido'r ffioedd uchod wedi'i chynnwys ym mhroses yr Awdurdod ar gyfer gosod y gyllideb.		
Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Y bwriad yw y bydd yn cefnogi ac yn annog darpariaeth newydd mewn meysydd twf.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Amherthnasol.
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Mae trafodaethau rhanbarthol yn parhau.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwrch sut	Dim ymgysylltiad â dinasyddion, ond rydym wedi cael trafodaethau cyson gyda darparwyr.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Y bwriad yw y bydd yn cefnogi unigolion sydd wedi'u gwarchod dan y Ddeddf.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Dim effaith.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim effaith.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r papur hwn wedi'i drafod gyda'r TA, ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi'u hymgorffori yn y papur.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Mae'r Swyddog Adran 151 yn rhan o'r TA.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol.
5	Eiddo	Amherthnasol.
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol.
7	Sgriwtini	Amherthnasol.
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol.
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol.
F - Atodiadau:		
Amherthnasol.		
Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Dim.		

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	18 CHWEFOR 2025
Pwnc:	STRATEGAETH GYFALAF 2025 – 2030
Deilydd Portffolio:	Robin Williams – Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio – Cyllid a Thai
Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151
Awdur yr Adroddiad:	Marc Jones
Ffôn:	
E-bost:	rmifi@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A – Argymhellion a Rhesymau	
Cyflwynodd Côt Darbodus diwygiedig CIPFA (Medi 2017) y gofyniad bod rhaid i bob awdurdod baratoi strategaeth gyfalaf. Mae'n rhaid iddi osod y cyd-destun tymor hir ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf a buddsoddi. Bwriad y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion y gwasanaeth, ac yn rhoi ystyriaeth lawn i stiwardiaeth, gwerth am arian, pwyll, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd. Mae'r strategaeth gyfalaf wedi'i chysylltu â nifer o gynlluniau a strategaethau eraill. Maent yn cynnwys:- • Cynllun y Cyngor; • Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol; • Y Strategaeth TG, gan gynnwys Strategaeth Digidoleiddio Ysgolion; • Strategaeth Sero Net Lleihau Carbon; • Strategaeth Gwelliannau Hamdden; • Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg; • Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu; • Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai; • Cynllun Busnes 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai; • Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymhell y Strategaeth Gyfalaf i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo'n ffurfiol.	
B – Pa opsiynau eraill y gwnaethoch chi eu ystyried a pham y gwnaethoch eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill gan fod mabwysiadu'r strategaeth gyfalaf yn ofyniad yng Nghôd Darbodus Ariannol CIPFA.	
C – Pam bod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
Yn unol â gofynion y Côt a Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y strategaeth ac argymhell ei gymeradwyo i'r Cyngor llawn.	

CH – A yw'r penderfyniad hwn cyd-fynd â'r polisi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn?		
Bydd y Cyngor llawn yn rhoi cymeradwyaeth ar gyfer y strategaeth.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor?		
Bydd y strategaeth gyfalaf yn ffurfio'r sail ar gyfer cyllideb cyfalaf 2025/26, fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025.		
Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r strategaeth gyfalaf yn crynhoi'r buddsoddiad cyfalaf tymor hir sydd ei angen gan y Cyngor er mwyn cyflawni ei amcanion tymor hir fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor. Mae Cynllun y Cyngor yn gynllun 5 mlynedd sy'n nodi amcanion strategol y Cyngor, sydd wedi cael eu dylunio i fynd i'r afael ag anghenion tymor hir yr Ynys.
2	A rhagwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaeth bellach ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Mae'r strategaeth gyfalaf yn nodi gofyniad buddsoddi cyfalaf y Cyngor yn y dyfodol. Mae buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ddylunio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu, a all osgoi costau sylweddol yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn dod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch bwy os gwelwch yn dda.	Er mwyn darparu'r rhaglen fuddsoddi gyfalaf, mae'n rhaid cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r DU, awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, cyrff cyllid grant arall a phartneriaid cyflenwi.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi bod yn rhan o ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheiny yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Eglurwch os gwelwch yn dda.	Ymgynghorwyd â dinasyddion cyn drafftio'r Cynllun y Cyngor terfynol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor.
5	Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau hynny sydd wedi'u diogelu dan Deddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd buddsoddiad cyfalaf yn helpu nifer o grwpiau gwarchodedig, drwy fuddsoddi mewn adeiladau, darparu grantiau cyfleusterau'r anabl, buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden ac ati.
6	Os mai penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad ei gael ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Bydd buddsoddiad cyfalaf yn bwydo arian sylweddol i mewn i'r economi leol ac yn helpu i ddarparu swyddi lleol. Bydd y buddsoddiad mewn tai yn darparu cartrefi fforddiadwy ychwanegol ar gyfer pobl leol.

7	Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i drin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg.	Gwneir buddsoddiad cyfalaf o fewn cymunedau lleol drwy fuddsoddi mewn ysgolion, mân-ddaliadau, eiddo masnachol ac ati. Bydd y buddsoddiad yn helpu i gynnal cymunedau lleol, fydd yn cael effaith fuddiol ar yr iaith Gymraeg.
E - Gyda phwy y gwnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (mandadol)	Mae sylwadau gan y TA wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Amherthnasol – cafodd y strategaeth ei ddrafftio gan y Swyddog Adran 151.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (mandadol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA, ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi'u hystyried wrth drafod yr adroddiad yn y TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Dim effaith uniongyrchol ar staff.
5	Eiddo	Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ystyried Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ystyried strategaeth TG a Ddigidol y Cyngor.
7	Sgriwtini	I'w gadarnhau.
8	Aelodau Lleol	Mae cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau.
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol.
F - Atodiadau:		
Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2025 - 2030		
FF – Papurau Cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Cynllun y Cyngor 2023 – 2028 Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26 – yn cael ei diweddarau ym mis Chwefror 2025 Cynllun Ariannol Tymor Canol – Pwyllgor Gwaith, 24 Medi 2024 Cyllideb Refeniw 2025/26 – Cynigion Cychwynnol – Pwyllgor Gwaith, 21 Ionawr 2025		



Ynys Môn THE ISLE OF Anglesey

Strategaeth Gyfalaf 2025-2030



Rhagair gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr

Mae buddsoddi Cyfalaf yn angenrheidiol ar gyfer Ynys Môn o safbwynt cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a chymunedol ond, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysig bod penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau tymor hir yn seiliedig ar wybodaeth ddeallus glir, yn mynd i'r afael â'r risgiau tymor hir mae'r Cyngor yn eu hwynebu a'u bod yn fforddiadwy yn y tymor hir.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gosod y gofynion buddsoddi tymor hir sy'n deillio o Gynllun y Cyngor a strategaethau cysylltiedig eraill, mae'n asesu fforddiadwyedd y cynlluniau hynny ac yn adnabod yr adnoddau cyfalaf sydd eu hangen i gyflawni'r cynlluniau hynny.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ddogfen allweddol sy'n sicrhau bod penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau cyfalaf yn cael eu gwneud mewn ffordd drefnus, sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei brif amcanion tra'n sicrhau nad yw hyfywedd tymor hir y Cyngor mewn perygl.



Cynghorydd Gary Pritchard,
Arweinydd y Cyngor



Dylan J. Williams,
Prif Weithredwr

Pam Rydym Angen Strategaeth Gyfalaf?

- Mae Côt Darbodus CIPFA yn gosod allan gofyniad bod pob awdurdod lleol yn gorfod paratoi strategaeth gyfalaf.
- Yn ddelfrydol, dylai'r Strategaeth gwmpasu 10 i 15 mlynedd, ond nid yw'r ansicrwydd presennol ynglŷn â chyllid yn caniatáu ar gyfer datblygu cynllun mor hir-dymor.
- Mae'n sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf a buddsoddi sy'n rhoi ystyriaeth lawn i:-
 - Stiwardiaeth;
 - Gwerth am Arian;
 - Pwyll;
 - Cynaliadwyedd;
 - Fforddiadwyedd.
- Cyfrannu at gydymffurfiaeth gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Pwrrpas y Strategaeth Gyfalaf?

- Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddiadau tymor hir, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau hynny'n gallu dibynnu ar wybodaeth glir a chywir. Mae hyn yn cynnwys:-
 - Edrych ar gynlluniau gwariant cyfalaf tymor hir ac unrhyw risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor;
 - Ystyried y goblygiadau cyllido tymor hir o ran fforddiadwyedd a risgiau posib;
 - Bod â throsolwg clir o drefniadau rheoli asedau'r Cyngor ac unrhyw ofynion cynnal a chadw sydd â goblygiadau o ran adnoddau a chynllunio busnes.
- Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn edrych ar yr asedau newydd neu'r gwelliannau sydd eu hangen i asedau, megis adeiladu'r Cyngor, ysgolion, tai, cyfleusterau gofal cymdeithasol a chyfleusterau hamdden, er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol ynghyd â'i oblygiadau statudol niferus.
- Drwy'r cynllun hwn, rydym yn bwriadu gwario a buddsoddi lefel briodol o gyfalaf i ddiwallu'r blaenoriaethau ac amcanion hyn, tra'n sicrhau bod ein cynlluniau yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy.

Gwariant Cyfalaf 2020/21 – 2024/25

	2020/21 £'m	2021/22 £'m	2022/23 £'m	2023/24 £'m	2024/25 (Rhagolwg) £'m
Cynnal Asedau Presennol	6.934	6.865	9.139	5.678	5.312
Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	0.951	4.507	6.317	13.160	8.608
Gwellu Cyfleusterau Hamdden	0.123	0.211	0.336	0.249	1.324
Rheoli Gwastraff	3.213	2.270	0.213	0.099	0.264
Cyflawni Sero Net	0.052	1.742	1.372	2.379	10.365
Rhaglen Amddiffyn Rhag Llifogydd	1.481	1.194	2.491	0.567	1.303
Prosiectau wedi'u Cyllido gan Grantiau'r UE	2.563	1.361	4.511	0.248	1.041
Prosiectau wedi'u Cyllido gan Grantiau Llywodraeth Cymru / y DU	3.419	3.590	2.119	3.085	6.374
Isadeiledd / Offer TG Ysgolion	0.596	0.603	0.341	0.320	0.000
Eiddo Buddsoddi	0.091	0.253	0.242	2.835	0.000
Prosiectau Eraill wedi'u Cyllido gan Grantiau	1.084	1.140	2.429	2.148	4.571
Cyfrif Refeniw Tai	12.623	9.723	11.180	19.806	27.841
CYFANSWM Y GWARIANT	33.129	33.457	40.690	50.574	67.003

Cynllun y Cyngor 2023-2028

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:-

Cynllun y Cyngor yw'r ddogfen allweddol sydd yn ganolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod, mae a wnelo'r cynllun â'n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid i sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

Ein chwech amcan strategol

Tudalen 141
'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'



Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.



Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.



Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.



Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.



Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.



[Cynllun y Cyngor 2023-2028](#)

Cynllun y Cyngor 2023-28

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

Tudalen 142



[Cynllun y Cyngor 2023-2028](#)

Gwerthoedd



Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.



Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.



Cydweithio

Rydym yn gweithio'n well fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.




Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Cyngor i'r Cyngor a'r Ynys.

Cylch Strategol


Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion strategol a'r gweledigaeth.



[Cynllun y Cyngor 2023-2028](#)

Y berthynas rhwng Cynlluniau a Strategaethau'r Cyngor



• Cynllun y Cyngor a Chynlluniau Gweithredol Allweddol

- Mae'r strategaethau a chynlluniau allweddol isod yn bwysig ac yn cydberthyn er mwyn helpu i adnabod y lefel fforddiadwy o referniw ac adnoddau cyfalaf sydd ei angen er mwyn cyflawni prif flaenoriaethau Cynllun y Cyngor a chynlluniau gweithredol allweddol. Yn ogystal, mae'r rhain yn darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol gadarn o adnoddau'r Cyngor.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)

Caiff ei adolygu'n rheolaidd er mwyn helpu gosod allan y gofyniad tebygol o ran adnoddau ar gyfer y tair blynedd nesaf, a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwysu'r gofyniad hwn. Mae hyn yn cynnwys effaith materion referniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gosod allan y prif flaenoriaethau ynghylch sut y dylid gwario cyllid cyfalaf er mwyn helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023/28. Mae'n cydnabod fod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau cyllido cyfalaf referniw ac mae'n rhaid sicrhau eu bod yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn effeithio ar y CATC, y DSRhT, y Gyllideb Referniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol, ac mae hefyd yn cael ei dylanwadu ganddynt.

Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (SRhT)

Mae'n gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Referniw Isaf a'r Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn. Maent yn darparu'r fframwaith a'r rheolyddion sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu costau referniw a chyfalaf cyflenwyr, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, a'i fod ar gael, a sicrhau nad yw benthyca er mwyn cyllido gwariant cyfalaf yn mynd y tu hwnt i lefel fforddiadwy.

Mae'r Gyllideb Referniw Flynyddol

yn cael ei chefnogi gan CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r SRhT - Bob blwyddyn, mae'r costau cyllido cyfalaf referniw yn cael eu hadolygu a'u diwygio fel rhan o'r gwaith o osod cyllideb referniw. Ar brydiau, defnyddir cyfraniadau referniw i gyllido costau cyfalaf.

Y Rhaglen Gyfalaf Flynyddol


- Mae'r lefel o wariant a benthyca cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb referniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau referniw parhaus, megis cynnal a chadw.

Prif feysydd blaenoriaeth

Mae cyflawni'r flaenoriaeth strategol, ynghyd â'r meysydd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym am wneud yn siŵr:-

- Bod gennym ddigon o gyllid i fuddsoddi yn y blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf;
- Ein bod ni'n gallu cynnal ein hasedau cyfalaf a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- Bod strategaeth y Cyngor yn ddigon hyblyg i gwrdd ag unrhyw anghenion sy'n ymgodi a chymryd mantais o unrhyw gyfleoedd cyllido pan fyddant yn codi.



Egwyddorion ac Amcanion i Gefnogi'r Gwaith o Gyflawni Prif Amcanion

- Rhaid i brosiectau cyfalaf fod yn gysylltiedig ag asedau a fydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanon allweddol, sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor, ynghyd â'i strategaethau gweithredol allweddol a chyfrifoldebau statudol.
- Pob blwyddyn wrth adolygu'r strategaeth hwn a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf blynyddol, rhaid i'r Cyngor ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, pwyll, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.
- Bydd y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael ei flaenoriaethu o fewn y Rhaglen Gyfalaf.
- Bydd Derbyniadau Cyfalaf o Werthiant Ysgolion Dros Ben yn cael eu defnyddio fel cyllid ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (fel nodir yn yr Achos Busnes Derfynol) neu fel cyllid cyfalaf cyffredinol.
- Gellir ail-fuddsoddi derbyniadau yn yr ystâd yn dilyn gwerthu mân-ddaliadau'r Cyngor, os ydi'r blaenoriaethau gwario eraill yn caniatáu hynny.
- Bydd swm blynyddol yn cael ei ddyrannu i gynnal a chadw neu ddisodli asedau presennol y Cyngor - Adeiladau'r Cyngor, Offer TG, Cerbydau, Rhwydwaith Ffyrdd.
- Bydd y Cyngor yn anelu i ddefnyddio cyllid cyfalaf i drawsnewid a moderneiddio'r gwasanaethau a ddarperir.
- Bydd unrhyw brosiect newydd sydd angen cyllid cyfatebol i ddenu cyllid grant yn cael ei asesu ar sail achos fesul achos gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Bydd yr asesiad yn ystyried y lefel o gyllid grant, a yw'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, y goblygiadau ar gyfer y gyllideb refeniw a lefel y cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid grant.
- Rhaid i brosiectau cyfalaf roi sylw i'r targedau carbon sero net a rhaid defnyddio dewisiadau amgen glân lle, yn draddodiadol, defnyddiwyd offer / cyfleusterau / asedau oedd yn cynhyrchu carbon.
- Bydd y Cyngor yn parhau i weithio hefo'i bartneriaid strategol ac mae wedi ymrwymo i weithio fel rhan o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflwyno prosiectau cyfalaf ar draws Gogledd Cymru.
- Bydd Benthycia Digefnogaeth yn cael ei ystyried os bydd y gofynion cyllid cyfalaf blynyddol yn fforddiadwy ac yn cynnal lefel dderbyniol o gostau cyllid cyfalaf yn erbyn gwariant refeniw net.
- Gweithredir benthyciadau allanol yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor er mwyn cynnal balansau arian parod digonol, ac er mwyn lleihau ffioedd cyllid cyfalaf.

Ffynonellau Cyllid y Rhaglen Gyfalaf

Math o Gyllid	Ffynhonnell	Cyfyngiadau Defnydd	Goblygiadau Refeniw	Sylwadau
Grant Cyfalaf Cyffredinol	Llywodraeth Cymru	Dim	Dim	
Benthyca â Chefnogaeth	BBGC	Dim	DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad)	Costau refeniw wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad.
Benthyca Digefnogaeth	BBGC	Rhaid bodloni gofynion y Côd Darbodus	DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad)	Gan fod costau llawn yn disgyn ar y Cyngor, mae'n rhaid i unrhyw brosiect sy'n cael ei cyllido drwy fenthyciad digefnogaeth, fel arfer, greu incwm ychwanegol neu arbedion refeniw i fodloni'r DRI a ffioedd llog.
Cymunedau Dysgu (Grantiau a Benthyca)	Llywodraeth Cymru a BBGC	Yn unol â'r achos busnes a gymeradwyir	DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad)	Mae LIC yn cyllido 65% (67% drwy fenthycia â chefnogaeth a 33% drwy grant). Mae'r Cyngor yn cyllido 35% drwy fenthycia digefnogaeth a derbyniadau cyfalaf.
Cymunedau Dysgu (Model Buddsoddi ar y Cyd)	Llywodraeth Cymru	Yn unol â'r achos busnes a gymeradwyir	Telir ffi refeniw blynyddol i Gwmni Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) am 25 mlynedd	92% o'r gost refeniw wedi'i cyllido gan Lywodraeth Cymru, gyda'r 8% sy'n weddill yn disgyn fel cost refeniw'r Cyngor.
Cyllid Grant Penodol	Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cyllidwyr Eraill	Yn unol â'r amodau grant	Dim	Efallai y bydd cyllid grant angen lefel o gyllid cyfatebol.
Derbyniadau Cyfalaf	Gwerthiant Asedau'r Cyngor	Dim	Dim	Rhaid defnyddio derbyniadau cyfalaf er mwyn cyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu benthyciadau presennol.
Arian Wrth Gefn y Cyngor	Cyngor	Dim	Dim	
Cyfraniadau o'r gyllideb refeniw	Cyngor	Dim	Dim	
Arian Wrth Gefn y CRT	Cyngor	Gwariant Cyfalaf y CRT yn unig	Dim	

Asedau Presennol y Cyngor

Tudalen 149

Math o Ased	Nifer	Math o Ased	Nifer	Math o Ased	Nifer
Ysgolion Cynradd	38	Clybiau Ieuenctid	1	Ffordd Cerbydau	1,188 km
Ysgolion Uwchradd	5	Unedau Busnes	68	Troedffordd	661 km
Canolfan Addysg y Bont	1	Safleoedd Manwerthu	20	Llwybr Beicio	211 km
Swyddfeydd	2	Canolfannau Cymunedol	8	Strwythurau	539
Amgueddfeydd ac Archifau	2	Sefydliadau Addysgol Eraill	3	Goleuadau	20,014 goleuadau
Llyfrgelloedd	7	Eiddo Amrywiol	8	Draeniad	28,064
Cartrefi Gofal Preswyl	5	Porthladdoedd a Phierau	7	Arwyddion heb eu goleuo	7,629
Cartrefi Gofal Plant (Cartrefi Clyd)	3	Angorfeydd	468	Asedau Priffyrdd Arall	9,239
Canolfannau Gofal Dydd	4	Stoc Dai	3,979 uned		
Canolfannau Hamdden	4	Tir Meddianedig	Amryw		
Cyfleusterau Cyhoeddus	22	Parciau a Mannau Agored	47		
Mân-ddaliadau	75	Cerbydau	200		

Cynnal Asedau Presennol

- Sicrhau bod ysgolion yn cyfarfod a gofynion addysgol y dyfodol - £230m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Swyddfeydd y Cyngor - £0.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Canolfannau Hamdden - £7m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Adeiladau Gofal Cymdeithasol - £2.4m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Unedau Busnes - £0.3m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Mân-ddaliadau - £0.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd - £0.3m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Cyfleusterau Cyhoeddus - £0.1m
- Gofyniad Cynnal a Chadw Ffyrdd Blynnyddol - £2m - £2.5m i gynnal cyflyrau presennol ffyrdd
- Offer TG – Disodli caledwedd presennol bob 3 i 10 mlynedd
- Cerbydau – Disodli cerbydau presennol bob 5 – 7 mlynedd – angen symud at ffynhonnell tanwydd sy'n garbon niwtral
- Grant Cyfleusterau Anabl – Gofyniad cyllidebol gwerth isafswm £750k bob blwyddyn

Cynnal Asedau Presennol

Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae cynnal a chadw asedau presennol mewn cyflwr sy'n sicrhau eu bod yn weithredol yn allweddol i sicrhau y gellir barhau i ddarparu gwasanaethau.
- Byddai buddsoddi / diweddarau a disodli asedau presennol a dechrau cael gwared ar yr ôl groniat cynnal a chadw angen gwariant cyfalaf sy'n fwy na £10m bob blwyddyn. Mae hyn y tu hwnt i'r lefel bresennol o gyllido a bydd angen blaenoriaethu buddsoddi.
- Mae buddsoddi yn asedau TG yn caniatáu'r Cyngor gynnal ei galedwedd TG, sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau rheng flaen.



Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Pob blwyddyn, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sicrhau ein bod ni'n buddsoddi yn ein hasedau presennol er mwyn eu hamddiffyn ar gyfer y dyfodol.
- Bydd asedau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn cael eu blaenoriaethu wrth ddyrannu cyllid cyfalaf.
- Bydd swm blyneddol yn cael ei ddyrannu ar gyfer cynnal a chadw neu ddisodli asedau'r Cyngor – Adeiladau'r Cyngor, Offer TG, Cerbydau.
- Y strategaeth gyfredol yw i ddefnyddio'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthycia â Chefnogaeth.
- Bydd rhaid cael benthycia digefnogaeth sylweddol i gyllido'r gweddill, a bydd hyn yn ei dro'n arwain at DRI a thaliadau llog gwerth tua £750k y flwyddyn.
- Yn y tymor hwy, byddwn yn asesu ein hasedau a gadwyd yn unol â'n hanghenion gwasanaeth yn y dyfodol.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Anelu i gyllido ar y lefel ganlynol:-
 - Adeiladau Addysg - £1.0m
 - Adeiladau Arall y Cyngor - £0.6m
 - Cynnal a Chadw Priffyrdd - £2.0m
 - Cerbydau - £0.3m
 - Offer TG - £0.3m
 - Grant Cyfleusterau Anabl - £0.75m
- Mae'r lefelau cyllid hyn yn ddibynnol ar y cyllid fydd ar gael a blaenoriaethau cyllido eraill, ond maent yn nodi'r gofyniad isaf.
- Daw hyn i £4.95m, gyda'r cyllideb ychwanegol yn cael ei gyllido drwy fenthycia digefnogaeth, derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau o'r cyllidebau refeniw.
- Bydd y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyllid cyfalaf allanol lle bynnag y bo modd a phan fo hynny'n fforddiadwy.

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'n raglen sylweddol a fydd yn arwain at defnyddio'r cyllid cyfalaf Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i wella ysgolion neu adeiladu adeiladau newydd yn y tymor hir.

Tydalen 152

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Rhaglen o hyd a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid allanol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i'r eithaf.



Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n llunio'r rhaglen amlinellol strategaethol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sy'n nodi blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor am y 9 mlynedd nesaf.
- Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar wella / disodli y 5 ysgol uwchradd y Cyngor.
- Bydd cyllid yn parhau ar ffurf cymysgedd o grantiau gan Lywodraeth Cymru a benthyca â chefnogaeth (65% o'r gost) a benthyca digefnogaeth a derbyniadau cyfalaf (35% o'r gost).

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf yn dilyn gwerthu ysgolion nad ydym eu hangen mwyach i gyllido'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Y gost o adeiladu ysgol uwchradd newydd yw oddeutu £70m, ac mae hyn yn debygol o ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd y Cyngor yn parhau i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) Llywodraeth Cymru i gyllido'r gost o ddisodli un adeilad ysgol.
- Mae unrhyw gynllun newydd yn annhebygol o ddechrau tan 2026/27.



Gwelliannau i Gyfleusterau Hamdden

Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae Canolfannau Hamdden yn darparu gwasanaeth bwysig i drigolion Môn sy'n cyfrannu tuag at eu iechyd a'u lles.
- Mae 3 allan o 4 Canolfan Hamdden y Cyngor oddeutu 50 oed, ac mae angen buddsoddiad sylweddol i gynnal a chadw'r adeiladau a diweddarau cyfleusterau.
- Byddai'r gost amcangyfrifiadol oddeutu £40m i £50m a ni all y Cyngor ei gyllido ar ei ben ei hun.

Tudalen 153



Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal a chadw'r adeiladau fel y gallant barhau i weithredu dros y tymor byr i ganolig, gyda'r nod o barhau i weithredu'r 4 ganolfan.
- Bydd y Cyngor yn asesu dyfodol tymor hir y 4 canolfan, a bydd y penderfyniad yn gysylltiedig ag anghenion cymunedau, y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r cyllid sydd ar gael.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Y strategaeth tymor hir yw gweithio er mwyn cael cyllid grant i wneud gwaith adnewyddu neu ail-adeiladu y Canolfannau.
- Mae gan y Cyngor oddeutu £1.5m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig (a gynhyrchwyd drwy ad-daliad TAW a drwy werthu Cwrs Golff Llangefni) i'w ddefnyddio i gynnal a chadw ac uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur ac i'w ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid grant allanol, pe byddai unrhyw gyfleoedd yn codi.



Rheoli Gwastraff

Pam fod hyn yn bwysig?

- Rhaid i'r Cyngor gynnal gwasanaethau 'busnes fel arfer' diogel a chydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol / cwrdd â thargedau e.e. y targed i ailgylchu 70% o wastraff cartref.
- Tudalen 154
- Mae'r buddsoddiad cyfalaf dros y 5 mlynedd nesaf oddeutu £45.7m, yn cynnwys:-
 - Adnewyddu asedau busnes fel arfer, gan gynnwys amnewid fflyd - £10.6m;
 - Newidiadau i'r gwasanaeth ailgylchu / casglu gwastraff i gwrdd â thargedau - £21.6m (gyda buddsoddiad pellach mewn fflyd newydd);
 - Newidiadau isadeiledd i gefnogi newidiadau gwasanaeth i gwrdd â thargedau statudol - £5.5m;
 - Datgarboneiddo'r fflyd ac offer - £8.0m.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae Cynllun Strategol newydd y Cyngor ar gyfer Adnoddau ac Ailgylchu yn nodi pedwar blaenoriaeth allweddol i sicrhau bod gwasanaethau 'busnes fel arfer' yn cael eu cynnal a'u gwella i gwrdd â gofynion cyfreithiol / targedau'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda nifer o chydranddeiliaid i wella ei gyfraddau ailgylchu i gwrdd â thargedau statudol, ond bydd rhaid buddsoddi yn ein canolfannau hailgylchu, offer, peiriannau a cherbydau cyfredol er mwyn cyflawni hyn.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Nid oes gan y Cyngor gyllid wedi ei adnabod ar gyfer y buddsoddiad hwn a byddai'n rhaid ei gyflawni drwy fenthycu digefnogaeth ac unrhyw gyllid grant sydd ar gael iddo.



Cyflawni Sero Net

Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i'r Cyngor fod yn sero net erbyn 2030.
- Rhaid i brosiectau cyfalaf ystyried targedau carbon sero net.

Tudalen 155



Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Er mwyn cyflawni'r targed o sero net, bydd angen buddsoddi'n sylweddol yn:-
 - Adeiladau'r Cyngor - er mwyn lleihau'r defnydd o ynni ac i newid i ffynonellau ynni sy'n garbon niwtral;
 - Cerbydau - troi oddi wrth gerbydau petrol a disel;
 - Tai Cyngor – trosi pob eiddo i fod yn garbon niwtral lle bo'n bosibl / hyfyw;
 - Teithio cynaliadwy;
 - Datblygu isadeiledd gwefru cerbydau trydan;
 - Gwellu bioamrywiaeth ar dir y Cyngor;
 - Sicrhau bod yr holl adeiladau newydd wedi'u dylunio i fod yn garbon niwtral.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol, ac nid oes gan y Cyngor unrhyw gyllid craidd ar gyfer cyflawni'r amcan hwn.
- Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu prosiectau a gwneud bid am gyllid grant a all ddarparu prosiectau pan dderbynnir y cyllid grant.
- Bydd y Cyfrif Refeniw Tai yn darparu cyllid er mwyn symud tuag at ddarparu stoc dai'r Cyngor yn carbon niwtral.



Rhaglen Amddiffyn Rhag Llifogydd

Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r Cyngor wedi adnabod nifer o ardaloedd lle mae angen gwella amddiffyn rhag llifogydd.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n cyllido 85% o'r gost cyfalaf ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd drwy grantiau. Darperir y 15% sy'n weddill gan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen buddsoddi oddeutu £2m bob blwyddyn mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Golyga hyn y bydd yn rhaid i'r Cyngor ddarparu cyllid cyfatebol o £300k bob blwyddyn.
- Oherwydd y cyllid grant sylweddol a ellir ei ddenu drwy ddyrannu cyllid cyfatebol, bydd y strategaeth yn parhau i flaenoriaethu'r broses o ddyrannu cyllid cyfatebol o fewn y rhaglen gyfalaf.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Blaenoriaethu darparu cyllid cyfatebol er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.
- Blaenoriaethu gwariant ar gynlluniau sy'n amddiffyn y nifer uchaf o eiddo ar gyfer pob punt sy'n cael ei gwario.



Cyllid Grant gan Lywodraeth y DU

Pam fod hyn yn bwysig?

- Sicrhau bod Ynys Môn yn dal i elwa o'r cyllid grant sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sydd wedi cymryd lle cyllid grant yr UE.
- Sicrhau ein bod ni'n parhau i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n darparu buddion i drigolion a chymunedau Ynys Môn.

Tudalen 157



Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae Llywodraeth y DU wedi disodli'r cyllid grant blaenorol gan yr UE gyda chyllid grant lleol a rhanbarthol ychwanegol – sef, ar hyn o bryd, y Gronfa Ffyniant Bro, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Twf Gogledd Cymru.
- Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol i wneud bid am gyllid er mwyn cwblhau prosiectau sy'n gwella'r isadeiledd leol a'r economi leol.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Asesir y broses o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor fel cyllid cyfatebol ar sail achos fesul achos, gan ystyried pwysigrwydd y prosiect ar gyfer Ynys Môn a Gogledd Cymru, y buddion posibl sy'n deillio o gwblhau'r prosiect a'r cydbwysedd rhwng cyllid cyfatebol a chyllid grant.
- Oni bai am yr ymrwymadau presennol, nid oes unrhyw ymrwymadau cyllid cyfatebol newydd wedi'u gwneud ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2028.



Isadeiledd ac Offer TG mewn Ysgolion

Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r ffordd y mae ysgolion yn darparu addysg wedi newid, ac mae TG yn chwarae mwy o ran yn y ddarpariaeth addysg ac o ran rheoli ysgolion.
- Mae buddsoddi mewn isadeiledd ac offer TG ar gyfer disgyblion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn parhau i wella a moderneiddio'r ddarpariaeth addysg.

Tudalen 158




Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy gynllun Grant HWB. Mae hyn wedi caniatáu diweddaru isadeiledd TG mewn ysgolion a phrynu dyfeisiau ar gyfer disgyblion unigol.
- Mae amod y grant HWB yn gofyn fod y Cyngor yn ymrwymo i ddisodli'r offer a brynwyd drwy'r grant pan ddaw i ddiwedd ei oes defnyddiol. Bydd angen oddeutu £2.8m o wariant erbyn 2029/30 i wneud hyn, a bydd angen buddsoddiad sylweddol pellach yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Mae'r Cyngor hefo £0.46m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido peth o'r gost, a bwriadwyd gwneud cyfraniad blynyddol o'r gyllideb refeniw bob blwyddyn er mwyn cynyddu lefel y gronfa wrth gefn yma. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau ariannol presennol yn golygu

bod y cyfraniad hwn wedi dod i ben yn 2023/24

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Datblygu cytundeb lefel gwasanaeth gweithredol rhwng chydranddeiliaid i gyllido'r buddsoddiad angenrheidiol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Edrych ar opsiynau amgen i gyllido'r buddsoddiad angenrheidiol.



Eiddo Buddsoddi

Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae gan y Cyngor nifer o eiddo sy'n cael eu gosod ar sail fasnachol ac sy'n cynhyrchu incwm blynyddol ar gyfer y Cyngor. Maent yn cynnwys unedau diwydiannol, swyddfeydd, unedau manwerthu a mân-ddaliadau.

Tudalen 159
Mae'r eiddo yma'n darparu llety gwerthfawr i gefnogi busnesau lleol ac maent yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi yn yr economi leol.



Beth fyddwn ni'n ei wneud?


- Mae'r Cyngor wedi dilyn strategaeth o ddatblygu unedau newydd drwy gyllid grant, yn bennaf gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau diweddar o ddatblygiadau yn cynnwys unedau newydd ym Mhenrhos, Caergybi, ac unedau yn Ystâd Ddiwydiannol Bryn Cefni.
- Ceisio datblygu unedau newydd yng Ngogledd Ynys Môn a Llangefni, gydag amcangyfrif o fuddsoddiad o £12m, ond nid yw cyllid wedi'i sicrhau eto.
- Rhwng 2010 a 2015, cafwyd gwared ar nifer o fân-ddaliadau, ac fe unwyd tir er mwyn creu unedau mwy o ran maint a hyfywedd. Ail-fuddsoddwyd y derbyniadau cyfalaf o werthiant yr eiddo hyn er mwyn diweddarau'r eiddo a oedd yn weddill. Fodd bynnag, nid yw'r ffynhonnell hon o gyllid ar gael bellach.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Mae Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn nodi'n bwriad ar gyfer ein gwahanol ystadau ac asedau a bydd hyn yn cael ei fwydo i mewn i'r gyllideb gyfalaf.
- Byddai'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio ei gyllid cyfalaf craidd er mwyn buddsoddi yn yr eiddo hyn, yn ogystal â chyllid grant daw ar gael neu fenthycha digefnogaeth.



Tai Cymdeithasol a Fforddiadwy



Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r Cyngor yn darparu tai ar gyfer oddeutu 4,000 o denantiaid ar hyn o bryd, ac mae'n darparu llety fforddiadwy i drigolion mwyaf bregus Ynys Môn.
- Tudalen 160 Mae'r galw am lety rhent isel, fforddiadwy o safon ar Ynys Môn yn parhau i gynyddu. Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i fuddsoddi yn ei stoc dai presennol a chynyddu'r stoc hwnnw er mwyn parhau i gwrdd â'r galw cynyddol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Parhau i ddatblygu, neu ail-brynu, 45 uned bob blwyddyn ac, yn ogystal, buddsoddi yn y ddarpariaeth gofal ychwanegol newydd, gydag uned 40 gwely a gynllunir i'w agor yn 2026/27.
- Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ei stoc bresennol er mwyn sicrhau bod eiddo'n parhau i gynnal safon SATC, a bod unrhyw waith i ddiweddarau eiddo nad ydynt wedi'u diweddarau hyd yma yn digwydd pan fydd yr eiddo ar gael.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Defnyddio asedau ariannol y Cyfrif Refeniw Tai i gyllido'r buddsoddiad sydd ei angen.
- Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn gyfrif sydd wedi'i glustnodi. Cyllidir gwariant cyfalaf drwy'r waged blynyddol a gyflawnir drwy'r cyfrif refeniw, y grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru, balansau cronfeydd wrth gefn presennol y CRT a drwy fenthycia digefnogaeth.
- Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd gwblhau 3 prif brawf ariannol cyn ei roi ar waith. Mae hyn yn sicrhau fod unrhyw fenthyciad yn fforddiadwy a bod modd ei gyllido drwy incwm rhentu yn y dyfodol.
- Mae Cynllun Busnes 30 mlynedd y CRT yn amcanu y bydd £67m yn cael ei fuddsoddi yn y stoc bresennol, a bydd £45m yn cael ei fuddsoddi yn natblygiad eiddo newydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf.
- Mae'r Cynllun Busnes wedi gosod cap ar fenthycia, sef 6.5 gwaith swm yr incwm rhent.



Crynodeb o Wariant Cyfalaf 2025/26 hyd at 2029/30

	Achos Sylfaen £'m	Uchelgeisiol £'m	Delfrydol £'m
Cynnal a Chadw Asedau Presennol	25.86	36.54	55.42
Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	0.15	106.86	116.86
Gwelliannau i Gyfleusterau Hamdden	1.50	3.50	36.50
Rheoli Gwastraff	9.63	37.66	45.72
Cyflawni Sero Net	5.16	13.97	15.16
Rhaglen Amddiffyn rhag Llifogydd	0.11	4.11	10.11
Isadeiledd / Offer TG mewn Ysgolion	0.62	2.74	2.84
Eiddo Buddsoddi	0.48	12.48	12.48
Ffyniant Bro	7.80	7.80	7.80
Cyfrif Refeniw Tai	87.90	118.41	145.48
CYFANSWM Y GWARIANT	139.21	344.07	448.37

Tudalen 161

- Mae'r Achos Sylfaen yn defnyddio'r cyllid sydd wedi'i sicrhau y gwyddys amdano. Mae'r Delfrydol yn cyfeirio at y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cyflawni holl amcanion y Cyngor, a dwyn ynghyd yr holl asedau presennol i gyflwr derbyniol.
- Mae'r Uchelgeisiol yn defnyddio lefel o fenthycha digefnogaeth a all fod yn fforddiadwy os, a phryd, fydd sefyllfa cyllideb refeniw'r Cyngor yn gwella.
- Gall cyllid grant, pan fydd wedi'i sicrhau, ganiatáu i'r Cyngor ddisodli benthyciadau â grantiau a chaniatáu iddo symud o'r Achos Sylfaen i'r Uchelgeisiol ar gost refeniw is, neu ganiatáu iddo symud o'r Uchelgeisiol i'r Delfrydol.
- Mae'n bosib y bydd cyllid grant arall hefyd ar gael ar gyfer prosiectau eraill, a byddant yn cael eu cynnwys yn y gyllideb gyfalaf pan fydd y cyllid hwnnw wedi cael ei sicrhau ac, felly, maent wedi'u hepgor o'r tabl hwn.

Crynodeb ar Gyllido Gwariant Cyfalaf 2025/26 hyd at 2029/30

Tudalen 162

	Achos Sylfaen £'m	Uchelgeisiol £'m	Delfrydol £'m
Benthyca â Chefnogaeth	11.67	11.67	11.67
Grant Cyfalaf Cyffredinol	13.31	13.31	13.31
Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Benthyca â Chefnogaeth	0.00	12.55	16.90
Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Benthyca Digefnogaeth	0.15	10.23	13.73
Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Grant Llywodraeth Cymru	0.00	6.18	8.32
Cyllid Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM)	0.00	77.90	77.90
Grantiau Eraill gan Lywodraeth Cymru	5.53	53.50	59.68
Grantiau Ail-gylchu Gwastraff	9.63	9.63	9.63
Derbyniadau Cyfalaf	0.50	1.30	1.30
Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig	2.42	3.62	4.05
Cyllid Ffyniant Bro	7.78	7.78	7.78
Lwfans Atgyweiriadau Mawr y CRT	13.45	13.45	13.45
Grantiau Eraill y CRT	20.19	32.40	38.40
Cronfeydd Wrth Gefn a Gwarged Blynnyddol y CRT	28.49	28.49	28.49
Benthyca Digefnogaeth – Cronfa Gyffredinol	0.30	17.97	78.61
Benthyca Digefnogaeth – CRT	25.79	44.09	65.15
CYFANSWM Y CYLLID	139.21	344.07	448.37

Effaith Gwariant Cyfalaf ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) a Benthycia Allanol

	Achos Sylfaen		Uchelgeisiol		Delfrydol	
	GCC £'m	Benthycia £'m	GCC £'m	Benthycia £'m	GCC £'m	Benthycia £'m
2025/26	154.39	124.70	154.39	124.70	154.39	124.70
2026/27	162.07	132.90	167.05	137.91	173.14	144.11
2027/28	171.07	141.79	183.93	154.80	205.37	176.73
2028/29	174.13	146.76	202.45	175.53	252.42	226.89
2029/30	176.23	149.52	215.74	189.95	293.59	270.62

- Mae effaith yr uchod ar derfyn awdurdodedig a ffin weithredol y Cyngor wedi'i nodi yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor.

Goblygiadau Refeniw o Wariant Cyfalaf – Cronfa Gyffredinol

		Achos Sylfaen		Uchelgeisiol		Delfrydol	
	Gwariant Refeniw Net (GRN) Amcangyfrifedig £'m	DRI a Llog £'m	DRI a Llog i GRN %	DRI a Llog £'m	DRI a Llog i GRN %	DRI a Llog £'m	DRI a Llog i GRN %
2025/26	195.23	5.10	2.61%	5.10	2.61%	5.10	2.61%
2026/27	201.09	5.20	2.59%	5.28	2.62%	5.50	2.73%
2027/28	206.12	5.24	2.54%	5.58	2.71%	6.47	3.14%
2028/29	210.24	5.32	2.53%	6.36	3.02%	8.74	4.16%
2029/30	214.45	5.32	2.48%	6.82	3.18%	10.62	4.95%

- Tybir y bydd y gwariant refeniw net yn cynyddu 3% bob blwyddyn o 2025/26, gan ddisgyn i 2% erbyn 2028/29.
- Mae'r DRI yn cael ei gyfrifo ar sail Polisi DRI cyfredol y Cyngor – gweler y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Ni fyddai'r costau DRI a Llog ychwanegol yn cael eu cyllido drwy Gyllid Allanol Cyfun, a byddai angen cynnydd yn y Dreth Gyngor i'w gyllido.
- Gan ystyried fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r dull blwydd-dal i gyfrifo'r ffi DRI, mae'r ffi DRI yn cynyddu'n flynyddol, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y Dreth Gyngor i gyllido'r costau refeniw blynyddol ychwanegol.

Goblygiadau Refeniw o Wariant Cyfalaf – Cyfrif Refeniw Tai

	Achos Sylfaen			Uchelgeisiol			delfrydol		
	Amcangyfrif Incwm Rhent Net (IRhN) £'m	DRI & Llog £'m	DRI & Llog i IRhN %	Amcangyfrif Incwm Rhent Net £'m	DRI & Llog £'m	DRI & Llog i IRhN %	Amcangyfrif Incwm Rhent Net £'m	DRI & Llog £'m	DRI & Llog i IRhN %
2025/26	23.39	1.11	4.74%	23.39	1.11	4.74%	23.39	1.11	4.74%
2026/27	23.96	1.50	6.28%	24.21	1.70	7.04%	24.21	1.89	7.80%
2027/28	24.54	2.02	8.24%	25.03	2.39	9.56%	25.18	2.87	11.40%
2028/29	25.62	2.26	8.83%	26.36	2.80	10.63%	26.66	3.58	13.41%
2029/30	25.76	2.45	9.50%	26.74	3.15	11.77%	27.20	4.21	15.48%

- Mae'r incwm rhent net yn unol â'r Cynllun Busnes CRT.
- Mae'r DRI yn cael ei gyfrifo ar sail Polisi DRI cyfredol y Cyngor – gweler y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Gan ystyried fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r dull blwydd-dal i gyfrifo'r ffi DRI, mae'r ffi DRI yn cynyddu'n flynyddol, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y Dreth Gyngor i gyllido'r costau refeniw blynyddol ychwanegol.

Blaenoriaethu Gwariant Cyfalaf a Gosod Cyllidebau Cyfalaf Blynyddol

- Bydd cyllidebau blynyddol yn cael eu gosod i gynnal asedau presennol a bydd y cyllid yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael drwy'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthycia â Chefnogaeth.
- Bydd y gwasanaethau'n cael eu gwahodd i gyflwyno bid am gyllid ar gyfer prosiectau un tro. Bydd y bidiau'n cael eu hasesu o ran:-
 - Y modd y maent yn cyfrannu at yr amcanion yng Nghynllun y Cyngor;
 - A ydynt yn cyfrannu at liniaru unrhyw un o risgiau corfforaethol y Cyngor;
 - Effaith y prosiect ar fuddsoddi cyfalaf yn y dyfodol;
 - Effaith y prosiect ar gostau refeniw yn y dyfodol h.y. fydd costau refeniw'n cynyddu ta'n gostwng;
 - A fydd y prosiect yn cael ei gyllido'n rhannol drwy gyllid grant ac, os felly, faint.
- Mae'r cyllidebau cyfalaf ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu a'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu llunio y tu allan i'r broses hon.

Monitro a Rheoli Gwariant a Benthycha Cyfalaf

Mae Gwariant Cyfalaf a'r benthychiadau perthnasol yn cael eu monitro a'u rheoli gan y Cyngor, fel a ganlyn:-

- Y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Benthycha Darbodus - yn cael eu sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn cael eu cynnig gan y Pwyllgor Gwaith a'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn;
- Cyflwynir adroddiadau rheoli'r trysorlys blynyddol a bob hanner blwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn;
- Cyflwynir adroddiadau Monitro Gwariant Cyfalaf Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a'r Panel Sgriwtini Cyllid;
- Cynigir Cyllideb Cyfalaf Blynyddol gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe'i cymeradwyir gan y Cyngor llawn.

Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer y swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys o fewn y Cyngor yn eistedd gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, a gefnogir gan weithwyr cyllid proffesiynol, cymwys a phrofiadol, gan gynnwys y Rheolwr Cyfrifeg, Rheolwr Cyllid a Chyfrifydd Cyfalaf.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyflogi MUFG Corporate Markets Treasury Limited i ddarparu cyngor arbenigol ar reoli'r trysorlys.

Mae Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar reoli'r trysorlys sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau.

Strategaeth Buddsoddi Rheoli'r Trysorlys

- Mae Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor wedi ei nodi yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blynyddol, ond fe'i crynhoir fel a ganlyn:-
 - Mae arian dros ben yn cael ei fuddsoddi gyda sefydliadau ariannol sydd â'r statws credyd uchaf fel y nodir yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.
 - Mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud drwy sicrhau'r egwyddorion diogelwch, hylifedd ac elw, yn y drefn honno. Nid yw buddsoddiadau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau'r elw mwyaf yn unig. Adroddir ar fuddsoddiadau'n chwarterol drwy'r adroddiadau diweddarau Rheoli'r Trysorlys.
 - Ni fydd buddsoddiadau ariannol yn cael eu cyllido drwy fenthycu ychwanegol.
 - Bydd y Cyngor yn cadw isafswm balansau arian parod sy'n cyfateb i'r lefel gytunedig o falansau cyffredinol, sydd ar hyn o bryd yn 5% o gyllideb gwariant refeniw net y Cyngor, sy'n £9.75m ar gyfer 2025/26.
 - Mae gan y Cyngor nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai rheoli'r trysorlys ar ffurf eiddo buddsoddi (eiddo manwerthu, swyddfeydd ac unedau masnachol) sy'n cynhyrchu incwm rhent blynyddol, er nad yw'r incwm a gynhyrchir yn sylweddol yn nhermau incwm blynyddol cyffredinol y Cyngor. Nid oes bwriad i werthu'r eiddo hyn yn y dyfodol agos.
 - Bydd y Cyngor yn cymryd mantais o unrhyw gyllid grant sydd ar gael iddo er mwyn datblygu mwy o eiddo buddsoddi, ond ni chymerir unrhyw fenthycu sylweddol ychwanegol er mwyn datblygu rhagor o unedau.

Risgiau o ran Darparu'r Strategaeth Gyfalaf a'r Gyllideb Cyfalaf



Crynodeb o'r Canfyddiadau

- Mae gofyniad cyfalaf y Cyngor i foderneiddio a diweddarau asedau presennol ac i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn fwy na £440m dros y 5 mlynedd nesaf, ac mae gallu'r Cyngor i gyflawni wedi'i gyfyngu oherwydd diffyg cyllid sydd heb ei neilltuo gan lywodraeth ganolog.
- Mae gallu'r Cyngor i ymgymryd â benthyca digefnogaeth, yn unol â gofynion y Côt Darbodus, wedi'i gyfyngu ar sail fforddiadwyedd, gan y byddai'n gosod cost annerbyniol ar dreth dalwyr yn y dyfodol.
- Mae'r isafswm cyllid sydd ar gael drwy fenthyca â chefnogaeth a'r grant cyfalaf cyffredinol yn annigonol er mwyn cyllido'r isafswm sydd ei angen i gynnal asedau presennol y Cyngor i lefel sy'n galluogi'r asedau hynny i gael eu gweithredu'n ddiogel ac effeithiol.
- Er mwyn cyflawni ei amcanion corfforaethol, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau cyllid grant ychwanegol, ond efallai na fydd hyn yn ddigonol er mwyn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen tuag at gyflawni ei amcanion.
- Er mwyn symud o'r sefyllfa isaf, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried ymgymryd â benthyca digefnogaeth cyfyngedig, ond mae'n rhaid i hyn fod ar lefel fforddiadwy, gan ystyried yr heriau ariannol presennol sy'n wynebu'r Cyngor.
- Efallai y bydd ffactorau allanol, megis deddfwriaeth newydd neu addasedig, lefelau perfformiad newydd neu'r angen i osgoi methiannau gwasanaeth, yn dwysau'r angen i symud o'r sefyllfa isaf n gynt na'r hyn a ystyrir yn ddymunol neu fforddiadwy.
- Gellir osgoi buddsoddiad cyfalaf ychwanegol drwy resymoli asedau ac ymestyn bywyd asedau presennol.
- Rhoddir blaenoriaeth i gyllido'r prosiectau hynny sy'n cyflawni prif flaenoriaethau'r Cyngor orau e.e. y rhaglen cymunedau dysgu cynaliadwy.
- Darperir cyllid cyfatebol lle mae'r prosiect yn cael ei gyllido'n bennaf gan grantiau allanol ac os yw'r prosiect yn unol ag amcanion corfforaethol y Cyngor.
- Bydd prosiectau'r CRT yn parhau i gael eu hasesu ar wahân i brosiectau Cronfa'r Cyngor.

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	18 Chwefror 2025
Pwnc / Testun:	Adolygu Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn
Aelod portffolio:	Cynghorydd Dafydd Roberts
Pennaeth gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)
Awdur yr adroddiad:	Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg
Ffôn:	01248 75 25 20
E-bost:	FfreuerOwen@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau lleol:	Perthnasol i bob aelod etholedig

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

I argymhell i'r Cyngor llawn ei fod yn mabwysiadu'r polisi iaith Gymraeg diwygiedig.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r polisi iaith Gymraeg yn ateb gofyn statudol i gyhoeddi dogfen yn egluro sut y byddwn yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Am y rheswm hwn caiff ei gynnwys yn fframwaith polisi'r cyfansoddiad ac ni ystyriwyd opsiynau eraill o ganlyniad.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â'r cyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith argymhell unrhyw newidiadau i'r polisi iaith Gymraeg i'r Cyngor llawn.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Argymhellir diwygio'r polisi ac mae angen cytundeb y Cyngor llawn i hynny yn unol â'r cyfansoddiad. Cefnoga'r polisi drafft ymrwymadau ehangach y Cyngor i'r iaith Gymraeg, yn benodol:

- Cynllun y Cyngor 2023-28: Amcan strategol yr iaith Gymraeg
- Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'n cadarnhau hawl dinasyddion Ynys Môn i ddefnyddio eu dewis iaith – Cymraeg neu Saesneg – wrth ddelio â'r Cyngor. Mae hefyd yn cadarnhau hawl swyddogion, ac eraill sy'n rhan o weinyddiaeth fewnol y Cyngor, i ddefnyddio'r Gymraeg a manteisio ar
---	--	---

		gefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae penodi siaradwyr Cymraeg cymwys i weithlu'r Cyngor yn angen hir dymor, ac mae'r polisi hwn yn cefnogi ein gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a penodi.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Amherthnasol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	Amherthnasol.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Mae rhannau'r polisi drafft sy'n ymwneud â cynnig gwasanaethau cyhoeddus yn adlewyrchu gofynion statudol safonau'r Gymraeg ac yn gyson â'r polisi iaith Gymraeg cyfredol. Am y rheswm hwn ni ymgynghorwyd yn gyhoeddus ar gynnwys y polisi drafft. Ond, ymgynghorwyd â chynrychiolwyr etholedig ar wahanol gamau o'r gwaith llunio.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Cynhaliwyd asesiad o effaith mabwysiadu'r polisi drafft ar gydraddoldeb. Adnabuwyd effaith gyffredinol gadarnhaol ar y grwpiau gwarchodedig yn bennaf oherwydd: • bod y polisi drafft yn cadarnhau hawl pobl i dderbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg); • bod ei bwyslais cynhwysol (yr ymrwymiad i gynnig dewis iaith, a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnig gwasanaethau cyhoeddus), yn golygu nad yw'r polisi drafft yn allgau unigolion di-Gymraeg; • bod y rhannau sy'n ymwneud â'n defnydd mewnol o'r iaith yn ystyriol o swyddogion ac eraill sy'n ddihyder eu Cymraeg.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai	Fel y nodir uchod, hyderir bod pwyslais cynhwysol y polisi drafft, yr ymrwymiad i gynnig dewis iaith, a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnig gwasanaethau cyhoeddus, yn golygu nad

	sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	yw'r polisi'n effeithio'n andwyol ar unigolion sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Cynhaliwyd asesiad o effaith mabwysiadu'r polisi drafft ar y Gymraeg. Adnabuwyd effaith gyffredinol gadarnhaol ar statws yr iaith a chyfleoedd i bobl ei ddefnyddio. Mae'r newidiadau i'r polisi cyfredol yn cynrychioli ymdrech i gryfhau ein cydymffurfriad â safonau'r Gymraeg, ac ymrwymadau strategol eraill. Cynigant eglurder i ddinasyddion, swyddogion ac eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor, sut y byddwn yn defnyddio ac yn ystyried yr iaith mewn gwahanol gyd-destunau. Cynhwysant hefyd gamau i wella a hwyluso defnydd o wasanaethau Cymraeg, a defnyddio ein dylanwad i hyrwyddo'r iaith yn allanol ac yn ein gweinyddiaeth. Cyfranna'r polisi drafft at amcanion Cynllun y Cyngor a'n strategaeth hybu'r Gymraeg (yn benodol, ail faes blaenoriaeth y strategaeth, sef y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith.)

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Tîm Arwain (TA) (gorfodol)	Ystyriodd y TA y polisi drafft yn ei gyfarfod 13 Ionawr 2025 a chytunodd i'w roi gerbron pwyllgorau perthnasol.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Gweler uchod.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Gweler uchod.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Cymeradwywyd y polisi drafft gan Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg sy'n cynnwys cynrychiolaeth o adran AD y Cyngor.
5	Eiddo	Amherthnasol.
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	Cyfrannodd swyddogion perthnasol at gymalau'r polisi drafft sy'n ymwneud â gwasanaethau digidol y Cyngor.
7	Caffael	Amherthnasol.
8	Sgriwtini	Ystyriwyd y polisi drafft gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2025.

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?

9	Aelodau Lleol	Cyfrannodd yr aelod portffolio perthnasol a Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg (sy'n cynnwys cadeiryddion a cynrychiolwyr o'r ddau bwyllgor craffu) at y gwaith o lunio'r polisi drafft. Cafodd y drafft cyfredol ei dderbyn gan y grŵp 21 Ionawr 2025.
---	---------------	--

F - Atodiadau:

Polisi Iaith Gymraeg Drafft (Fersiwn 4.0)

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):

- [Cyngor Sir Ynys Môn, Polisi Iaith Gymraeg \(2016\)](#)
- [Cyngor Sir Ynys Môn, Strategaeth Iaith Gymraeg 2021-26](#)
- [Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun y Cyngor 2023-28](#)
- Asesiad effaith cydraddoldeb
- Asesiad effaith iaith Gymraeg



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cyngor Sir Ynys Môn

Polisi Iaith Gymraeg Drafft

Fersiwn 4.0 (04/2025)



Ynglŷn â'r polisi hwn

Dyma bolisi iaith Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor). Mae'n nodi sut y bydd y Cyngor yn defnyddio ac yn ystyried yr iaith mewn gwahanol gyd-destunau wrth gynnal ei fusnes. Mae'n berthnasol i aelodau'r cyhoedd ac eraill sy'n delio â'r Cyngor, yn ogystal â swyddogion, ac aelodau etholedig a lleyg. (Ceir polisi ar wahân yn ymwneud â defnydd o'r Gymraeg yn ein hysgolion.)

Caiff ei gyhoeddi yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor a'r dyletswyddau a osodir ar y Cyngor dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Hanes adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o newidiadau
1.0	Ebrill 2016	Drafft cyntaf i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith
2.0	Mai 2016	Drafft diwygiedig i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn
3.0	Mai 2016	Polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn
4.0	Ebrill 2025	

Dyddiad adolygu nesaf

Caiff y polisi hwn ei adolygu yn ôl yr angen. Yn unol â fframwaith polisi'r cyfansoddiad, caiff adolygiadau o'r polisi eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn.

Manylion cyswllt

Gwasanaethau Democrataidd
Busnes y Cyngor
Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 752 520

E-bost: Cymraeg@ynysmon.llyw.cymru

www.ynysmon.llyw.cymru

Mae croeso i chi gysylltu â'r Cyngor yn Gymraeg neu Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

Fformatau eraill

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn mewn fformatau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt hyn.

Dogfennau cysylltiedig

Cynllun y Cyngor; Strategaeth Hybu'r Gymraeg; Safonau'r Gymraeg; Safonau'r Gymraeg ar gyfer dyrannu grantiau; Enwau lleoedd ar Ynys Môn; Polisi ar enwi a rhifo strydoedd a thai. I gyd ar gael ar ein gwefan, yn ein safleoedd, a thrwy gais.

Cynnwys

Rhan 1: Gwasanaethau cyhoeddus	3
1. Gohebiaeth ysgrifenedig	3
2. Galwadau ffôn	4
3. Cyfarfodydd a digwyddiadau.....	4
4. Cyhoeddusrwydd a hysbysebu	5
5. Deunyddiau ysgrifenedig	6
6. Gwefannau a gwasanaethau digidol	7
7. Arwyddion.....	8
8. Derbynfeydd	9
9. Grantiau a chefnogaeth ariannol.....	9
10. Contractau	10
11. Hunaniaeth y Cyngor a'r ardal leol.....	12
Rhan 2: Llunio polisi ac asesu effaith ar y Gymraeg.....	14
12. Asesu effaith.....	14
13. Ymgynghori ac ymgysylltu	15
Rhan 3: Defnydd mewnol o'r Gymraeg.....	16
14. Cyfarfodydd a chyfathrebu mewnol.....	16
15. Gwasanaethau mewnol	16
16. Hyfforddiant a chynllunio gweithlu.....	17
17. Recriwtio a phenodi	19
18. Aelodau etholedig a lleyg.....	20
19. Gwasanaeth cyfieithu	20
Rhan 4: Atebolrwydd a materion eraill	22
20. Cyfrifoldeb am weithredu'r polisi	22
21. Adroddiad blynyddol	22
22. Comisiynydd y Gymraeg.....	22
23. Cwynion.....	22

Rhagair

Mae'r polisi hwn yn atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg a'r flaenoriaeth a roddwn iddi. Mae'r iaith yn un o amcanion strategol Cynllun y Cyngor ac mae ein strategaeth hybu'r Gymraeg yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer cynyddu defnydd o'r iaith gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau ac o fewn ein gweinyddiaeth.

Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, rhaid i ni gydymffurfio â dyletswyddau statudol penodol mewn perthynas â'r iaith. Mae'r polisi hwn yn cyflawni ein dyletswydd i gyhoeddi dogfen sy'n esbonio sut y byddwn yn cydymffurfio â'r gwahanol safonau sydd wedi eu gosod arnom. Mae manylion yr union safonau hynny i'w gweld yn ein hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar ein gwefan, a thrwy gais. Lluniwyd y polisi hwn i gyd-fynd â'r safonau sydd wedi eu gosod arnom ac mae rhifau'r safonau perthnasol wedi eu cynnwys ym mhenawdau'r ddogfen.

Mae'r polisi hwn hefyd yn gweithredu fel ein polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol.

Datganiad polisi

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod statws swyddogol yr iaith Gymraeg yng Nghymru ac yn parchu rhyddid unigolion i ddefnyddio'r iaith yn ddi-rwystr. Mae'n gweithredu'n unol ag egwyddor sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Trwy weithredu'r polisi hwn bydd y Cyngor yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth ddarparu ei wasanaethau. Gall bobl Ynys Môn, ac eraill, ddewis defnyddio'r naill iaith wrth ddelio â ni, a byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod y dewis iaith hwnnw'n cael ei nodi a'i barchu.

Byddwn yn ystyried effaith ein penderfyniadau ar y Gymraeg ac yn defnyddio ein dylanwad i gymell eraill i ystyried yr iaith wrth i ni gydweithio. Bydd gofyn cadarn ar drydydd partïon sy'n gweithredu ar ein rhan i gydymffurfio â gofynion perthnasol safonau'r Gymraeg a'r polisi hwn.

Caiff y Gymraeg ei defnyddio ym mhob agwedd o weinyddiaeth y Cyngor. Ond, rydym yn cydnabod nad oes gan bob aelod o'n gweithlu'r hyder na'r sgiliau angenrheidiol i weithio'n gyfan gwbl drwy'r iaith. Byddwn yn cymryd camau i gynyddu ein defnydd mewnol o'r iaith a galluogi ein staff i fyw bywyd gwaith cyflawn trwy'r Gymraeg. Gwnawn hyn yn unol â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor â'n strategaeth hybu'r Gymraeg.

Mae'r adrannau sy'n dilyn yn egluro sut y byddwn yn defnyddio ac yn ystyried y Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Os cyfyd sefyllfa nad yw'n dod o dan y polisi hwn, dylid cyfeirio at ein hysbysiad cydymffurfio, neu geisio cyngor ein swyddogion polisi a'r Gymraeg gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar glawr y polisi.

Rhan 1: Gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r rhan hwn o'r polisi yn egluro sut y byddwn yn defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

1. Gohebiaeth ysgrifenedig

Safonau cyflenwi gwasanaethau 1, 4, 5, 6, 7¹

Egwyddorion cyffredinol:

- Mae croeso i bawb ohebu â'r Cyngor yn Gymraeg neu Saesneg.
 - Byddwn yn ymdrechu i gofnodi dewis iaith ac i ohebu â phobl yn unol â'r dewis hwnnw.
 - Byddwn yn cynnig yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.
-

- 1.1 Byddwn yn ateb gohebiaeth yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol ac yn unol â thargedau perthnasol.
- 1.2 Byddwn yn cychwyn gohebu'n bersonol yn newis iaith y derbynnydd. Os na wyddwn beth yw dewis iaith y derbynnydd, byddwn yn gohebu'n ddwyieithog.
- 1.3 Pan fyddwn yn gohebu'n bersonol ag aelod o'r cyhoedd yn dilyn sgwrs yn Gymraeg, ar y ffôn, neu wyneb i wyneb, byddwn yn gwneud hynny'n Gymraeg. Oni bai bod yr aelod o'r cyhoedd wedi mynegi nad oes angen ateb yn Gymraeg.
- 1.4 Bydd unrhyw ohebiaeth safonol a thorfol y Cyngor yn cael ei hanfon yn ddwyieithog. Bydd testun Cymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben testun Saesneg a bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, amlygrwydd ac ansawdd.
- 1.5 Pan fyddwn yn cychwyn gohebu â chorff cyhoeddus sy'n dod o dan safonau'r Gymraeg, byddwn yn gwneud hynny'n Gymraeg.
- 1.6 Bydd gohebiaeth, a deunyddiau'r Cyngor sy'n gwahodd ymateb, yn nodi'n glir bod croeso i bobl ddelio â ni'n Gymraeg neu Saesneg a bod yr un safon o wasanaeth ar gael yn y ddwy iaith.
- 1.7 Byddwn yn sicrhau bod ein gohebiaeth yn gywir. Anogir swyddogion i ddefnyddio meddalwedd gwirio sillafu ac i ysgrifennu mewn arddull glir sy'n addas ar gyfer eu cynulleidfa. Disgwylir iddynt ddefnyddio ein gwasanaethu cyfieithu lle bo angen.

¹ Cyngor Sir Ynys Môn, Safonau'r Gymraeg (2016). Ar gael yn www.ynysmon.llyw.cymru.

2. Galwadau ffôn

Safonau cyflenwi gwasanaethau 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 20, 21, 22

Egwyddor gyffredinol:

- Bydd croeso i bawb ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg wrth ffonio'r Cyngor.
-

- 2.1 Bydd galwyr i rifau ffôn y Cyngor, yn cynnwys llinellau cymorth, canolfannau galwadau a rhifau uniongyrchol, yn cael eu yn cyfarch yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- 2.2 Os nad yw swyddog yn gallu delio'n llawn ag ymholiad dros y ffôn yn Gymraeg, dylai egluro hynny wrth y galwr a chynnig trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr.
- 2.3 Bydd negeseuon peiriannau ateb ac unrhyw systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- 2.4 Ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hysbysebu rhifau ffôn a byddwn yn nodi ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.
- 2.5 Byddwn yn cymryd camau i sefydlu a chofnodi dewis iaith pobl pan yn eu ffonio am y tro cyntaf, ac yn parchu'r dewis hwnnw wrth eu ffonio yn y dyfodol.

3. Cyfarfodydd a digwyddiadau

Safonau cyflenwi gwasanaethau 23, 25, 27, 27A, 27CH, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 84, 86

Egwyddorion cyffredinol:

- Cymraeg yw iaith naturiol ein cyfarfodydd a'n digwyddiadau cyhoeddus ac bydd gan fynychwyr hawl i'w defnyddio.
 - Byddwn yn trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer mynychwyr di-Gymraeg.
-

- 3.1 Pan fyddwn yn gwahodd un person un unig i gyfarfod byddwn yn holi am eu dewis iaith ac yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, heb wasanaeth cyfieithu ar y pryd, os mai dyna yw eu dymuniad.
- 3.2 Pan fyddwn yn gwahodd mwy nac un person i gyfarfod nad yw'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, byddwn yn eu holi am eu dewis iaith ac yn trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg os oes angen.
- 3.3 Pan fyddwn yn cynnal cyfarfodydd sy'n ymwneud â llesiant unigolyn, ac sy'n cynnwys yr unigolyn, byddwn yn holi am eu dewis iaith. Byddwn yn cynnal y

cyfarfod yn Gymraeg, heb wasanaeth cyfieithu ar y pryd, os mai dyna yw eu dymuniad. Ni ddylid newid iaith y cyfarfod er lles swyddogion neu fynychwyr eraill.

- 3.4 Bydd gwahoddiadau i gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor yn ddwyieithog. Byddwn yn nodi ar ddeunydd hysbysebu a gwahoddiadau bod croeso i'r cyhoedd ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg yn ein cyfarfodydd.
- 3.5 Byddwn yn holi siaradwyr yn ein cyfarfodydd cyhoeddus am eu dewis iaith ymlaen llaw.
- 3.6 Byddwn yn cynnal ein cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg neu'n ddwyieithog a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael. Disgwylir i'r cadeirydd neu'r trefnydd roi arweiniad ar y defnydd iaith ar ddechrau'r cyfarfod. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn glir bod gwasanaeth cyfieithu ar gael, a bod gan fynychwyr hawl i ddefnyddio eu dewis iaith yn ystod y cyfarfod.
- 3.7 Ymdrechwn i sicrhau bod swyddogion y Cyngor sy'n cymryd rhan yn ein cyfarfodydd cyhoeddus yn defnyddio'r Gymraeg. Mewn sefyllfaoedd lle nad yw hyn yn bosib, byddwn yn sicrhau y gall mynychwyr eraill ddefnyddio'r iaith.
- 3.8 Bydd unrhyw ddeunydd sy'n cael ei arddangos gennym yn ein cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog. Bydd testun Cymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben testun Saesneg a bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, amlygrwydd ac ansawdd.
- 3.9 Bydd digwyddiadau'r Cyngor, a digwyddiadau cyhoeddus sydd wedi eu hariannu gennym o leiaf 50%, yn cael eu hysbysebu a'u cynnal yn ddwyieithog. Byddwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ein digwyddiadau.
- 3.10 Ceisiwn sicrhau bod pob cyfarfod neu gysylltiad wyneb i wyneb arall rhyngom ag aelodau'r cyhoedd – boed hynny yn y swyddfa, yn y cartref, ar safle ac ati – yn gallu digwydd yn Gymraeg. Mewn sefyllfa lle nad yw hyn yn bosib, dylai'r swyddog dan sylw geisio help cydweithiwr sy'n siarad Cymraeg.
- 3.11 Yn achos cyfarfodydd maes sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw, byddwn yn trefnu bod swyddogion sy'n bresennol yn gallu cynnig dewis iaith i fynychwyr eraill.
- 3.12 Bydd unrhyw gwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd fynychu yn cael ei gynnig gennym yn Gymraeg, oni bai ein bod wedi asesu nad oes angen ei gynnig yn Gymraeg. Nid yw hyn yn berthnasol i addysg sy'n cael ei darparu yn ein hysgolion.

4. Cyhoeddusrwydd a hysbysebu

Safon cyflenwi gwasanaethau 37

- 4.1 Bydd ein hymgyrchoedd, yn cynnwys ymgyrchoedd hysbysebu, cyhoeddusrwydd a marchnata, yn gwbl ddwyieithog. Yr unig eithriad fydd yn achos rhaglenni radio, teledu neu recordiadau eraill, lle bydd iaith y cynnwys yn dibynnu ar y cyfrwng dan sylw.

5. Deunyddiau ysgrifenedig

Safonau cyflenwi gwasanaethau 38, 40, 48, 49, 50, 50A, 50B, 51, 52, 55, 56, 69, 70

Egwyddorion cyffredinol:

- Bydd holl ddeunyddiau ysgrifenedig cyhoeddus y Cyngor ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
 - Byddwn yn trin y ddwy iaith yn gyfartal yn ein deunyddiau cyhoeddus.
-

- 5.1 Bydd unrhyw ddeunydd sy'n cael ei arddangos gennym yn gyhoeddus yn ddwyieithog.
- 5.2 Byddwn yn ceisio sicrhau bod deunydd cyrff a chwmnïau eraill a fydd, o dro i dro, yn cael ei arddangos yn ein safleoedd hefyd yn ddwyieithog.
- 5.3 Bydd holl ddeunyddiau ysgrifenedig cyhoeddus y Cyngor ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau print a deunyddiau digidol. Mae'r mathau o ddeunyddiau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Adroddiadau, strategaethau a chynlluniau
 - Rhaglenni, cofnodion a phapurau cyfarfodydd
 - Ffurflenni
 - Taflenni, llyfrynau a deunydd esboniadol
 - Poster, hysbysebion a deunyddiau marchnata
 - Datganiadau i'r wasg a'r cyfyngau
 - Hysbysiadau cyhoeddus a swyddogol
 - Dogfennau ymgynghori ac ymgysylltu
- 5.4 Byddwn yn ymdrechu i lunio deunyddiau print yn ddwyieithog mewn un dogfen. Bydd testun Cymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben testun Saesneg, neu gefn wrth gefn. Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, amlygrwydd ac ansawdd.
- 5.5 Lle nad yw'n bosib neu'n ymarferol i lunio deunydd print yn ddwyieithog, byddwn yn llunio fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, amlygrwydd ac ansawdd, ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Bydd yr un mor hawdd i gael gafael ar y deunydd yn y naill iaith.

- 5.6 Lle nad yw'n bosib llunio ffurflen yn ddwyieithog, bydd fersiynau yn y ddwy iaith yn un mor ddilys ac yn cael eu trin yn gyfartal.
- 5.7 Os byddwn yn llenwi rhan o ffurflen ar ran aelod o'r cyhoedd (er enghraifft, cyn ei hanfon er mwyn gwirio'r cynnwys neu er mwyn llenwi gweddill y ffurflen), byddwn yn mewnosod y wybodaeth yn Gymraeg ar y fersiwn Gymraeg, ac i'r gwrthwyneb.
- 5.8 Bydd fersiynau Saesneg o ddeunyddiau'r Cyngor yn nodi'n glir eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg, ac i'r gwrthwyneb.
- 5.9 Bydd ystyriaethau hygyrchedd, yn cynnwys hygyrchedd digidol, yn bwysig wrth i ni lunio deunyddiau. Disgwylir i swyddogion ddilyn canllawiau a gofyn cyngor cydweithwyr perthnasol er mwyn gwneud yn siŵr bod deunyddiau'r Cyngor yn cwrdd â safonau perthnasol.
- 5.10 Byddwn yn sicrhau bod ein deunyddiau cyhoeddus yn gywir ac yn cyd-fynd â chanllawiau arddull y Cyngor. Anogir swyddogion i ddefnyddio meddalwedd gwirio sillafu ac i ysgrifennu mewn dull clir, sy'n addas ar gyfer eu cynulleidfia. Disgwylir i swyddogion ddefnyddio ein gwasanaeth cyfieithu lle bo angen, a phrawf ddarllen deunyddiau cyhoeddus bob amser.

6. Gwefannau a gwasanaethau digidol

Safonau cyflenwi gwasanaethau 52, 55, 56, 57, 58, 59, 60

Egwyddorion cyffredinol:

- Bydd ein gwasanaethau digidol ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
 - Byddwn yn cynnig yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.
-

- 6.1 Bydd holl wybodaeth ein gwefan yn ddwyieithog, ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ein gwefan.
- 6.2 Byddwn yn cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr a bydd ffordd hwylus o symud rhwng tudalennau cyfatebol Cymraeg a Saesneg ein gwefan.
- 6.3 Bydd unrhyw ffurflenni neu holiaduron digidol ar ein gwefan yn cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr.
- 6.4 Bydd system reoli perthynas cwsmeriaid (CRM) ein gwefan yn holi defnyddwyr am eu dewis iaith. Bydd ymatebion i geisiadau drwy'r system yn cael eu hanfon yn unol â hynny.
- 6.5 Bydd unrhyw gyswllt arall ag aelodau'r cyhoedd trwy ein cyfryngau digidol yn digwydd yn unol â darpariaethau rhan un y polisi hwn.

- 6.6 Bydd holl wybodaeth y Cyngor ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog. Yn dibynnu ar y cyfrwng, bydd gennym naill ai:
- un cyfrif cyfryngau cymdeithasol sy'n rhannu gwybodaeth gyfatebol yn Gymraeg a Saesneg, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf; neu
 - dau gyfrif cyfryngau cymdeithasol cyfatebol, y naill yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg, fydd yn trin y ddwy iaith yn gyfartal.
- 6.7 Bydd apiau'r a pheiriannau hunanwasanaeth y Cyngor yn gweithio'n llawn yn ddwyieithog ac ni fyddant yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 6.8 Byddwn yn ystyriol o egwyddorion canllaw Comisiynydd y Gymraeg, Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg², wrth ddatblygu ein gwasanaethau digidol. Disgwylir i swyddogion ddilyn canllawiau fel ein llawlyfr caffael, a'r polisi cyhoeddi digidol a TG i sicrhau bod gwasanaethau digidol a gomisiynir ganddynt yn cyd-fynd â gofynion y polisi hwn. Ni ddylid newid, comisiynu na chyhoeddi gwasanaeth digidol heb fewnbnw a chefnogaeth y tîm Gwasanaethau Digidol.

7. Arwyddion

Safonau cyflenwi gwasanaethau 61, 62, 63,
Safonau gweithredu 141, 142, 143

Egwyddor gyffredinol:

- Bydd ein holl arwyddion yn ddwyieithog.
-

- 7.1 Bydd pob arwydd a osodir gennym mewn man cyhoeddus ac yn ein gweithleoedd yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys arwyddion a marciau ffyrdd.
- 7.2 Eithrir arwyddion sy'n arddangos enwau lleoedd unffurf Gymraeg. Mae ein polisi mewn perthynas ag enwau lleoedd, strydoedd ac ystadau wedi ei nodi yn adran 11 y polisi hwn.
- 7.3 Pan fo'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd ar arwydd, bydd y Gymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben testun Saesneg. Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, amlygrwydd ac ansawdd.
- 7.4 Lle nad yw'n bosib cynnwys y ddwy iaith ar un arwydd, byddwn yn gosod fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran

² Comisiynydd y Gymraeg, Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg (2016). Ar gael yn www.comisiynyddygyymraeg.cymru.

ffurf, maint, amlygrwydd ac ansawdd. Byddwn yn gosod yr arwydd Cymraeg uwchben neu i'r chwith o'r arwydd Saesneg.

- 7.5 Bydd testun Cymraeg ein harwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant. Anogir swyddogion i ddefnyddio meddalwedd gwirio sillafu ac i ddefnyddio iaith glir, sy'n addas ar gyfer eu cynulleidfa. Disgwylir i swyddogion ddefnyddio ein gwasanaeth cyfieithu lle bo angen, a phrawf ddarllen arwyddion bob amser.

8. Derbynfeydd

Safonau cyflenwi gwasanaethau 64, 67, 68, 87

Safon gweithredu 144

Egwyddorion cyffredinol:

- Bydd croeso i bawb ddefnyddio Cymraeg a Saesneg yn ein derbynfeydd.
 - Byddwn yn ei gwneud yn glir bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.
-

- 8.1 Byddwn yn cynnig gwasanaeth dwyieithog llawn yn ein derbynfeydd.
- 8.2 Byddwn yn arddangos arwyddion yn ein derbynfeydd i roi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.
- 8.3 Bydd swyddogion yn ein derbynfeydd yn gwisgo bathodyn iaith Gwaith er mwyn rhoi gwybod eu bod yn gallu rhoi gwasanaeth Cymraeg.
- 8.4 Bydd unrhyw gyhoeddiadau neu anerchiadau sain yn ein safleoedd yn cael eu gwneud yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

9. Grantiau a chefnogaeth ariannol

Safonau cyflenwi gwasanaethau 71, 72, 72A, 73, 75

Safon llunio polisi 94

Egwyddorion cyffredinol:

- Bydd croeso i bersonau ymgeisio am grantiau gan y Cyngor yn Gymraeg a Saesneg.
 - Byddwn yn trin y ddwy iaith yn gyfartal wrth ystyried ceisiadau am grantiau.
-

- 9.1 Bydd deunyddiau cyhoeddus sy'n ymwneud â dyfarnu grantiau gan y Cyngor ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac yn nodi bod croeso i bersonau wneud cais yn y naill iaith.
- 9.2 Byddwn yn trin ceisiadau am grant a gyflwynir yn y naill iaith yn gyfartal (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn

ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).

- 9.3 Byddwn yn cynnig dewis iaith i ymgeiswyr am grantiau, yn cynnwys mewn cyfweiliadau fel rhan o'n hasesiad o'u cais.
- 9.4 Lle'n briodol, byddwn yn gosod amodau ar sefydliadau, cyrff neu unigolion, nad ydynt yn cynrychioli cyrff cyhoeddus ond sydd yn derbyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor, i ddarparu eu wasanaethau cyhoeddus yn ddwyieithog neu'n Gymraeg.
- 9.5 Yn achos unrhyw gefnogaeth ariannol sy'n cael ei gynnig gan y Cyngor i sefydliadau, cyrff neu unigolion, bydd cyfrifoldeb ar y pennaeth gwasanaeth perthnasol i annog derbynnydd y nawdd i ddefnyddio cyfran ohono i hyrwyddo'r Gymraeg yn ei weithgareddau. Bydd y pennaeth gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am fonitro sut mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo.
- 9.6 Byddwn yn sicrhau bod effaith dyfarnu grantiau ar y Gymraeg yn cael ei ystyried trwy weithredu polisi a elwir yn Safonau'r Gymraeg ar gyfer dyfarnu grantiau: Canllawiau corfforaethol. Mae'r polisi hwn ar gael ar gael ar ein gwefan a thrwy gais.

10. Contractau, cytundebau a phartneriaethau

Safonau cyflenwi gwasanaethau 76, 77, 77A, 80

Egwyddorion cyffredinol:

- Bydd croeso i bersonau dendro am gontract efo'r Cyngor yn Gymraeg a Saesneg.
 - Byddwn yn trin y ddwy iaith yn gyfartal wrth gyhoeddi deunyddiau ac ystyried ceisiadau am dendrau.
 - Defnyddiwn ein dylanwad i gymell ac annog eraill i weithredu i'r un safonau â ni.
-

- 10.1 Byddwn yn ystyriol o egwyddorion canllaw Comisiynydd y Gymraeg, Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus: Ystyried y Gymraeg³, wrth osod contractau gyda'r Cyngor. Disgwylir i swyddogion ddilyn canllawiau, fel ein llawlyfr caffael, i sicrhau bod contractau a osodir ganddynt yn cyd-fynd â gofynion y polisi hwn.
- 10.2 Bydd deunyddiau cyhoeddus sy'n ymwneud â thendro am gontract efo'r Cyngor ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac yn nodi bod croeso i bersonau wneud cais yn y ddwy iaith.

³ Comisiynydd y Gymraeg, Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus: Ystyried y Gymraeg (2016). Ar gael yn www.comisiynyddygyymraeg.cymru.

- 10.3 Byddwn yn trin tendrau a gyflwynir yn y naill iaith yn gyfartal (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).
- 10.4 Byddwn yn cynnig dewis iaith i dendrwyr, yn gynnwys mewn cyfweiliadau fel rhan o'n hasesiad o'u tendr.
- 10.5 Bydd unrhyw gytundeb neu drefniant a wnawn gyda thrydydd parti, ac sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, yn gyson â thelerau'r polisi hwn. Bydd hyn yn gynnwys (heb gyfyngiad) gwasanaethau a gaiff eu contractio allan.
- 10.6 Yn achos unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan drydydd parti, bydd y pennaeth gwasanaeth perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod manylion llawn am ofynion penodol safonau'r Gymraeg a'r polisi hwn yn cael eu cyfleu i ddarpar ddarparwyr.
- 10.7 Bydd y pennaeth gwasanaeth perthnasol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ddarpar ddarparwyr yn ymwybodol bod angen iddynt fodloni'r Cyngor y gallent ddarparu gwasanaeth dwyieithog, yn unol ag agweddau perthnasol y polisi iaith, i'r gwasanaeth/maes dan sylw.
- 10.8 Wrth osod cytundeb, bydd y pennaeth gwasanaeth perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod y trydydd parti'n cydymffurfio ag agweddau perthnasol o'r polisi hwn ac yn monitro cydymffurfiaeth yn ystod cyfnod y cytundeb. Gwneir hynny trwy gynnwys manylion perthnasol mewn deunyddiau a roddir i'r trydydd parti.
- 10.9 Lle bydd disgwyl i drydydd parti ddarparu deunydd ysgrifenedig neu wneud cyflwyniadau i gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor, bydd y pennaeth gwasanaeth perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n ddwyieithog trwy gynnwys amodau penodol o fewn y cytundeb gyda'r trydydd parti dan sylw.
- 10.10 Mae'r polisi hwn yr un mor berthnasol i unrhyw drydydd parti sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor ag ydyw i'r Cyngor ei hun wrth ymdrin â'r cyhoedd.
- 10.11 Anogwn sefydliadau, cyrff neu unigolion nad ydynt yn cynrychioli corff cyhoeddus, ond sy'n darparu gwasanaeth a reoleiddir gan y Cyngor, i gydymffurfio â gofynion y polisi hwnnw. Darparwn wybodaeth am arferion da yn ôl yr angen.
- 10.12 Wrth brynu gwasanaethau gan drydydd parti ar ran y cyhoedd, dan amgylchiadau na chyfeiriwyd atynt yn barod, byddwn yn annog y trydydd parti hwnnw i ddefnyddio'r Gymraeg wrth wasanaethau'r cyhoedd yng Nghymru.

- 10.13 Gweithiwn yn aml mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector, ac asiantaethau eraill. Lle'n briodol, byddwn yn sicrhau bod ein partneriaid yn gweithredu'n unol ag egwyddorion canllaw Comisiynydd y Gymraeg ar osod contractau gwasanaethau cyhoeddus.
- 10.14 Pan fo'r Cyngor yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn weithredol, byddwn yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â gofynion y polisi hwn a safonau'r Gymraeg sydd wedi eu gosod arnom.
- 10.15 Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth, ac mae corff arall yn ei arwain, bydd ein mewnbwn yn unol â gofynion y polisi hwn a safonau'r Gymraeg sydd wedi eu gosod arnom. Defnyddiwn ein dylanwad i annog partneriaid eraill i weithredu o'r un safonau â ni.
- 10.16 Pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel rhan o consortia neu gyd-bwyllgor, byddwn yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith Gymraeg. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortia, gwnawn hynny'n unol â'r polisi hwn.
- 10.17 Pan fo'r Cyngor yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, holwn ddarpar bartneriaid am eu polisiau iaith Gymraeg, neu'r modd y maent yn gweithredu'n ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, cynigwn gyngor a chymorth mewn perthynas â'r Gymraeg a dwyieithrwydd i'r partïon eraill dan sylw.
- 10.18 Wrth ddrafftio ac adolygu cytundebau cyd-ddarparu a chyd-ariannu, byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y polisi hwn i osgoi unrhyw ddirywiad mewn darpariaeth Gymraeg i'r cyhoedd. Byddwn yn monitro cytundebau i sicrhau cydymffurfiaeth.
- 10.19 Defnyddiwn ein dylanwad i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn ein hardal ymhlith ein partneriaid a chydweithio i wella gwasanaethau dwyieithog.
- 10.20 Byddwn yn pwysu am gyfleoedd i alluogi aelodau staff i barhau i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg wrth gyd-ddarparu.

11. Hunaniaeth y Cyngor a'r ardal leol

Safon cyflenwi gwasanaethau 83

Egwyddorion cyffredinol:

- Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o'n hunaniaeth.
 - Defnyddiwn ein dylanwad i hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg a gwarchod ein hanes a'n treftadaeth.
-

- 11.1 Bydd wyneb cyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn ddwyieithog ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 11.2 Bydd hyn yn cynnwys enw'r Cyngor a'i wasanaethau, a'i holl gyfeiriadau perthnasol, ei logo, ei frandiau, slogannau, papur pennawd, cyhoeddiadau a'i holl ddeunydd ysgrifenedig cyhoeddus boed hwnnw ar ffurf adroddiad, arwydd, ffurflen, hysbysiad, rhybudd neu ysgrifen ar adeilad, cerbyd neu beiriant o eiddo'r Cyngor.
- 11.3 Byddwn yn hyrwyddo ymhellach enwau a geirfa Gymraeg o fewn ein hunaniaeth wrth weithredu ein strategaeth hybu'r Gymraeg. Yn achos arwyddeiriau megis 'Môn Mam Cymru', ni fyddant yn cael eu cyfieithu.
- 11.4 Byddwn yn cynnal rhestr o enwau lleoedd ar Ynys Môn. Byddwn yn arddel ffurfiau Cymraeg o enwau lleoedd a nodweddion daearyddol eraill, heblaw mewn achosion lle mae'r Cyngor wedi cydnabod fersiwn Saesneg swyddogol. Lle cydnabyddir ffurf Saesneg o enw lle, dylid ei ddefnyddio mewn cyd-destun Saesneg yn unig.
- 11.5 Byddwn yn seilio enwau strydoedd neu ystadau newydd ar enwau cynhenid, hanesyddol yr ardal yn Gymraeg. Pan fyddwn yn bathu enw newydd, gwnawn hynny yn Gymraeg yn unig ac yn unol â'n polisi ar enwi a rhifo strydoedd a thai. Defnyddiwn y gyfundrefn gynllunio gwlad a thref i gefnogi gweithrediad yr ymrwymïadau polisi hyn.

Rhan 2: Llunio polisi ac asesu effaith ar y Gymraeg

Mae'r rhan hwn o'r polisi yn egluro sut y byddwn yn ystyried y Gymraeg wrth gymryd penderfyniadau.

12. Asesu effaith

Safonau llunio polisi 88, 89, 90

Safon cadw cofnodion 150

Egwyddor gyffredinol:

- Byddwn yn asesu effaith ein penderfyniadau ar y Gymraeg wrth i ni ddatblygu cynigion neu wneud newidiadau i'n harferion.
-

- 12.1 Byddwn yn ystyriol o egwyddorion canllaw Comisiynydd y Gymraeg, Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a phheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg⁴, wrth ddatblygu cynigion neu wneud newidiadau i'n harferion.
- 12.2 Bydd cyfrifoldeb ar wasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i effeithiau posib unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Gwnânt hyn wrth ddatblygu cynigion ar gyfer polisiâu, strategaethau a chynlluniau newydd, neu wrth adolygu neu addasu arferion cyfredol.
- 12.3 Bydd cyfrifoldeb ar wasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod unrhyw bolisiâu, strategaethau a chynlluniau newydd yn cyd-fynd ag ymrwymïadau ehangach Cynllun y Cyngor â'n strategaeth hybu'r Gymraeg.
- 12.4 Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd o dan safonau'r Gymraeg i asesu effaith ar y Gymraeg trwy ddefnyddio fframwaith asesu effaith. Bydd y fframwaith hwn yn cwmpasu dyletswyddau statudol eraill yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.
- 12.5 Byddwn yn cyfeirio at y fframwaith asesu effaith wrth wneud argymhellion i'n haelodau etholedig er eu penderfyniad. Bydd swyddogion polisi a'r Gymraeg ar gael i roi arweiniad pellach ar amgylchiadau lle dylid cynnal asesiad effaith ar yr iaith yn unol â gofynion y safonau llunio polisi a chod ymarfer Comisiynydd y Gymraeg.
- 12.6 Byddwn yn cyhoeddi deunyddiau ar ein mewnwyd i gefnogi swyddogion sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau effaith.

⁴ Comisiynydd y Gymraeg, Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a phheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (2020). Ar gael yn www.comisiynyddygyymraeg.cymru.

- 12.7 Dylid nodi bod prosesau statudol ar wahân ar gyfer asesu effaith ar waith mewn rhai meysydd. Er enghraifft, cynllunio gwlad a thref.

13. Ymgynghori ac ymgysylltu

Safonau llunio polisi 91, 93, 93, 95, 96, 97

Egwyddor gyffredinol:

- Byddwn yn ceisio barn y cyhoedd ar effaith ein cynigion ar y Gymraeg wrth i ni ymgynghori a chynnal gwaith ymchwil.
-

- 13.1 Bydd cyfrifoldeb ar wasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod unrhyw waith ymchwil neu ymgynghori cyhoeddus a wneir ganddynt wrth ddatblygu cynigion neu wneud newidiadau i'n harferion yn ceisio barn am effaith ar y Gymraeg.
- 13.2 Byddwn yn holi cwestiynau penodol am effaith ar y Gymraeg mewn dogfennau ymgynghori ac wrth gynnal gwaith ymchwil. Bydd arweiniad ar gwestiynau addas ar gael i swyddogion ar fewnwyd y Cyngor a gan swyddogion polisi a'r Gymraeg.

Rhan 3: Defnydd mewnol o'r Gymraeg

Defnyddir y Gymraeg ym mhob agwedd o weinyddiaeth fewnol y Cyngor. Mae'r rhan hwn o'r polisi yn egluro sut y byddwn yn defnyddio'r iaith gyda'n staff, ein haelodau etholedig a lleyg, ac o fewn ein gweinyddiaeth.

14. Cyfarfodydd a chyfathrebu mewnol

Safon gweithredu 98

Egwyddorion cyffredinol:

- Cymraeg yw iaith naturiol ein cyfarfodydd mewnol.
 - Byddwn yn annog ein staff i ddefnyddio'n Gymraeg yn eu gwaith.
 - Byddwn yn cyfathrebu'n fewnol yn ddwyieithog er mwyn bod yn gynhwysol o'n holl aelodau staff.
-

- 14.1 Bydd disgwyl i gyfarfodydd mewnol y Cyngor gael eu cynnal yn Gymraeg lle'n bosib. Byddwn yn defnyddio cymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd lle bo angen.
- 14.2 Byddwn yn annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd ar lafar ac yn ysgrifenedig ac yn cynnal ymgyrchoedd i hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y gwaith. Bydd cefnogaeth, yn cynnwys hyfforddiant ac adnoddau, ar gael i unrhyw un sy'n dymuno datblygu eu defnydd o'r Gymraeg.
- 14.3 Rydym yn cydnabod nad oes gan bob aelod o'n gweithlu'r hyder na'r sgiliau angenrheidiol i weithio'n gyfan gwbl drwy'r Gymraeg. Bydd gan staff yr hawl i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg cyn belled ag y bo hynny'n gyson â darpariaethau'r polisi hwn a gofynion ieithyddol eu swyddi, ac nad yw'n amharu'n sylweddol ar effeithiolrwydd cyfathrebu mewnol.
- 14.4 Bydd pob cyfathrebiad torfol mewnol yn ddwyieithog er mwyn bod yn gynhwysol o'n holl staff. Bydd testun Cymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben testun Saesneg a bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, amlygrwydd ac ansawdd.
- 14.5 Er mwyn sicrhau unffurfiaeth ac er mwyn osgoi dryswch, un wyddor fydd yn cael ei defnyddio wrth ddynodi paragraffau, adrannau ac ati mewn testunau, a'r wyddor Gymraeg fydd honno.

15. Gwasanaethau mewnol

Safonau gweithredu 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 120, 124, 125, 126

Egwyddorion cyffredinol:

- Bydd gwasanaethau mewnol ar gyfer ein staff ar gael yn Gymraeg.
 - Byddwn yn parchu hawl ein staff i arddel dewis iaith ac yn darparu deunyddiau a chynnal prosesau yn ymwneud â'u cyflogaeth yn yr iaith o'u dewis.
-

- 15.1 Byddwn yn cofnodi dewis iaith ein staff, ac yn parchu'r dewis hwnnw wrth ddarparu deunyddiau a gwasanaethau mewnol sy'n ymwneud â'u cyflogaeth â'r Cyngor.
- 15.2 Bydd ein holl bolisiâu mewnol ar gael yn ddwyieithog ar ein mewnrwyd a thrwy gais.
- 15.3 Bydd gan ein staff yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu Saesneg fel rhan o brosesau cwyno a disgyblu. Byddwn yn hysbysu ein staff o'r hawl hwn a, lle nodir, yn cynnal prosesau yn Gymraeg yn unol â gofynion y safonau gweithredu.
- 15.4 Bydd meddalwedd ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg a rhyngwynebau Cymraeg ar gael i'n staff.
- 15.5 Bydd holl wybodaeth ein mewnrwyd yn ddwyieithog, ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ein mewnrwyd. Byddwn yn cynnal cynnwys ar y fewnrwyd i hybu'r Gymraeg a chynorthwyo ein staff i ddefnyddio'r iaith.

16. Hyfforddiant a chynllunio gweithlu

Safonau gweithredu 127, 128, 129, 130, 132, 133, 134, 135
Safonau cadw cofnodion 151, 152

Egwyddor gyffredinol:

- Byddwn yn cynnig ystod o hyfforddiant i gefnogi ein staff i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.
-

- 16.1 Byddwn yn gweithredu fframwaith sgiliau iaith er mwyn asesu sgiliau iaith Gymraeg ein staff. Defnyddiwn y fframwaith er mwyn sicrhau bod sgiliau iaith Gymraeg ein staff yn addas er mwyn cyflawni eu dyletswyddau.
- 16.2 Fel rhan o'n trefniadau adolygu perfformiad blynyddol, bydd yn ofynnol i'n staff adrodd ar eu sgiliau iaith Gymraeg ynghyd ag unrhyw anghenion datblygu.
- 16.3 Byddwn yn cynllunio ein gweithlu er mwyn sicrhau bod gan weithleoedd sydd â chysylltiad â'r cyhoedd nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg i gynnig gwasanaethau yn unol â darpariaethau'r polisi hwn.

- 16.4 Lle nad oes gan weithleoedd gysylltiad â'r cyhoedd, bydd sgiliau iaith Gymraeg staff yn amrywio o swydd i swydd. Bydd swyddogion yn cael eu hannog i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg er mwyn hwyluso cydweithio o fewn timoedd, a rhwng gwasanaethau'r Cyngor yn gyffredinol.
- 16.5 Byddwn yn dynodi pa sgiliau iaith Gymraeg sy'n berthnasol i bob swydd yn unol â'n fframwaith sgiliau iaith a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn swydd ddisgrifiadau. Bydd arweiniad ar ddynodi lefelau sgiliau iaith Gymraeg ar gael i gefnogi rheolwyr sy'n gyfrifol am lunio swydd ddisgrifiadau.
- 16.6 Byddwn yn darparu hyfforddiant yn Gymraeg a Saesneg fel mater o drefn. Os byddwn yn cynnig hyfforddiant ar y pynciau hyn, bydd ar gael yn Gymraeg:
- Recriwtio a chyfweld
 - Rheoli perfformiad
 - Gweithdrefnau cwyno a disgyblu
 - Ymsefydlu
 - Delio â'r cyhoedd
 - Iechyd a diogelwch
- 16.7 Byddwn yn darparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, wrth gynnal cyfweiliadau, ac fel rhan o gweithdrefnau cwyno a disgyblu.
- 16.8 Byddwn yn annog ein staff i ddilyn cyrsiau hyfforddi yn Gymraeg pan fo hynny'n berthnasol. Defnyddiwn ein dylanwad i annog cyrff arholi/asesu sy'n gwasanaethu Cymru i gynnig dewis iaith i fyfyrwyr sefyll arholiadau a chyflwyno gwaith i'w asesu'n Gymraeg.
- 16.9 Bydd pob aelod newydd o staff yn derbyn ymwybyddiaeth o'r iaith, safonau'r Gymraeg a sut y gellir defnyddio'r iaith yn y gwaith fel rhan o'r broses anwytho. Bydd hyfforddiant ar y pynciau hyn hefyd ar gael i aelodau eraill o'n staff.
- 16.10 Byddwn yn darparu llofnod e-bost ac adnoddau eraill i swyddogion eu defnyddio er mwyn rhoi gwybod eu bod yn siarad neu'n dysgu Cymraeg.
- 16.11 Anogwn ein staff i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg trwy gydol eu gyrfa efo'r Cyngor. Byddwn yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith.
- 16.12 Cyfrifoldeb rheolwyr fydd annog staff i fynychu ac i asesu'r angen am hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg o fewn eu timoedd.
- 16.13 Byddwn yn sicrhau bod swyddogion sy'n dysgu Cymraeg yn derbyn nifer penodol o oriau o hyfforddiant iaith Gymraeg mewn blwyddyn.

- 16.14 Adnoddau dynol, dan arweiniad y pennaeth proffesiwn, fydd yn gyfrifol am arolygu darpariaeth hyfforddiant iaith Gymraeg y Cyngor.

17. Recriwtio a phenodi

Safonau gweithredu 136, 136A, 137, 137A, 137B, 138, 140
Safonau cadw cofnodion 153, 154

Egwyddor gyffredinol:

- Mae gallu yn y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer swyddi'r Cyngor a bydd lefel y gallu yn ddibynnol ar ofynion pob swydd.
-

- 17.1 Bydd elfen o allu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swyddi o fewn y Cyngor. Bydd yr union lefel sgil sydd ei angen ar gyfer cyflawni gofynion swyddi yn cael ei asesu gan reolwyr yn erbyn ein fframwaith sgiliau iaith a'i nodi yn y swydd ddisgrifiad.
- 17.2 Cydnabyddwn bod her i benodi unigolion gyda'r sgiliau iaith Gymraeg disgwylledig i rai swyddi. Os ydym yn methu â phenodi unigolyn â'r sgiliau iaith Gymraeg disgwylledig, byddwn yn ail-hysbysebu'r swydd gyda'r un gofynion ieithyddol. Dim ond ar ôl ail fethiant i benodi, a gyda chydysyniad y panel penodi, y caniateir ail-ystyried gofynion ieithyddol y swydd.
- 17.3 Wrth ail-hysbysebu rhai swyddi penodol, byddwn yn egluro bod croeso i unigolion sy'n teimlo nad oes ganddynt y sgiliau iaith Gymraeg disgwylledig ymgeisio. Mae'n bosib y byddwn yn gosod disgwyliad ar yr unigolyn i gyrraedd gofynion ieithyddol y swydd fel amod contract mewn sefyllfaoedd o'r fath.
- 17.4 Wrth gategoreiddio swydd fel un lle bydd angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan penodir iddi, byddwn yn adnabod hyfforddiant addas ac yn gosod targedau er mwyn cyrraedd gofynion ieithyddol y swydd wrth benodi.
- 17.5 Yn gyffredinol wrth hysbysebu swyddi, byddwn yn tynnu sylw at yr hyfforddiant a'r gefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg sydd ar gael i'n staff.
- 17.6 Croesawn dderbyn ceisiadau am swyddi gyda'r Cyngor yn Gymraeg a Saesneg. Bydd ein ffurflenni cais am swydd yn holi ymgeiswyr am eu dewis iaith a byddwn yn trin ceisiadau yn y naill iaith yn gyfartal.
- 17.7 Byddwn yn cynnal cyfweiliadau am swyddi yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na olynol) os mai dyna ddymuniad yr ymgeisydd.
- 17.8 Disgwylir i reolwyr asesu sgiliau ieithyddol ymgeiswyr fel rhan o'r broses gyfnewid.

- 17.9 Mae ein polisi recriwtio a dethol, a chanllawiau cysylltiedig, yn rhoi arweiniad i reolwyr ar y broses i'w dilyn, ynghyd ag ystyriaethau iaith Gymraeg perthnasol. Gall swyddogion adnoddau dynol a pholisi a'r Gymraeg roi cyngor ar sut i ystyried y Gymraeg os bydd unrhyw drefn wahanol i'r arfer yn cael ei defnyddio wrth benodi.

18. Aelodau etholedig a lleyg

Egwyddorion cyffredinol:

- Byddwn yn parchu dewis iaith ein haelodau etholedig a lleyg.
- Byddwn yn cynnig yr un safon o wasanaeth i'n haelodau etholedig a lleyg yn y ddwy iaith.

- 18.1 Er bod ein haelodau etholedig a lleyg yn rhan o weithdrefnau mewnol y Cyngor, nid ydynt, gan amlaf, yn atebol i safonau'r Gymraeg yn yr un modd â'n staff. Dim ond ddarparu gwasanaeth yn rhinwedd swyddogaeth sydd wedi'i ddirprwyo y Cyngor y mae'n rhaid i aelod etholedig gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.⁵
- 18.2 Er hynny, mae croeso i'n haelodau etholedig a lleyg arddel a pharchu egwyddorion y polisi hwn a disgwylir iddynt fod yn ymwybodol o'r gofynion ar y Cyngor.
- 18.3 Bydd hyfforddiant iaith Gymraeg ar gael i'n aelodau etholedig (a'n haelodau lleyg lle'n berthnasol) yn yr un modd ag i'n staff.
- 18.4 Wrth ddarparu gwasanaethau mewnol i'n haelodau etholedig a lleyg, byddwn yn gweithredu'n unol â darpariaethau rhan un y polisi hwn.
- 18.5 Nid yw darpariaethau'r polisi hwn yn berthnasol i weithgareddau ward ein haelodau etholedig.

19. Gwasanaeth cyfieithu

- 19.1 Bydd ein tîm o gyfieithwyr cymwys yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i holl bwyllgorau, panelau, grwpiau gweithio, fforymau a chyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor. Bydd yn cyfieithu adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd y Cyngor, ynghyd ag amrywiaeth o ddeunyddiau eraill.
- 19.2 Bydd yn rhoi cefnogaeth i wasanaethau'r Cyngor ar faterion dwyieithrwydd a chynnig arweiniad ar ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd yn parhau i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i gefnogi a chryfhau capasiti'r gwasanaeth.

⁵ Comisiynydd y Gymraeg, Cod ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (2020), t. 12. Ar gael yn www.comisiynyddygyymraeg.cymru.

- 19.3 Pan fo sefydliad, corff neu unigolyn preifat yn cyflwyno dogfen, adroddiad, llythyr, neu ddeunydd arall i'r Cyngor yn Saesneg yn unig, a'r angen yn codi i gyflwyno'r testun i bwyllgor neu banel, cyfrifoldeb yr unigolyn hwnnw fydd cyflwyno'r wybodaeth yn ddwyieithog.
- 19.4 Bydd gan bawb yr hawl i siarad Cymraeg yng nghyfarfodydd a phwyllgorau'r Cyngor. Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn holl gyfarfodydd y Cyngor yn ôl yr angen.
- 19.5 Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd rhithiol a hybrid yn ôl yr angen. Bydd y tîm cyfieithu yn cynghori ar addasrwydd y math o dechnoleg angenrheidiol, yn darparu canllawiau, ac yn cynghori ar sut i drefnu cyfarfodydd rhithiol lle mae angen am wasanaeth cyfieithu ar y pryd.
- 19.6 Os nad oes offer cyfieithu parhaol mewn ystafell a ddefnyddir i gynnal cyfarfodydd y Cyngor, darparwn offer symudol yn ôl y galw.
- 19.7 Pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal mewn adeilad sy'n eiddo i gorff arall, a'r Cyngor yn rhan o'r gwaith trefnu, darparwn offer symudol yn ôl y galw.
- 19.8 Bydd y gwasanaeth cyfieithu yn cynorthwyo'r gwaith o fonitro defnydd ysgrifenedig o'r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth a'r broses o gyfieithu testunau. Bydd hyn yn rhan o ymarfer o ymestyn effeithlonrwydd gwasanaethau i allu darparu gwasanaeth Cymraeg a Saesneg cyflawn heb orfod bod yn or-ddibynol ar yr gwasanaeth cyfieithu.

Rhan 4: Atebolrwydd a materion eraill

Mae'r rhan hwn o'r polisi yn egluro ein trefniadau eraill ar gyfer cadw at ofynion safonau'r Gymraeg.

20. Cyfrifoldeb am weithredu'r polisi

Safon gweithredu 98

Safonau atodol 157, 155, 159, 161, 163, 167, 173, 175

- 20.1 Y prif weithredwr yw'r swyddog o'r tîm arwain sy'n gyfrifol am y Gymraeg o fewn y Cyngor. Bydd y swyddog hwnnw, gyda chefnogaeth swyddogion polisi a'r Gymraeg, yn hyrwyddo gweithrediad y polisi hwn.
- 20.2 Bydd y tîm rheoli corfforaethol yn gyfrifol am sicrhau fod gwasanaethau'r Cyngor yn gweithredu'n unol ag ymrwymiad ac amcanion y Cyngor mewn perthynas â'r iaith, yn ogystal â gofynion safonau'r Gymraeg a'r polisi hwn.
- 20.3 Bydd grŵp sy'n cynnwys aelodau etholedig trawsbleidiol a swyddogion yn cadw trosolwg dros ddefnydd y Cyngor o'r Gymraeg, yn cynnwys gweithrediad y polisi hwn, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer hyrwyddo'r iaith.
- 20.4 Byddwn yn cyhoeddi'r polisi hwn er mwyn esbonio sut y byddwn yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg a'n trefniadau ar gyfer goruchwyllo ein cydymffurfiad. Mae'r polisi a manylion yr union safonau sydd wedi eu gosod arnom ar gael ar ein gwefan, yn ein safleoedd, a thrwy gais.

21. Adroddiad blynyddol

Safonau atodol 156, 158, 164, 170

- 21.1 Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cydymffurfiad â safonau'r Gymraeg a gofynion y polisi hwn. Bydd yr adroddiad hwnnw ar gael ar ein gwefan, yn ein safleoedd, a thrwy gais.

22. Comisiynydd y Gymraeg

Safonau atodol 160, 166, 172, 174

Safon cadw cofnodion 176

- 22.1 Byddwn yn darparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'n cydymffurfiad â safonau'r Gymraeg.

23. Cwynion

Safonau cadw cofnodion 147, 148, 149

Safonau atodol 156, 158

- 23.1 Byddwn yn delio â chwynion iaith Gymraeg yn unol ag egwyddorion gweithdrefn bryderon a chwynion y Cyngor. Mae gwybodaeth am y weithdrefn ar gael ar ein gwefan, yn ein safleoedd, a thrwy gais.
- 23.2 Bydd swyddogion polisi a'r Gymraeg yn cadw cofnod a chopïau o gwynion sy'n ymwneud â'n cydymffuriad â safonau'r Gymraeg, a chwynion am yr iaith yn gyffredinol. Byddwn yn adrodd ar y cwynion hyn yn flynyddol.
- 23.3 Croesawn dderbyn sylwadau ac awgrymiadau ar sut i wella ein gwasanaethau Cymraeg. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at sylw swyddogion polisi a'r Gymraeg gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar glawr y polisi hwn.

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	18/02/2025
Pwnc / Testun:	Terfynu Cytundeb Partneriaeth GwE
Deilydd(ion) Portffolio:	Cynghorydd Dafydd Roberts
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Marc Berw Hughes Cyfarwyddwr addysg, Sgiliau a Phobol Ifanc
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	Marc Berw Hughes marchughes@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Argymhellion:

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo terfynu'r gytundeb i weithio mewn partneriaeth efo awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru yng nghyd-destun Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol (GwE) ar y 31 o Fai, 2025 ac o ganlyniad diddymu yr angen am barhad Cyd-Bwyllgor GwE.
2. Os bydd yr amserlen yn llithro, bod y Pwyllgor Gwaith yn rhoi'r hawl i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobol Ifanc, mewn cydweithrediad a'r Deilydd Portffolio Addysg, benderfynu ar ddyddiad addas i derfynu'r cytundeb.
3. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cadarnhau ei ymrwymiad cytundebol yng nghyswllt dod a'r trefniant i ben.

1. Penderfyniad a Geisir:

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r argymhelliad i derfynu'r gytundeb cydweithio presennol a thrwy hynny gadarnhau y bydd GwE, gan gynnwys Cyd-Bwyllgor GwE, yn dod i ben ar y 31 o Fai, 2025.

2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Pwyllgor Gwaith wneud y penderfyniad:

Yn dilyn adolygiad o gyfrifoldebau partneriaid Addysg yng Nghymru, mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru i symud o ffordd ranbarthol ehangach o weithio i fodel gweithio mwy lleol.

I'r perwyl hwnnw, mae'r Bwrdd Trosiannol wedi'i sefydlu i oruchwylio trefniadau trosglwyddo gwasanaethau GwE yn ôl i'r awdurdodau lleol yn Ngogledd Cymru.

Er mwyn ffurfioli y newid i'r trefniant o weithio mewn partneriaeth, mae gofyn i'r 6 awdurdod gymeradwyo dod a'r gytundeb presennol (Gwasanaethau GwE) i ben ynghyd a diddymu Cyd-Bwyllgor GwE.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1. Cefndir/ Cyflwyniad

Sefydlwyd GwE trwy gytundeb rhwng y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru dyddiedig 18 Chwefror, 2013.

Cytunwyd i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fyddai'n atebol i'r chwe Cyngor ac a fyddai'n cyflawni swyddogaethau statudol y cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion h.y. dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal a darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Bu i'r cynghorau gytuno i benodi Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gan ffurfio Cyd-Bwyllgor, i gadw trosolwg a rhoi arweiniad yn ôl y gofyn, yn unol ag Adran 101(5) a 102(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

3.2. Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad

Ar y 31 o Ionawr, 2024, bu i'r Gweinidog ar gyfer Addysg a'r Iaith Gymraeg ar y pryd, gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn cyfeirio at adolygiad o rolau a chyfrifoldebau partneriaid Addysg yng Nghymru yn ogystal a threfniadau gwella ysgolion cyfredol. Roedd y datganiad yn gwneud yn glir bod bwriad i symud oddi wrth y model rhanbarthol ehangach ar gyfer cefnogi gwella ysgolion gyda golwg i sefydlu partneriaethau rhwng mwy nac un awdurdod ar lefel mwy lleol. Arweiniodd hyn at gadarnhad y byddai GwE yn dod i ben fel consortiwm rhanbarthol.

Yn sgil y datganiad hwnnw, mae Bwrdd Trosiannol wedi'i sefydlu i oruchwylio trefniadau trosglwyddo gwasanaethau GwE yn ôl i'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac mae strwythurau wedi'u datblygu er mwyn darparu'r gefnogaeth i ysgolion ar lefel awdurdodau lleol unigol.

Fodd bynnag, mae angen dod a'r gytundeb, i gydweithio mewn partneriaeth yn y cyd-destun hwn, i ben yn ffurfiol. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i bob un o'r chwe Cyngor gytuno'n ysgrifenedig i derfynu'r gytundeb presennol. Gofynnir felly i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r argymhelliad i derfynu'r gytundeb cydweithio yma a thrwy hynny gadarnhau y bydd GwE yn dod i ben ar y 31 o Fai 2025.

Noder nad yw terfynu'r gytundeb yn effeithio ar hawliau cronrus nac ar yr ymrwymadau sydd eisoes wedi'u cytuno arnynt. Manylir ar yr ymrwymadau hynny yn y gytundeb a wnaed rhwng y chwe Awdurdod yn 2013 (gweler Atodiad 1).

Wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â'r argymhellion, dylid nodi bod peth ansicrwydd yn parhau ynglŷn â'r canlynol:

- Gwir gostau pensiwn diswyddiadau
- Swm terfynol y cyllid a addawyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda chostau trosiannol.
- Y balansau terfynol yng nghyfrifon GwE y gellir eu defnyddio fel costau trosiannol.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Yn dilyn arfarniad cenedlaethol penderfynwyd diddymu pob consortia ar draws Cymru. Oherwydd hyn, nid oedd yn bosib ystyried opsiwn arall.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r awdurdod i sefydlu a thynnu'n ôl o drefniadau partneriaeth yn swyddogaeth Weithredol yn unol â pharagraff 4.8.6.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor ac felly o fewn CSYM mae'r penderfyniad hwn gyda'r Pwyllgor Gwaith.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ni fydd angen cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Gall y penderfyniad i derfynu Cytundeb Partneriaeth GwE arwain at nifer o gostau unwaith ac am byth gan gynnwys taliadau diswyddo i staff, taliadau i'r Cronfeydd Pensiwn i ganiatáu rhyddhau pensiwn yn gynnar i staff dros 55 oed sy'n cael eu diswyddo a'r posibilrwydd o taliad derfynu swydd i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r ffaith nad yw GwE bellach yn Gorff Rhestredig i Gronfa Pensiwn Gwynedd.

Gan nad yw manylion y trosglwyddiadau staff wedi'u cwblhau eto, nid yw'n bosibl mesur gwerth y costau unwaith ac am byth. Bydd unrhyw arian wrth gefn sy'n weddill gan GwE ac unrhyw arian grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio yn y lle cyntaf i ariannu'r costau hyn, ond os yw'r cyllid hwn yn annigonol, yna bydd yn rhaid i unrhyw falans gael ei ariannu gan y 6 awdurdod partner yn unol â'r telerau'r cytundeb partner.

Os bydd newid i'r dyddiad terfynu unwaith eto, mae gan y Cyngor y gyllideb i dalu, os oes angen newid y cyfraniad i GwE.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Oherwydd y penderfyniad yma gallwn greu un tîm canolog er mwyn ymateb i anghenion lleol Ynys Môn.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Yn y tymor hir mae'r newid yn caniatáu i'r Cyngor cynnig y gwasanaeth am gost lai ac yn rhoi fwy o reolaeth dros y gwasanaeth i'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Mae CSYM wedi cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol y Gogledd.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Amh.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amh.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Mae'r penderfyniad yn un strategol ac ni fydd yn effeithio ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â	Dim effaith

	thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
--	--	--

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Cafwyd mewnbwn y Tim Arwain i'r adroddiad
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Gweler rhan D o'r adroddiad
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Cafwyd mewnbwn y Uwch-swyddog cyfreithiol i'r adroddiad
4	Adnoddau Dynol (AD)	amh
5	Eiddo	amh
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	amh
7	Caffael	amh
8	Sgriwtini	amh
9	Aelodau Lleol	amh

F - Atodiadau:
Cytundeb Partneriaeth a wnaed rhwng y chwe Awdurdod yn 2013

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):
Llywodraeth Cymru - Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd

This page is intentionally left blank